Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# LLAWLYFR GWYBODAETH I RIENI

2027/28

WWW.NPT.GOV.UK

Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

**Dyddiadau Tymhorau'r Ysgol a Gwyliau**
**2026 - 2027 Blwyddyn Academaidd**

| | | Gwyliau Hanner Tymor | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor** | **Dechrau'r Tymor** | **Dechrau** | **Diwedd** | **Diwedd y Tymor** | **Diwrnodau** |
| Hydref 2026 | Dydd Mawrth 1 Medi | Dydd Llun, 26 Hydref | Dydd Gwener 30 Hydref | Dydd Gwener 18 Rhagfyr | **74** |
| Gwanwyn 2027 | Dydd Llun 4 Ionawr | Dydd Llun 8 Chwefror | Dydd Gwener 12 Chwefror | Dydd Gwener 19 Mawrth | **50** |
| Haf 2027 | Dydd Llun 5 Ebrill | Dydd Llun 31 Mai | Dydd Gwener 4 Mehefin | Dydd Mawrth 20 Gorffennaf | **71** |
| | | | | **Cyfanswm** | **195** |

**Bydd ysgolion ar gau i disgyblion am diwrnodau hyfforddiant mewn swydd/Paratoi Staff am pump diwrnod rhwng Dydd Mawrth 1 ail Medi 2026 a Dydd Mercher 20 Gorffennaf 2027.**

**Gwyliau Banc**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener y Groglith | 3 Ebrill 2026 |
| Dydd Llun y Pasg | 6 Ebrill 2026 |
| Diwrnod Mai | 4 Mai 2026 |
| Gŵyl Banc Gwanwyn | 25 Mai 2026 |

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL NEDD PORT TALBOT
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes

**Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 2027/28**

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu arsylwadau i'w gwneud am y llyfryn hwn, llenwch y ffurflen isod a dychwelwch y ffurflen at y Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ, neu e-bostiwch sfs@npt.gov.uk neu ffoniwch: 01639 763600.

1. Ydych chi'n fodlon ag arddull a chynllun y llyfryn?

Ydw ............... ☐
Nac ydw ............. ☐

Os nad ydych, nodwch sut gellid ei wella yn eich tyb chi.
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................

2. A oedd y wybodaeth yn y llyfryn yn addysgol ac yn ddefnyddiol i chi?

Oedd ...........
Nac oedd ....

Os nad oedd, pa bynciau eraill fyddech chi'n dymuno'u cynnwys?
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................

3. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol, nodwch fanylion isod:
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................
.......................................................................................................................

**CYNNWYS:**


| | Tudal |
|---|---|
| Dyddiadau tymhorau'r ysgol a gwyliau 2025/2026 | 1 |
| Holiadur Bodlonrwydd Rhieni | 2 |
| Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol | 4 |
| Pryd all fy mhlentyn gychwyn mynychu'r ysgol? | 6 |
| Pryd all fy mhlentyn adael yr ysgol? | 6 |
| Ble gall fy mhlentyn fynychu'r ysgol? | 7 |
| Beth os wyf i'n dymuno i fy mhlentyn gael ei addysgu trwy gyfrwng | 7 |
| Beth pe bawn i'n dymuno i fy mhlentyn gael ei addysgu mewn | 10 |
| Sut allaf i gofrestru fy mhlentyn mewn ysgol? | 10 |
| Sut allaf i gael rhagor o wybodaeth am ysgolion yn yr ardal? | 10 |
| A all fy mhlentyn gael ei addysgu y tu allan i Fwrdeistref Sirol Castell | 11 |
| Beth os oes gan fy mhlentyn Anghenion Addysgol Arbennig | 11 |
| Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer plant o gefndiroedd Lleiafrifoedd | 13 |
| Sut all y Gwasanaeth Lles Addysg gynorthwyo? | 13 |
| Partneriaethau â Rhieni a SNAP | 13 |
| Pa drefniadau diogelu sydd yn eu lle? | 14 |
| Beth am iechyd fy mhlentyn? | 14 |
| A fydd prydau ysgol ar gael?* | 15 |
| A all fy mhlentyn dderbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr? | 16 |
| Grant Addysg Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru Cynllun | 18 |
| Pa gostau y gallai fod yn ofynnol i mi eu talu?* | 19 |
| Beth ddylwn i wybod am drefniadau yswiriant ar gyfer fy | 19 |
| Pryd fydd fy mhlentyn yn cael addysg ac arweiniad ynghylch | 19 |
| Pa arholiadau cyhoeddus fydd fy mhlentyn yn eu sefyll? | 20 |
| Sut mae ysgol fy mhlentyn yn gwybod â phwy ddylent gysylltu? | 20 |
| Pa addysg fydd ar gael pan fydd fy mhlentyn dros 16 oed? | 21 |
| Pa gymorth ariannol fydd ar gael pan fydd fy mhlentyn yn cychwyn | 21 |
| Llwybrau Dysgu 14-19 | 21 |
| A yw Gwobr Dug Caeredin ar gael i fy mhlentyn? | 22 |
| Pa wasanaethau ieuenctid sydd ar gael? | 23 |
| A all fy mhlentyn gael swydd rhan amser? | 23 |
| Beth os yw fy mhlentyn yn dymuno cyfranogi mewn cynyrchiadau | 24 |
| A oes llyfrgell leol ar gael ar gyfer fy mhlentyn? | 24 |
| Pa gyfleusterau diwylliannol a hamdden sydd ar gael ar gyfer fy | 25 |
| A oes amgueddfa i ymweld â hi? | 29 |
| Sut caiff gweithgareddau corfforol a chwaraeon eu cynnal yn lleol? | 30 |
| Beth yw llywodraethwyr ysgolion? | 30 |
| Sut allaf i ddod yn llywodraethwr ysgol? | 31 |
| Sut all rhieni ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor Bwrdeistref | 32 |
| Beth allaf i ei wneud os byddaf i'n anfodlon ag addysg fy mhlentyn | 32 |
| Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion | 33 |
| Atodiad A – Polisi Mynediad i Ysgolion, 2023/24 | 35 |
| Atodiad B - Polisïau Mynediad Ysgolion Ffydd, 2023/24 | 66 |
| Atodiad C – Rhestr o Ysgolion Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port | 130 |
| Dyddiadau tymhorau'r ysgol a gwyliau 2023/24 | 142 |

*Darllenwch yr adran hon os ydych chi'n cael unrhyw fath o fudd-daliadau.
Efallai eich bod chi'n gymwys i gael rhagor o gymorth ariannol.

Annwyl Riant/Ofalwr,

Yng Nghastell-nedd Port Talbot rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, drwy brofiadau dysgu cadarnhaol a chyfleoedd eang, er mwyn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cyrraedd eu potensial. Rydym am sicrhau bod dysgu'n brofiad diogel, sy'n meithrin ac yn rhoi boddhad ym mhob lleoliad, lle rhoddir parch ac ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.

Mae ein rhieni a'n gofalwyr wedi dweud wrthym ba mor bwysig yw hi i'w plant gael mynediad i ysgolion da ac addysg o ansawdd uchel.

Mae profiad ein plant a'n pobl ifanc o ysgol yn hollbwysig ac maen nhw am gymryd rhan weithredol wrth wneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r dewisiadau a wnewch yn bwysig ac mae cael yr wybodaeth gywir er mwyn gwneud eich penderfyniadau yn hanfodol. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch wrth i chi ddewis ysgol ar gyfer eich plentyn yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Rydym yn hyderus bod ein hysgolion i gyd yn ymrwymedig i wireddu pedwar diben y cwricwlwm newydd yng Nghymru, lle mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddatblygu fel:

dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes, cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith, dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae ein hysgolion yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion pob dysgwr, drwy ddarparu amgylchedd cynhwysol lle mae pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu gwneud cynnydd. Bydd pob un o'n hysgolion yn darparu darpariaeth gynhwysol ac ychwanegol fel y nodir yn y Côd Ymarfer ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae llawer o ffynonellau gwybodaeth ar gael i chi i'ch helpu i lywio eich penderfyniad, gan gynnwys adroddiadau arolygu diduedd a ddarperir gan Estyn. Byddem hefyd yn eich annog i ymweld â'r ysgol yr ydych yn ystyried gwneud cais ar ei chyfer.

Mae dewis yr ysgol gywir ar gyfer eich plentyn a'i ddyfodol yn benderfyniad pwysig iawn. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac rwy'n dymuno pob llwyddiant i'ch plentyn ar gyfer ei addysg yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Andrew Thomas**
**Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**

**DALIWCH SYLW:**
**Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn berthnasol ac yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Efallai bydd angen diweddaru rhywfaint o'r polisïau, y dulliau rheoleiddio, y ddarpariaeth a'r adnoddau ar gyfer, neu yn ystod, blwyddyn academaidd 2027/28. Os hoffech gael help i ddarllen y ddogfen hon neu ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Ysgolion a Theuluoedd, Adran Addysg, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ. E-bost: sfs@npt.gov.uk Rhif ffôn: 01639 763600.**

**Pryd all fy mhlentyn gychwyn mynychu'r ysgol?**
Yn dibynnu ar argaeledd lleoedd, gall eich plentyn ddechrau mynychu dosbarth meithrin rhan amser yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed. Nid oes sicrwydd bod lle ar gael ac efallai bydd yn rhaid i chi ychwanegu enw eich plentyn at restr aros. Caiff ceisiadau am lefydd eu gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol (nid yw hynny'n cynnwys ysgolion a gynorthwyir, ac eithrio disgyblion blwyddyn 7 a dderbynnir yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff).

Mae'n rhaid i bob plentyn gychwyn mynychu'r ysgol ddim hwyrach na diwrnod cyntaf y tymor ar ôl iddynt droi'n 5 mlwydd oed. Bydd addysg amser llawn ar gael o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fyddant yn 5 mlwydd oed.

Pan fydd plant rhwng 5 ac 11 oed, darperir addysg mewn ysgolion cynradd, ac eithrio yn Ysgol Babanod Sant Joseff ac Ysgol Iau Sant Joseff, ble darperir addysg mewn ysgolion ar wahân. Yn yr ardaloedd hyn, bydd y mwyafrif o ddisgyblion sy'n troi'n 7 oed erbyn 31 Awst yn trosglwyddo o'r ysgol babanod i'r ysgol iau ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ddilynol.

Fel arfer, bydd plant yn trosglwyddo i ysgol uwchradd pan fyddant yn 11 mlwydd oed. Bydd y mwyafrif o ddisgyblion sy'n troi'n 11 oed erbyn 31 Awst yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ddilynol.

Bydd ffurflenni cais am le yn cael eu hanfon at bob rhiant yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Polisi Derbyn Disgyblion (Atodiad A). Gall rhieni nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol. Gwneir bob ymdrech i gydymffurfio â'r dewis hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hynny'n bosibl bob tro. Os felly, cynigir ysgol arall.

Dim ond yr awdurdod lleol a all gynnig/cadarnhau lleoedd mewn ysgolion cymunedol, nid ysgolion/Penaethiaid unigol.

**Pryd all fy mhlentyn adael yr ysgol?**
Gall disgyblion adael yr ysgol ar y dydd Gwener diwethaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol pan fyddant yn troi'n 16 mlwydd oed.

**Ble gall fy mhlentyn fynychu'r ysgol?**
Bydd y mwyafrif o blant yn mynychu eu hysgol leol. Efallai bydd lle ar gael i'ch plentyn mewn ysgol Gymraeg sy'n gwasanaethu eich ardal os byddwch chi'n dymuno iddo/iddi gael ei (h)addysgu yn Gymraeg.

Yn nes at yr adeg pan fydd eich plentyn yn barod i fynd i'r ysgol, dylech chi gysylltu â swyddog derbyniadau'r awdurdod lleol i ofyn am ffurflen gais. Efallai byddwch chi hefyd yn dymuno cysylltu â'r ysgol yn yr ardal o'ch dewis i drefnu ymweliad.

Mae Cod Derbyniadau Ysgolion 005/2013 a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2013 yn amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â derbyn plant i ysgolion ac apeliadau yn ymwneud â derbyn plant. Gall rhieni ymgeisio ar-lein am le mewn ysgol (ac eithrio am leoedd mewn unedau meithrin) trwy droi at www.npt.gov.uk neu trwy lenwi a dychwelyd ffurflen gais. Yn achos lleoedd mewn unedau meithrin, bydd yn rhaid i rieni gysylltu i ofyn am ffurflen gais.

Gellir canfod enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn pob ysgol yn Atodiad C yn y llawlyfr hwn. Mae'r manylion ar gael ar y wefan hefyd: www.npt.gov.uk

Efallai byddwch chi'n dymuno dewis ysgol arall yn hytrach na'r ysgol cyfrwng Saesneg neu Gymraeg leol. Os byddwch chi, dylech chi wybod nad oes sicrwydd o o gael lle, ac ni chaiff eich plentyn le os na fydd lle ar gael. Byddwch chi hefyd yn gyfrifol am dalu cost y cludiant i deithio i'r ysgol.

Mae holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn rhai cydaddysgol, sef ysgolion ble derbynnir bechgyn a genethod i holl ddosbarthiadau'r ysgol

**Beth os hoffwn i'm plentyn gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?**
Heb os nac oni bai, mae dwyieithrwydd yn rhoi plentyn ar drywydd dyfodol disglair o'r dechrau'n deg. Bydd dwyieithrwydd yn rhoi mantais i'ch plentyn yn y gweithle ac yn agor drysau iddo gan y bydd yn elwa o gyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar hyn o bryd, mae 10 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac 1 ysgol pob oed (3-18 oed) cyfrwng Cymraeg, a hynny ar ddau safle, yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Ar y lefel gynradd, cyflwynir o leiaf 70% o'r gweithgarwch dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a darperir cyfleoedd i bob disgybl fod yn ddysgwr Cymraeg hyderus. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i'r holl ddisgyblion o gartrefi Cymraeg a chartrefi di-Gymraeg.

Darperir cyfleoedd i ddisgyblion cynradd wneud cyrsiau preswyl drwy gyfrwng y Gymraeg i wella eu sgiliau Cymraeg ac mae gan yr Awdurdod Lleol ganolfan iaith arbenigol, 'Y Cwm', i gefnogi disgyblion sydd am bontio o addysg Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ganolfan iaith hefyd yn rhoi cymorth Cymraeg ychwanegol i ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Ar y lefel uwchradd, mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur, sef ysgol gymunedol pob oed cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 18 oed. Mae gan yr ysgol ddau gampws, un yn Ystalyfera yng ngogledd y sir a'r llall yn y de yn Sandfields.

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur yn trefnu rhaglen flynyddol o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob disgybl Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn y clwstwr. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o gymorth Cymraeg cyn trosglwyddo i Flwyddyn 7.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a llwyddiant disgyblion yn y Gymraeg ac yn sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 6 yn pontio'n llwyddiannus o'r 10 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng nghlwstwr Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur.

Cynhelir dysgu ac addysgu yng Nghyfnod Allweddol 3 drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3.

Caiff sgiliau Cymraeg disgyblion eu datblygu ymhellach drwy gydol Cyfnod Allweddol 4 ac yn y Chweched Dosbarth. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau academaidd, galwedigaethol ac allgyrsiol ar gael. Ceir rhagor o fanylion gan yr ysgol.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur yn opsiwn i’r holl ddisgyblion o gartrefi Cymraeg a chartrefi di-Gymraeg. Daw oddeutu 86% o ddisgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg.

Mae ein hysgolion yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot sy'n cefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg ac sy'n pryderu sut gallant helpu eu plentyn gyda gwaith ysgol. Mae hyn, wrth gwrs, ar ben y cymorth a ddarperir gan ysgolion pan fydd eich plentyn yn ddisgybl yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Ganolfan Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cyfrwng Cymraeg yn cyflwyno darpariaeth arbenigol iawn a meithringar i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ganolfan, sydd ar dir Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws, yn cynnig amgylchedd dysgu dwyieithog cefnogol lle mae anghenion unigol disgyblion yn cael eu diwallu drwy addysg wedi'i deilwra ac ymyriadau wedi'u targedu.

Mae gan y ganolfan le i hyd at wyth disgybl a dysgwr i gael mynediad at gefnogaeth arbenigol wrth iddynt gadw cysylltiadau cryf ag addysg a diwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio i annog datblygiad academaidd, cymdeithasol emosiynol a chyfathrebu disgyblion, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae'r ganolfan dan arweiniad Mrs Eleri Bevan, y Dirprwy Bennaeth, ac mae ei harweinyddiaeth yn sicrhau darpariaeth gynhwysol o ansawdd uchel sy'n rhoi lles a chynnydd pob dysgwr wrth wraidd eu gwaith. Trwy gydweithio'n agos ag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau arbenigol, mae'r ganolfan yn cefnogi disgyblion i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r annibyniaeth y mae eu hangen i lwyddo mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y ddarpariaeth neu'r meini prawf derbyn, neu os hoffech drefnu ymweliad, dyma'r wybodaeth gyswllt uniongyrchol:
Ffôn: 01792 864004 neu e-bost: swyddfa@yggtrebannws.npt.school

**Beth pe bawn i'n dymuno i fy mhlentyn gael ei addysgu mewn ysgol eglwys (ysgol wirfoddol a gynhelir)?**
Mae dwy ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru, un ysgol babanod Gatholig, un ysgol iau Gatholig a dwy ysgol gynradd Gatholig yn y Fwrdeistref Sirol. Ar y lefel uwchradd, mae addysg ysgol ffydd ar gael yn Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff, Port Talbot. Mae copïau o bolisïau mynediad pob ysgol ffydd wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

Mae gwybodaeth am addysg mewn ysgolion ffydd ar gael yn uniongyrchol hefyd gan:
**Yr Eglwys yng Nghymru –** Cyfarwyddwr Addysg, Lisa Ceri Taylor, 2, Sgwâr Callaghan CF10 5BT (Rhif ffôn cyswllt: 029 2034 8200) neu e-bost: lisactaylor@cinw.org.uk

**Yr Eglwys Gatholig -** Paul White, Cyfarwyddwr Addysg, Archesgobaeth
Caerdydd-Mynyw, Tŷ'r Archesgob, 41/43 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd CF11 9HD. (Cysylltwch â Mr. Paul White: 029 2022 0411 neu paul.white@cardiffmenevia.org.uk). Gwefan: www.rcadc.org

**Sut allaf i gofrestru fy mhlentyn mewn ysgol?**
Pan fyddwch chi wedi dewis ysgol i'ch plentyn, bydd angen i chi ymgeisio ar-lein yn www.npt.gov.uk neu lenwi ffurflen gais am le mewn ysgol.

**Mae trefniadau ynghylch derbyn disgyblion i ysgolion ar gael yn Atodiad A yn y llyfryn hwn. Mae hyn yn cynnig gwybodaeth ynghylch sut gwneir penderfyniadau pan bennir lleoedd i blant mewn ysgolion.**

**Sut allaf i gael rhagor o wybodaeth am ysgolion yn yr ardal?**
Bydd pob ysgol yn cyhoeddi prosbectws, sy'n darparu gwybodaeth am drefniadaeth yr ysgol, y cwricwlwm ac addysgu a dysgu. Mae rhestr o ysgolion, ynghyd â chyfeiriadau a rhifau ffôn, ar gael yn Atodiad B yn y llawlyfr hwn. Mae'r rhestr hefyd ar gael ar y wefan: www.npt.gov.uk

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot eu gwefannau pwrpasol eu hunain hefyd. Gellir cyrchu'r rhain drwy'r wefan yn: www.npt.gov.uk

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynghylch derbyn plant i ysgolion, cysylltwch â'r: Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ. E-bostiwch: admissions@npt.gov.uk neu ffoniwch: 01639 763730/763580.

**A all fy mhlentyn gael ei addysgu y tu allan i Fwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot?**
Os hoffech chi anfon eich plentyn i ysgol y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, dylech chi gysylltu â'r Awdurdod Lleol perthnasol sy'n gwasanaethu'r ardal ble lleolir yr ysgol. Daliwch sylw: mae'n debyg y byddwch chi'n gyfrifol am dalu costau cludiant i'r ysgol ac oddi yno. Nid yw Bwrdeistref Sirol Port Talbot yn cynnig lleoedd am ddim na lleoedd a gynorthwyir mewn unrhyw ysgol annibynnol.

**Beth os oes gan fy mhlentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol?**
Mae plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael llawer mwy o anhawster dysgu na'r mwyafrif o blant eraill o'r un oedran a/neu mae ganddynt anabledd, sy'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer y math o addysg a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd. Mae amrywiaeth eang o anawsterau dysgu neu anableddau, ond gellir eu dosbarthu'n fras yn y pedwar maes canlynol:

- Cyfathrebu a rhyngweithio;
- Gwybyddiaeth a dysgu;
- Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol;
- Anawsterau synhwyraidd a/neu gorfforol.

Bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar blentyn ag ADY, er mwyn sicrhau bod ei anghenion yn cael eu diwallu a bod unrhyw rwystrau i ddysgu yn cael eu dileu. Mae'n bwysig bod plant ag ADY yn cael eu nodi'n gynnar yn eu gyrfa yn yr ysgol, fel y gellir rhoi ymyriad priodol ar waith cyn gynted â phosib. Mae gan athrawon dosbarth rôl allweddol yn y broses nodi hon.

Dyrennir arian yng nghyllideb pob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY. Rhaid i bob ysgol hefyd benodi Cydlynydd

Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag ADY.

Mae modd i bob ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot hefyd gael cymorth a chyngor rheolaidd gan y Gwasanaeth Cynhwysiant, sy'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hyn yn cynnwys athrawon ymgynghorol, seicolegwyr addysg, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr lles. Nod y Gwasanaeth Cynhwysiant yw hyrwyddo llwyddiant a lles pob plentyn a pherson ifanc. Yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i wneud y mwyaf o'u bywydau a'u doniau. O ganlyniad i hynny, mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn tanategu gwaith y gwasanaeth ac yn sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu clywed.

Bydd anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY yn cael eu diwallu drwy gymorth a darpariaeth yn yr ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd angen i'r Awdurdod Lleol roi cefnogaeth ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys achosion lle mae'r canlynol yn berthnasol i'r dysgwr:

- Mae ganddo gyflwr prin nad oes gan yr ysgol yr arbenigedd i ymdrin ag ef;
- Mae angen arno gyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol, ar ben yr hyn y gall yr ysgol ei drefnu a'i ddefnyddio'n rhesymol;
- Mae angen arno gyfarpar y gellir ei ddefnyddio gan un disgybl yn unig neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol; neu
- Mae angen arno gymorth dyddiol dwys iawn na ellir ei ariannu na'i sicrhau'n rhesymol drwy gyllideb yr ysgol.

Os ydych yn pryderu bod gan eich plentyn ADY o bosib, y cam cyntaf yw siarad â'r athro dosbarth neu Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol.  Gallwch hefyd gysylltu â Gwasanaeth Cefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod Lleol drwy e-bostio alnss@npt.gov.uk

**Pa gymorth sydd ar gael i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, dysgwyr o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a dysgwyr o deuluoedd y Lluoedd Arfog?**

Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed yn darparu cymorth arbenigol i'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed yn cydnabod pwysigrwydd y grwpiau penodol hyn o gofio bod y dysgwyr hyn yn wynebu heriau gwahanol a'u bod yn aml yn llai tebygol o lwyddo'n academaidd yn y system addysg, a'u bod hefyd mewn mwy o berygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed yn darparu ystod eang o gymorth ac ymyriadau amrywiol ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, y rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a dysgwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot, ac yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau eu cyfranogiad, eu llwyddiant, eu cyrhaeddiad a'u lles. Gallwch gysylltu â Julie Stapleton drwy e-bostio j.a.stapleton@npt.gov.uk i gael cymorth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a'r rheini sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Dirprwy Reolwr y Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed a Swyddog Sipsiwn a Theithwyr, Helen Gibbon h.gibbon@npt.gov.uk

**Sut all y Gwasanaeth Lles Addysg gynorthwyo?**

Mae angen i blant fynychu'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn elwa o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael yn lleol. Gall y Gwasanaeth Lles Addysg gynorthwyo i ymdrin ag unrhyw broblemau a all atal plant rhag mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth ar gael ar gyfer disgyblion, rhieni ac athrawon. Mae'n ddolen gyswllt bwysig rhwng yr ysgol a'r cartref ac mae'n helpu rhieni ac athrawon i gydweithio. Gallwch chi gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg trwy law ysgol eich plentyn.

**Partneriaethau â Rhieni a SNAP**

Gall y Swyddog Cyswllt sy'n rhan o'r Tîm Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ddarparu gwybodaeth am amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynorthwyo rhieni. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01639 763158.

Mae SNAP Cymru yn sefydliad sy'n darparu gwasanaeth annibynnol i gynorthwyo rhieni, ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig,

neu rai a all fod ag anghenion o’r fath. Mae’r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i deuluoedd ac mae’n gyfrinachol.

Mae SNAP Cymru yn ceisio hyrwyddo cydweithio a chyfranogi mewn prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Gall hefyd eich cynorthwyo chi i lenwi gwaith papur a’ch cynorthwyo chi yn ystod cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol.

**Pa drefniadau diogelu sydd yn eu lle?**

Mae gofal a lles disgyblion yn brif bryder ym mhob ysgol. Rhaid i ysgolion fod â pholisi Diogelu ac Amddiffyn Plant clir ar waith, y mae'n rhaid i staff ei ddilyn er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae gan bob ysgol athro penodol, dynodedig, sy'n gyfrifol am yr holl faterion diogelu ac ymdrin ag achosion unigol o gam-drin a amheuir. Mae manylion y person hwn ar gael gan ysgol eich plentyn. Os amheuir cam-drin, mae'n ofynnol i'r ysgol gyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cynnal ymchwiliad. Er mwyn amddiffyn a diogelu plentyn, weithiau bydd angen gwneud atgyfeiriadau heb ofyn am gydsyniad rhieni, neu heb eu hysbysu; mae gan yr ysgol ddyletswydd statudol i weithredu er lles pennaf y plentyn. Mae hwn yn faes gwaith sensitif ac mae cefnogaeth rhieni yn bwysig pan fydd ysgolion yn gweithredu i ddiogelu plant.

Gallwn eich sicrhau bod staff yr ysgol yn gweithio gyda lles plant yn gadarn mewn golwg.

Rhaid i unrhyw gamau a gymerir gan ysgolion gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Beth am iechyd fy mhlentyn?**

Mae gan bob ysgol nyrs a meddyg ysgol penodol. Byddant yn ymweld â phob ysgol ac yn trefnu i sgrinio golwg a thwf plant. Bydd y gweithwyr iechyd proffesiynol yn darparu cyngor i rieni ac athrawon i sicrhau bod unrhyw anawsterau iechyd yn yr ysgol yn cael eu datrys a bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu.

I gael rhagor o wybodaeth am Wasanaeth Iechyd yr Ysgolion, gofynnwch am gopi o’r datganiad polisi ynghylch gwasanaethau iechyd ysgolion, sydd ar gael gan Bennaeth ysgol eich plentyn, neu gan y Pediatrydd Cymunedol Ymgynghorol, y Swyddfa Gymunedol, Canolfan Plant, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, ar 01639 862000.

**A fydd prydau ysgol ar gael?**
Darperir prydau ysgol wedi'u coginio’n ffres ym mhob ysgol, ac mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu prydau iach a chytbwys y gwnaiff plant eu bwyta a’u mwynhau.

Mae ein Gwasanaeth Prydau Ysgolion Cynradd yn darparu bwyd a diod mewn ysgolion cynradd. Mae’r bwyd a’r diod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013 gan Lywodraeth Cymru, sy’n amlinellu’r mathau o fwyd a diod y gellir eu darparu yn ystod y diwrnod ysgol a rhai na ellir eu darparu, ac maent yn diffinio cynnwys maeth ciniawau ysgolion. Bydd Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 2025 yn disodli Rheoliadau 2013 a rhoddir cyfnod trosglwyddo ar gyfer cydymffurfio ar waith o 31 Hydref 2026.

Mae’r fwydlen ar gyfer ysgolion cynradd wedi cael ei dadansoddi o safbwynt maeth i sicrhau ei bod yn ateb gofynion y ddeddfwriaeth. Darperir ar gyfer deietau arbennig fel rhai meddygol, llysieuol, halal, coeliag, diabetig etc. ac mae llaeth am ddim ar gael i bob disgybl mewn ysgolion meithrin a babanod.
.

Trwy ddewis pryd ysgol ar gyfer eich plentyn, byddwch yn sicrhau eich bod yn gwneud dewis iach iddo/iddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi prydau ysgol am ddim cyffredinol i bob plentyn oed derbyn, a chytunwyd y bydd pob plentyn oed cynradd ledled Cymru yn derbyn prydau ysgol am ddim o fis Medi 2024.

Ar hyn o bryd Ar hyn o bryd rydym yn cynnig prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd Castell-nedd Port Talbot.

Mae 50 o ysgolion babanod, iau a chynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyfranogi yn y cynllun brecwast am ddim, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae gennym wefan ynghylch prydau ysgol/clybiau brecwast, a gellir gweld yr holl fwydlenni ar gyfer ysgolion cynradd ar dudalen prydau ysgolion cynradd gwefan Castell-nedd Port Talbot. Bydd y wefan hon yn dweud wrthych pa ysgolion sy’n cyfranogi yn y

cynllun brecwast am ddim, ac mae’n cynnwys llawer o ddolenni ynghylch iechyd a llesiant.

Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch prydau a chlybiau brecwast mewn ysgolion cynradd, cysylltwch â ni trwy ffonio 01639 763036/763738 neu e-bostio ams@npt.gov.uk. Os oes gennych chi ymholiadau am brydau ysgolion uwchradd, cysylltwch â’r ysgol unigol i drafod hynny.

Gall rhieni sy'n derbyn cymorth ychwanegol gan y llywodraeth fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i'w plant. Mae'n hawdd cyflwyno cais am brydau ysgol am ddim. Gall rhieni gyflwyno cais ar-lein yn www.npt.gov.uk ac mae ffurflenni ar gael hefyd gan ysgol eich Plentyn neu gan y Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch y tîm ar 01639 763515, e-bostiwch fsm@npt.gov.uk neu ewch i www.npt.gov.uk

**A all fy mhlentyn dderbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr?**

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw sicrhau bod ei blentyn yn mynd i'r ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall eich plentyn fod yn gymwys i dderbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr.

Gall y meini prawf cymhwysedd gynnwys y canlynol:

- Mae'r dysgwr yn mynd i'w ysgol ddalgylch neu i'w ysgol addas agosaf.
- Mae cyfeiriad y cartref 2 filltir neu'n fwy o'r dalgylch neu'r ysgol gynradd addas agosaf.
- Mae cyfeiriad y cartref 3 milltir neu'n fwy o'r dalgylch neu'r ysgol uwchradd addas agosaf.
- Nid oes llwybr cerdded addas rhwng y cartref a'r dalgylch neu'r ysgol addas agosaf.
- Mae'r Cyngor wedi darparu lle i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darpariaeth addysgol arbenigol sydd y tu hwnt i'r trothwy pellter perthnasol neu lle nad oes llwybr cerdded addas yn bodoli.
- Mae amgylchiadau eithriadol yn codi o anghenion unigol dysgwr sy'n golygu bod angen cymorth teithio arno i gael mynediad at addysg.

Sylwer y caiff cymhwysedd ei asesu'n unigol. Os yw brawd neu chwaer hŷn yn derbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr, nid yw hyn yn golygu'n awtomatig y bydd brawd neu chwaer iau sy'n mynd i'r un ysgol yn gymwys, gan fod pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y polisi cyfredol.

Os ydych yn credu bod eich plentyn yn gymwys i dderbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr, gallwch gyflwyno cais ar-lein. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 30 Mehefin.

Mae Cymorth Teithio gan Ddysgwyr ar gael o ddechrau'r flwyddyn ysgol y mae plentyn yn troi'n 5 oed.

Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y math o gymorth teithio a roddir yn dilyn asesiad o anghenion ac amgylchiadau'r dysgwr. Gall hyn gynnwys:

- Cerdyn bws cyhoeddus neu reilffyrdd.
- Lle ar gerbyd cludiant ysgol dan gontract.
- Cyllideb Teithio Personol.
- Hyfforddiant teithio annibynnol.
- Cymorth Teithio Llesol.
- Trefniadau cludiant addas eraill a ddarperir gan y Cyngor.

Ni all rhieni a gofalwyr ddewis y math o gymorth, y cerbyd na gweithredwr y cludiant. Yn dilyn cwblhau asesiad cymorth teithio, bydd y Cyngor yn hysbysu rhieni/gofalwyr ynghylch y canlyniad ac unrhyw gymorth teithio a ddyfernir.

Os yw eich plentyn yn derbyn Cymorth Teithio gan Ddysgwyr, eich cyfrifoldeb fydd sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd y cerbyd cludiant ac yn cael eu casglu oddi yno lle bo angen o hyd. Mae mynediad parhaus at gymorth teithio hefyd yn destun cydymffurfiaeth â Chôd Ymddygiad Teithio'r Cyngor.

Am ragor o wybodaeth am Bolisi Cymorth Teithio gan Ddysgwyr y Cyngor, ewch i www.npt.gov.uk.

Am ymholiadau ynghylch cymhwyster, e-bostiwch educationtransport@npt.gov.uk.

Am ymholiadau sy'n berthnasol i gerbydau neu lwybrau cludiant, e-bostiwch passengertransport@npt.gov.uk.

**Grant Addysg Awdurdod Lleol Llywodraeth Cymru Cynllun Mynediad PDG**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grant Hanfodion Ysgol (Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad gynt). Y pwrpas yw i ddarparu cymorth grant i deuluoedd sydd ar incwm isêl i brynu:

- Gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau;
- Dillad chwaraeon, gan gynnwys esgidiau chwaraeon;
- Offer TG: gliniadur a thabledi YN UNIG (dim ond mewn sefyllfa gyfyngedig lle nad yw ysgol yn gallu benthyca offer i'r teulu y dylid defnyddio'r Grant Hanfodion Ysgol);
- Gwisgoedd ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: y sgowtiaid, y geidiaid, karate ac ati, chwaraeon, celfyddyd perfformio neu ddawns;
- Offer ee. bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu;
- Offer arbenigol ar gyfer gweithgareddau ar y cwricwlwm megis dylunio a thechnoleg; a
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, megis dysgu yn yr awyr agored, ee. dillad sy'n dal dŵr.

Rydym yn cynghori teuluoedd i gysylltu ag ysgol/lleoliad eu plentyn i drafod benthyca offer cyn prynu.

**Mae angen i rieni gadw derbynebau at ddibenion archwilio.**

**Pwy sy'n gymwys?**

Rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch meini prawf cymhwyso Grant Hanfodion Ysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/2025.

**Dim ond un hawliad fesul blwyddyn ysgol a ganiateir.**

**Os mae eich plentyn yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim o ganlyniad i gyfnod o drefniadau amddiffyn nid ydynt yn gymwys.**

Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau at yr Is-adran Tim Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd ar 01639 763515 neu e-bost: fsm@npt.gov.uk.

Roedd yr holl wybodaeth yn gywir pan gafodd ei hargraffu a gall Llywodraeth Cymru ei newid.

**Pa gostau y gallai fod yn ofynnol i mi eu talu?**
Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol, cynigir mwyafrif y gweithgareddau yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, ar brydiau, gofynnir i chi gyfrannu at gostau. Mae manylion taliadau a gostyngiadau ar gael gan ysgol eich plentyn.

Codir tâl am lety a bwyd os bydd eich plentyn yn cyfranogi mewn arhosiad dros nos a drefnir gan yr ysgol. Fodd bynnag, efallai y gellir hepgor taliadau ar gyfer cwrs neu wersyll preswyl cymeradwy os ydych chi'n derbyn unrhyw fath o fudd-daliadau ychwanegol.

**Beth ddylwn i wybod am drefniadau yswiriant ar gyfer fy mhlentyn?**
Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn yswirio ei adeiladau a'u cynnwys rhag difrod yn sgil tân. Os caiff eiddo personol eich plentyn ei ddifrodi mewn tân mewn ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot, efallai y gallwch hawlio yn erbyn polisi yswiriant eich cartref.

Argymhellir eich bod chi'n ystyried trefnu eich polisi yswiriant eich hun rhag ofn y caiff eiddo personol eich plentyn ei golli neu ei ddifrodi. Gan amlaf, gellir trefnu hyn trwy gyfrwng estyniad i bolisi yswiriant cynnwys cartref. Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor Bwrdeistref Sirol i drefnu yswiriant damweiniau personol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ei ysgolion. Fe'ch cynghorir i ystyried a ddylech chi fynd ati i drefnu eich polisi yswiriant damweiniau personol eich hun ar gyfer eich plentyn.

I gael rhagor o gyngor am faterion yswiriant, cysylltwch ag Adain Yswiriant yr Awdurdod ar: 01639 736614/ Insurance@npt.gov.uk

**Pryd fydd fy mhlentyn yn cael addysg ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd?**
Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ynghylch gyrfaoedd ar gael trwy law Gyrfa Cymru ar gyfer disgyblion o oedran uwchradd a'u rhieni i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch llwybrau gyrfaoedd. Bydd Cynghorwyr Gyrfaoedd yn gweithio mewn ysgolion gyda disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, yn enwedig yn ystod cyfnodau pontio hollbwysig, yn cynnwys Blwyddyn 9 pan fydd disgyblion yn dewis pynciau TGAU ac ym Mlynyddoedd 11 ac 13 pan ystyrir dewisiadau addysg uwch ac addysg bellach neu hyfforddiant a gwaith.

Ceir tîm profiadol o Gynghorwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i helpu cleientiaid y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i ddatblygu eu cynlluniau gyrfa. Fe wnânt helpu i lunio cynllun pontio i baratoi plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig at fywyd wedi'r ysgol.

Gall disgyblion, myfyrwyr a rhieni gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gan Gynghorwyr Gyrfaoedd trwy gyfrwng Llinell Gymorth Cyswllt Gyrfa Cymru (0800 028 48 44). Gallwch chi hefyd sgwrsio ar-lein â'u Cynghorwyr Gyrfaoedd yn www.careerswales.com. Mae'r wefan hefyd yn darparu cyfle i chwilio am wybodaeth am yrfaoedd, cyrsiau, hyfforddiant a swyddi sydd ar gael ym mhob rhan o Gymru, cael cyngor a chymorth i'ch helpu i reoli'r gwaith o gynllunio eich gyrfa, defnyddio gemau a chwisiau rhyngweithiol, creu eich e-bortffolio personol eich hun a llawer iawn rhagor.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth trwy gysylltu â swyddfa leol Gyrfa Cymru:
Canolfan Gyrfaoedd Castell-nedd, 7 Stryd y Dŵr, Castell-nedd SA11 3EP neu
Canolfan Gyrfaoedd Port Talbot, Gorsaf Waith (canolfan allgymorth), Stryd y Dŵr, Port Talbot SA12 6LF.

**Pa arholiadau cyhoeddus fydd fy mhlentyn yn eu sefyll?**

Bydd yr ysgol yn gyfrifol am wneud y penderfyniad i gofrestru eich plentyn i sefyll arholiadau cyhoeddus. Telir ffi am bob arholiad. Bydd yr ysgol yn talu'r ffi hwn pan gofrestrir eich plentyn am y tro cyntaf. Os bydd eich plentyn yn methu arholiad heb reswm meddygol dilys, byddwch chi'n atebol am dalu'r ffi. Bydd yr ysgol yn gallu darparu manylion ychwanegol i chi.

Fe wnaiff unrhyw ysgol roi manylion ei chanlyniadau mewn arholiadau cyhoeddus i chi os gofynnwch iddynt.

**Sut mae ysgol fy mhlentyn yn gwybod â phwy ddylent gysylltu?**

Pan fydd eich plentyn yn cychwyn mynychu ysgol, gofynnir i chi am wybodaeth bwysig a wnaiff helpu'r ysgol i gadw mewn cysylltiad. Ynghyd â manylion eich plentyn, byddwch yn darparu enwau'r bobl y dylid cysylltu â hwy mewn argyfwng a'u rhifau ffôn, a gwybodaeth amdanoch chi fel rhiant ac unrhyw unigolyn arall sydd â

chyfrifoldeb rhiant. Os bydd unrhyw fanylion a roddwch chi i'r ysgol yn newid yn ddiweddarach, bydd yn bwysig iawn i chi hysbysu'r ysgol cyn gynted ag y bo modd.

Mae angen i ysgol wybod pwy ddylent eu hysbysu am gynnydd eich plentyn a gwybod pwy ddylid cysylltu â hwy pan fydd angen gwneud penderfyniadau am addysg eich plentyn neu pan fydd angen caniatâd i alluogi'ch plentyn i gyfranogi mewn gweithgaredd a drefnir gan yr ysgol.

O safbwynt yr ysgol, gall y rhiant fod yn rhiant naturiol (pa un ai a yw'n briod neu beidio), unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn (mae hyn yn cyfeirio at yr unigolyn sy'n byw gyda'r plentyn, hyd yn oed os nad ydynt yn perthyn), ac unrhyw unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant.

**Pa addysg fydd ar gael pan fydd fy mhlentyn dros 16 oed?**
Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer disgyblion 11-16 oed, felly nid oes ganddynt uned chweched dosbarth. Ceir dau eithriadau, Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff, ac Ysgol Gyfun Ystalyfera, y mae eu hunedau chweched dosbarth yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau academaidd a galwedigaethol ôl-16.Gall disgyblion sy'n mynychu ysgol sydd heb ddarpariaeth chweched dosbarth drosglwyddo i Goleg Castell-nedd Port Talbot i barhau â'u haddysg.

**Pa gymorth ariannol fydd ar gael pan fydd fy mhlentyn yn cychwyn yn y chweched dosbarth neu mewn coleg?**
Gall pobl ifanc o gartrefi sydd ag incwm isel sy'n parhau mewn addysg bellach hawlio hyd at £40 yr wythnos o dan gynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Llywodraeth Cymru. Mae'r LCA ar gael i bobl ifanc 16-18 oed.

I gael rhagor o fanylion, trowch at Cyllid Myfyrwyr Cymru

**Llwybrau Dysgu 14-19 oed**
Mae pob person ifanc yn unigryw. Maent yn ymddwyn yn wahanol ac yn meddwl yn wahanol, ac mae doniau gwahanol ganddynt oll. I helpu pobl ifanc i ddatblygu'r doniau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Llwybrau Dysgu i bob person ifanc rhwng 14 a 19 oed sy'n derbyn addysg a hyfforddiant. Dros y blynyddoedd i

ddod, bydd pob person ifanc rhwng 14 a 19 oed yn gallu cynllunio ei lwybr dysgu ei hun wrth iddo fynd rhagddo yn yr ysgol, y coleg neu gwrs hyfforddi.

Mae Llwybrau Dysgu'n cynnig llawer mwy o ddewis i fyfyrwyr nag yn y gorffennol. Gyda chymorth eu hathrawon, eu tiwtoriaid a'u rhieni/gwarcheidwaid, byddant yn cael y cyfle i gynllunio eu llwybr personol i lwyddiant. Mae Llwybrau Dysgu'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc ehangu eu hopsiynau a chael cyfle i astudio amrywiaeth ehangach o bynciau. Mae pobl ifanc sy'n cyrraedd Blwyddyn 10 bellach yn cael o leiaf 30 o opsiynau dros amrywiaeth o feysydd yn y cwricwlwm, a gyflwynir gan eu hysgol neu gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant lleol eraill. Bydd yr opsiynau hyn yn cynnwys nifer o gyrsiau galwedigaethol y gellir eu hastudio yn yr ysgol, y coleg lleol neu gyda darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr lleol. Bydd y rhain yn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer addysg bellach, y brifysgol neu gyflogaeth. Bydd Llwybrau Dysgu'n rhoi'r cyfle i bob person ifanc fanteisio i'r eithaf ar yr ysgol ac ennill cymwysterau gwerthfawr cyn gadael.

Er mwyn helpu pobl ifanc i wneud eu dewisiadau, mae gan bob ysgol staff hyfforddedig a fydd ar gael i fyfyrwyr os oes angen cymorth ychwanegol arnynt wrth wneud eu dewisiadau. Bydd y staff hyn yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon y person ifanc a'i gynghorydd gyrfaoedd i'w helpu i gynllunio ei Lwybr Dysgu, ac yn cynnig cyngor a chymorth. Bydd pobl ifanc hefyd yn gallu cael help gydag unrhyw broblemau personol a all effeithio arnynt.

**A yw Gwobr Dug Caeredin ar gael i fy mhlentyn?**

Mae Gwobr Dug Caeredin yn cynnig rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed, ac mae ar gael ym mhob ysgol uwchradd.

Mae’n cynnig cyfle i bobl ifanc dderbyn heriau a phrofi gweithgareddau newydd a chyffrous, gan ddatblygu ymdeimlad o lwyddiant a hunan-barch, mewn amgylchedd sydd ddim yn gystadleuol.

Cynigir y Wobr ar dair lefel, sef Efydd, Arian ac Aur. I ennill y wobr uchaf, sef y Wobr Aur, bydd angen cyfranogi mewn prosiect preswyl sydd wedi’i lunio i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a threfnu. Os hoffech chi ragor o wybodaeth am y Wobr, holwch yn ysgol eich plentyn, neu cysylltwch â Swyddog Datblygu Gwobr Dug Caeredin, Ysgol

Gyfun Llangatwg, Llangatwg, Castell-nedd. Rhif ffôn: 07818 443884 neu ar-lein yn www.nptdofe.co.uk neu www.dofe.org

**Pa wasanaethau ieuenctid sydd ar gael?**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys 14 clwb ieuenctid yn y gymuned a chlwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed, mentrau iechyd a chyngor ar berthnasoedd, Cyngor Ieuenctid, gwaith gyda phobl ifanc ddi-waith a phobl ifanc sydd mewn perygl o golli diddordeb yn yr ysgol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu rhaglenni a chyrsiau achrededig megis hylendid bwyd a chymorth cyntaf, a Chynllun Gwobrau Dug Caeredin.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ddiamddiffyn ar sail unigol a thrwy weithgareddau grŵp, yn ogystal â chyfathrebu â grwpiau arbenigol megis gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDT, rhieni ifanc a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd gweithwyr ieuenctid hefyd yn rhoi cymorth gwaith ieuenctid anghlinigol i bobl ifanc sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig, ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ysgolion a grwpiau ieuenctid o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y Gwasanaeth Ieuenctid drwy e-bostio youth.service@npt.gov.uk a gallwch gael y newyddion diweddaraf am weithgareddau'r gwasanaeth ar Facebook (facebook.com/nptyouthservice) a Twitter (@npt_ys).

**A all fy mhlentyn gael swydd rhan amser?**

Mae gan lawer o blant ysgol swydd rhan amser. Mae cyflogi plant yn cael ei reoleiddio'n gaeth gan y gyfraith, a cheir cyfyngiadau ar faint o oriau y gall plant eu gweithio ar ddiwrnodau ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau, cyfyngiadau ar y mathau o waith y caniateir iddynt ei wneud a'r oedran pan allant weithio.

Os hoffai eich plentyn gael swydd rhan amser, bydd angen i chi ymgeisio am drwydded. Mae'n rhaid i chi a'r cyflogwr lenwi'r ffurflenni cais, sydd ar gael gan ysgol

eich plentyn. Os cymeradwyir y cyflogaeth, rhoddir trwydded, a bydd yn rhaid i'ch plentyn fod â'r drwydded wrth law pan fydd yn gweithio. Mae taflen eglurhaol ar gael gan yr ysgol neu gan y Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd, yr Adran Addysg, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ. E-bostiwch sfs@npt.gov.uk neu ffoniwch 01639 763600, neu lawrlwythwch y ffurflen ar-lein yn www.npt.gov.uk

**Beth os yw fy mhlentyn yn dymuno cyfranogi mewn cynyrchiadau adloniant?**

Bydd rhai plant yn cael cyfle i gyfranogi ym myd adloniant, megis ar lwyfan neu mewn ffilmiau a rhaglenni teledu. Mae angen trwydded i wneud hyn, ac fel yn achos cyflogaeth rhan amser, mae'n rhaid cadw at amodau penodol. Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am drefnu'r cynhyrchiad yn gyfrifol am ymgeisio am drwydded perfformio, a bydd angen gwneud hyn o leiaf 21 diwrnod cyn diwrnod y perfformiad cyntaf.

Mae angen i'r rhiant lenwi rhan o'r ffurflen gais, ac os bydd eich plentyn yn cyfranogi mewn cynhyrchiad adloniant, bydd angen i chi sicrhau bod trwydded wedi'i chyhoeddi. Mae ffurflenni i ymgeisio am drwyddedau ar gael gan yr ysgol neu gan y Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd, yr Adran Addysg, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ. E-bostiwch sfs@npt.gov.uk neu ffoniwch: 01639 763600, neu lawrlwythwch y ffurflen ar-lein yn www.npt.gov.uk

**A oes llyfrgell leol ar gael ar gyfer fy mhlentyn?**

Mae 8 prif lyfrgell a gynhelir gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot a 7 llyfrgell gymunedol ychwanegol a reolir yn bennaf gan wirfoddolwyr. Lleolir y llyfrgelloedd hyn ym mhob cwr o Gastell-nedd Port Talbot. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu llyfrgell deithiol sy'n ymweld â chymunedau llai bob tair wythnos.

**Pam y dylai fy mhlentyn ymuno â'r llyfrgell?**

- Gellir ymuno AM DDIM
- Gellir benthyca llyfrau AM DDIM
- Ceir adnoddau ar-lein AM DDIM fel e-lyfrau, e-gylchgronau ac e-lyfrau llafar
- Ni roddir dirwyon am lyfrau sy'n hwyr

- Ceir miloedd o lyfrau anhygoel i blant i helpu'ch plentyn i ddatblygu cariad at ddarllen
- Mae staff parod eu cymwynas ar gael i'ch helpu chi a'ch plentyn ag anghenion gwaith cartref a darllen

**Beth arall y mae'r llyfrgell yn ei ddarparu?**

- Mynediad at y rhyngrwyd am ddim
- Gwasanaethau argraffu a llungopïo
- Y DVDs a'r CDs cerddoriaeth diweddaraf (am ffi fechan)
- Gwasanaethau gwybodaeth ar-lein i'w defnyddio mewn llyfrgelloedd neu gartref
- Ceir casgliad hanes lleol arbennig a chynigir cyngor i ganfod gwybodaeth yn ei prif lyfrgell cyfeirio sydd yng Nghastell-nedd.
- Lle astudio

**Beth gall fy mhlentyn ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol yn ei lyfrgell leol?**

Gall eich plentyn gymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf neu fwynhau llawer o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, ewch i'n gwefan ynwww.npt.gov.uk/libraries dewch o hyd i ni ar Facebook yn www.facebook.com/nptlibraries ar Instagram yn www.instagram.com/nptlibraries a dewch o hyd i ni ar YouTube; neu cysylltwch â Phencadlys y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Neath Road, Llansawel Ffôn: 01639 899829. E-bost: npt.libhq@npt.gov.uk

**Pa gyfleusterau diwylliannol a hamdden sydd ar gael i'm plentyn?**

**Mae Theatr yr Aelwyd** yng nghanol Port Talbot yn theatr ac yn lleoliad adloniant mawr sy'n cyflwyno rhaglen amrywiol o berfformiadau byw, comedi, cerddoriaeth, sioeau i deuluoedd a digwyddiadau cymunedol.
Disgwylir i'r theatr, sy'n cael ei thrawsnewid ar hyn o bryd, ailagor yn 2027 gyda chyfleusterau gwell a rhaglen gyffrous.
I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i'w gwefan wrth i'r datblygiadau cyffrous ddod i'r amlwg. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ei hailagor.
Yr Aelwyd - www.porttalbottheatre.com

**Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe'n** un o'r lleoliadau diwylliannol gorau yn ne Cymru. Mae'n enwog am ei digwyddiadau amrywiol o safon uchel, o ganu gwerin, cerddoriaeth ryngwladol a'r blws i berfformiadau clasurol, comedi fyw a theatr i blant. Mae'r theatr draddodiadol a'r sinema newydd sbon yn cynnig rhywbeth i bawb, ac mae pob tymor yn llawn sioeau cyffrous a gweithgareddau difyr. Drwy ddigwyddiadau byw, dangos ffilmiau a digwyddiadau cyfranogol, y nod yw cyfoethogi bywydau, herio, ysbrydoli, addysgu a difyrru.

**Ailagorodd Neuadd Gwyn** ei drysau yng nghanol tref Castell-nedd yn 2012 ar ôl gwaith adnewyddu helaeth. Mae'r cyfleuster mawreddog hwn, a reolir gan Hamdden Celtic mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys adloniant byw a'r sinema 3D a digidol diweddaraf. Mae gan yr awditoriwm 393 o seddau ac mae'n cynnal rhaglen ardderchog ac amrywiol o ddigwyddiadau byw tymhorol, gan gynnwys genres fel dawnsio syrcas, dramâu, cerddoriaeth fyw, theatr, sioeau i blant a chomedi fyw. Yn ogystal, mae gan y lleoliad sinema ar ffurf stiwdio a phod, gan sicrhau bod rhywbeth at ddant pawb.

**Mae Parc Gwledig Margam**, sy'n enwog am ei harddwch naturiol a'i dreftadaeth gyfoethog, yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu rhai o’r diwrnodau allan gorau i deuluoedd yng Nghymru. Dyfarnwyd y Faner Werdd i'r Parc Gwledig 850 erw, sy'n cynnwys adeilad Tuduraidd Gothig godidog Castell Margam o'r 19eg ganrif, adfeilion Abaty Margam o'r 12fed ganrif, a'r Orendy o'r 18fed ganrif sydd wedi'i adfer, yr hiraf yn y DU. Gall teuluoedd fwynhau'r Pentref Tylwyth Teg a'r Ardal Chwarae Antur, a gall y rheini dwlu ar anifeiliaid archwilio llwybr y fferm a mynd â'r alpacas am dro. Mae hyddgre enwog y parc, sy'n dyddio’n ôl i oes y Normaniaid, yn crwydro'i 500 erw o barcdir. Gall ymwelwyr fwynhau digwyddiadau tymhorol, troeon hamddenol, beicio mynydd a gweithgareddau i gynyddu’r adrenalin fel Her ym Mrigau'r Coed Go Ape. Mae Margam Park Adventure yn cynnig anturiaethau ychwanegol sy’n cynnwys go-gertio, padlfyrddio ar eich traed, caiacio a llogi beiciau.

**Mae Canolfan Ddarganfod Margam** yn adeilad o'r radd flaenaf sydd ag ôl troed carbon isel ym Mharc Margam. Rheolir y Ganolfan Ddarganfod gan y Cyngor Astudiaethau Maes, elusen addysg amgylcheddol sy'n ceisio creu cyfleoedd rhagorol

i bawb ddysgu am fyd natur. Mae'r Ganolfan Ddarganfod yn cynnig teithiau maes preswyl ac undydd i fyfyrwyr sy'n astudio bioleg a daearyddiaeth, gan ddarparu amgylchedd dysgu eithriadol yng nghanol harddwch naturiol y parc.

**Mae Parc Gwledig y Gnoll** yn cynnig 240 erw o goetiroedd a dolydd i'w harchwilio, ynghyd â thri lle chwarae pwrpasol sydd wedi'u dylunio i blant o bob oedran a lefel hygyrchedd. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr hygyrch yn cynnwys caffi sy'n gweini bwydydd a diodydd lleol, balconi sy'n wynebu'r de ac sy'n edrych dros y llyn a lle chwarae dan do Pen-y-Coed. Mae'r lle chwarae hygyrch ac i blant bach yn berffaith i blant iau ac mae'n cynnwys offer cynhwysol, gan gynnwys trampolîn ar lefel y ddaear a siglen Rhianna i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae lle chwarae antur Tyrrau'r Gnoll yn cynnwys tyrrau dringo, llithrennau troellog, siglenni, llinell sip a her y tŵr enfawr i archwilwyr anturus. Mae gan y lle chwarae naturiol offer chwarae cynaliadwy gan gynnwys llwybrau teiars, camwyr boncyff, wal ddringo a char rasio.

Yn dod yn hydref 2025 Tri thŵr dringo ym mrigau'r coed, gan gynnwys tŵr ENFAWR ym mhen uchaf y parc! Fyddwch chi'n mentro cyrraedd pen uchaf y tŵr a reidio'r llithren droellog yr holl ffordd i lawr? Mae gennym ardal chwarae naturiol hefyd lle gallwch archwilio teiars, camwyr pren a char rasio yn ein Hardal Chwarae Naturiol a adeiladwyd yn gynaliadwy, ac a wneir o nodweddion naturiol. Ar ddiwrnodau heulog, mae lluniaeth ychydig gamau i ffwrdd yng nghiosg y Ganolfan Ymwelwyr, sy'n cynnig hufen iâ a detholiad o ddiodydd poeth ac oer.

**Mae Parc Coedwig Afan** yn berffaith ar gyfer y sawl sy’n chwilio am antur a theuluoedd sy'n dwlu ar yr awyr agored. Mae'r parc hwn sy'n adnabyddus am ei olygfeydd syfrdanol, ei lwybrau beicio mynydd, ei lwybrau beicio sy'n addas i deuluoedd a’i lwybrau cerdded, yn cynnig rhywbeth i bob oedran a gallu.

**Mae Canolfan Ymwelwyr Coedwig Afan** yng nghanol y parc ac yma mae caffi Base Wales ac Amgueddfa Glowyr De Cymru. Mae siop llogi beiciau Afan Valley Bike Shed hefyd i'w chael ar y safle.

P'un a ydych chi am feicio'n hamddenol neu'n awyddus i roi cynnig ar un o'r llwybrau beicio mynydd i ddechreuwyr, mae digon yma i gynnal diddordeb y teulu cyfan a'u cadw'n heini. I'r rheini sy'n chwilio am fwy o her, mae Parc Coedwig Afan hefyd yn

cynnig amrywiaeth o lwybrau datblygedig, sy'n berffaith ar gyfer beicwyr profiadol sy'n chwilio am ddisgyniadau cyffrous a thir technegol.

I'r rheini sy'n archwilio ar droed, mae llwybrau coetir y parc yn troelli drwy goed aruchel, lle mae goleuni'r haul yn hidlo drwy'r dail, a lle mae natur wedi adennill olion gorffennol diwydiannol yr ardal yn araf deg, gan wneud pob tro yn daith dawel drwy hanes.

**Mae Parc Gwledig Craig Gwladus** yn drysor cudd. Mae rhwydwaith o lwybrau'n mynd drwy'r coetir cymysg ac yn darparu hafan ar gyfer antur ac archwilio. Cewch weld hen adeiladau cloddio, golygfannau, nentydd ac ardaloedd picnic yn ystod eich ymweliad â'r safle hwn sy'n llawn bywyd gwyllt. Mae llawer o ddrysau tylwyth teg yn y parc, sy'n siŵr o ddiddanu plant iau gydag ychydig o hud a lledrith.
Dyfarnwyd y Faner Werdd Gymunedol i ni'n ddiweddar i adlewyrchu ansawdd y coetir poblogaidd hwn. Rheolir y parc gan wirfoddolwyr gyda chefnogaeth gan staff a ariennir drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Ar gyfer ymholiadau, e-bostiwch: craig.gwladus@npt.gov.uk
Am ddigwyddiadau, dilynwch ni ar Eventbrite neu anfonwch e-bost atom yn gofyn am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio.

Mae'r tîm Pobl Ifanc Actif yn gyfrifol am ddatblygu a darparu gweithgareddau corfforol a chyfleoedd chwaraeon ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae'r tîm Pobl Ifanc Actif yn gweithio gyda nifer o bartneriaid gwahanol i sicrhau bod y rhaglen yn gallu cyrraedd cynifer o bobl â phosib. Mae cysylltiadau cryf wedi'u meithrin â phob ysgol, ac mae hyn wedi sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cyflwyno mewn modd cadarnhaol i bobl ifanc, a hynny'n rheolaidd. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch: 01639 861100
Rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r lleoliadau neu wasanaethau uchod:

- Parc Gwledig y Gnoll - www.gnollcountrypark.co.uk
- Theatr y Dywysoges Frenhinol - www.princessroyaltheatre.com
- Canolfan Celfyddydau Pontardawe - www.pontardaweartscentre.com
- Neuadd Gwyn - www.gwynhall.com
- Parc Gwledig Margam - www.margamcountrypark.com

- Canolfan Ddarganfod Margam - www.field-studies-council.org/locations/margam
- Parc Coedwig Afan - https://afanforestpark.com/visitor-facilities-attractions/
- Pobl Ifanc Actif - https://beta.npt.gov.uk/cy/hamdden-parciau-a-diwylliant/chwaraeon-a-gweithgareddau/npt-gwasanaeth-gweithgarwch-corfforol-a-chwaraeon/tim-pobl-ifanc-egniol/
- Parc Gwledig Coetir Craig Gwladus - e-bostiwch craig.gwladus@npt.gov.uk, dilynwch ni ar Facebook ac Instagram neu gofynnwch am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio.

**A oes amgueddfa i ymweld â hi?**

Mae casgliad yr amgueddfa'n cynnwys arteffactau o ffosilau i'r Oes Efydd, o gaer atodol Rufeinig, Arglwyddiaethau Cymru a bryngaerydd, Mynachlog-nedd ganoloesol, cartrefi a diwydiant Fictoraidd hyd at fywyd yr ugeinfed ganrif.

Mae'r Swyddog Addysg Treftadaeth yn gweithio'n agos gydag ysgolion, sefydliadau treftadaeth, grwpiau hanes lleol a grwpiau cymunedol gan gynnal profiad dysgu rhagweithiol i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae ein gwasanaethau allgymorth yn cynnwys arddangosfeydd, sgyrsiau, ymweliadau ysgolion, sesiynau trin gwrthrychau a sesiynau atgofion. Mae'r Clwb Archeolegwyr Ifanc yn llyfrgell Castell-nedd yn cwrdd unwaith y mis ar brynhawn Sadwrn o 1pm i 3pm.

Mae'r clwb yn agored i bawb rhwng 8 ac 16 oed, mae aelodau'r Clwb Archeolegwyr Ifanc yn cymryd rhan mewn pob math o weithgareddau, gan gynnwys ymweld â safleoedd archeolegol a lleoedd hanesyddol ac ymchwilio iddynt, rhoi cynnig ar grefftau traddodiadol, cymryd rhan mewn cloddfeydd a llawer mwy.

Os hoffech gymryd rhan gyda Chlwb Archeolegwyr Ifanc CNPT neu ddarganfod mwy am sut mae'r clwb yn cael ei redeg, cysylltwch â'r tîm gan ddefnyddio'r manylion isod.

Beth am gysylltu â ni i gael gwybod mwy? E-bostiwch heritage@npt.gov.uk.
Mae'r Swyddog Addysg Treftadaeth, Harriet Eaton, yn gweithio ym mhencadlys y llyfrgell a gellir cysylltu â hi drwy e-bostio: h.eaton@npt.gov.uk

**Sut caiff gweithgareddau corfforol a chwaraeon eu cefnogi'n lleol?**
Mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc fwynhau ffordd o fyw mwy bywiog ac iach yn lleol. Mae'r Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon (GGCCh) yn cefnogi ac yn cynnig llawer o wahanol brosiectau/fentrau sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Cyrff Llywodraethu Chwaraeon, clybiau'r sector gwirfoddol ac ysgolion. Ein nod yw darparu cyfleoedd i alluogi'r gymuned i ddod yn fwy actif a mwynhau ffyrdd iachach o fyw. Mae'r GGCCh yn darparu'r rhaglen Pobl Ifanc Actif sy'n cynnwys swyddogion sy'n gweithio yng nghlwstwr eu hysgol uwchradd i ddatblygu darpariaeth gynhwysol ar ôl ysgol a gweithgareddau yn y gymuned am gost isel neu ddim cost o gwbl. Mae'r GGCCh yn darparu ystod eang o weithgareddau yn ystod y gwyliau ar draws CNPT, gan dargedu ardaloedd allgymorth i ddarparu cyfleoedd i bob plentyn. Mae campau ffocws fel beicio mynydd, badminton, tenis a chynghrair pêl-rwyd iau hefyd yn cael eu rhedeg gan y tîm gan ddefnyddio ysgolion lleol fel clybiau a chyfleusterau cymunedol ar gyfer gemau.

Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd mewn ysgolion i wirfoddoli drwy ein cynllun Llysgenhadon Ifanc. Ar hyn o bryd mae GGCCh Castell-nedd Port Talbot yn gweithio gyda thros 200 o lysgenhadon ifanc ledled ein hysgolion, mae'r rhain yn cynnwys llysgenhadon efydd mewn ysgolion cynradd, llysgenhadon arian mewn ysgolion cyfun a llysgenhadon aur sy'n fyfyrwyr yng ngholegau CNPT. Mae'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc yn gynllun Chwaraeon Cymru ac mae'n gweithredu ym mhob awdurdod lleol. Bob blwyddyn mae Castell-nedd Port Talbot yn darparu diwrnod hyfforddi blynyddol i'r Llysgenhadon Ifanc i sicrhau bod y bobl ifanc hynny wedi'u paratoi i ddarparu gweithgareddau cynhwysol yn eu hysgolion.

I ddarganfod sut y gallwn eich helpu i ddod yn fwy corfforol egnïol a mwynhau ffordd iachach o fyw cysylltwch â'r GGCCh drwy ffonio: 01639 861143 neu e-bostio: m.hall12@npt.gov.uk; gwefan: www.npt.gov.uk/pass dolenni cyfryngau cymdeithasol - chwiliwch am @nptpass ar Facebook, Instagram, Twitter ac YouTube

**Beth yw llywodraethwyr ysgolion?**
Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sy'n cydweithio'n agos â'r Pennaeth i hyrwyddo rhagoriaeth ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Nid yw llywodraethwyr

yn ymwneud â'r gwaith beunyddiol o redeg yr ysgol; cyfrifoldeb y Pennaeth yw hynny. Bydd y Pennaeth fel arfer yn delio ag ymholiadau cyffredinol a materion sy'n ymwneud â disgyblion a staff. Bydd y corff llywodraethu yn penderfynu ar ethos a diwylliant yr ysgol ac yn llunio polisïau ar bethau fel y cwricwlwm, ymddygiad a phresenoldeb. Bob blwyddyn, bydd y Llywodraethwyr yn darparu adroddiad ysgrifenedig i rieni am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol ac i rannu cynlluniau'r corff llywodraethu ar gyfer hyrwyddo safonau uchel o ran cyrhaeddiad addysgol.

Os bydd digon o rieni yn cyflwyno cais i gael cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr i drafod mater sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan, yna gwahoddir pob rhiant i'r cyfarfod hwn. Gall rhieni ofyn am gael cyfarfod gyda Llywodraethwyr hyd at dair gwaith mewn blwyddyn ysgol, ar yr amod bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni.

Pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol dylech ddarganfod pwy yw'r rhiant-lywodraethwyr, bydd yr ysgol yn gallu eich helpu chi. Gallwch chi drafod â hwy os oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ynghylch sut caiff eich ysgol ei rhedeg

**Sut allaf i ddod yn llywodraethwr ysgol?**

Bydd amrywiaeth helaeth o bobl yn dod yn llywodraethwyr ysgolion. Nid oes angen cymwysterau neu brofiad penodol ar lywodraethwyr; nid yw llawer o lywodraethwyr yn arbenigwyr mewn addysg, ond maent yn gallu cynnig amser a mathau eraill o arbenigedd i helpu i wella'r ysgol. Mae gan y mwyafrif o ysgolion rhwng deg ac ugain o lywodraethwyr; po fwyaf yw'r ysgol, y mwyaf yw'r nifer o lywodraethwyr sydd ganddi.

Bydd y corff llywodraethu bob amser yn cynnwys:

- rhieni, a ddewisir gan rieni eraill yn yr ysgol
- staff, a ddewisir gan eu cydweithwyr yn yr ysgol
- pobl a ddewisir gan y corff llywodraethu
- pobl a ddewisir gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol
- mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir – pobl a ddewisir gan awdurdodau eglwysig

Bob pedair blynedd (neu'n gynt na hynny, os bydd lle gwag), bydd yn rhaid i ysgol gynnal etholiad i ddewis rhiant-lywodraethwyr. Gall pob rhiant gynnig eu henw i sefyll yn yr etholiad. Os allwch chi neilltuo rhywfaint o amser i helpu'ch ysgol a'r genhedlaeth nesaf, gallech chi sefyll mewn etholiad i ddewis rhiant-lywodraethwyr. Darperir hyfforddiant rheolaidd i helpu llywodraethwyr ysgolion i gyflawni eu gwaith. Erbyn hyn, mae hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr newydd yn orfodol.
Os hoffech wybod rhagor am gyrff llywodraethu ysgolion, neu ddarganfod sut i ddod yn llywodraethwr, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Ysgolion a Theuluoedd, trwy e-bostio governors@npt.gov.uk neu ffonio 01639 763600.

**Sut all rhieni ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor Bwrdeistref Sirol?**

Mae gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol ddau o gynrychiolwyr y rhiant-lywodraethwyr sy'n aelodau o'i bwyllgor craffu addysg, a chânt eu gwahodd hefyd i ymuno â Phwyllgor Rheoli Cymdeithas Llywodraethwyr Castell-nedd Port Talbot.

Bydd cynrychiolwyr y rhiant-lywodraethwyr yn mynegi safbwyntiau a phryderon rhieni pan wneir penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar addysg. Bydd rhiant-lywodraethwyr o ysgolion yr ardal yn dewis y cynrychiolwyr.

**Beth allaf i ei wneud os byddaf i'n anfodlon ag addysg fy mhlentyn neu'n dymuno mynegi cwyn?**

Os oes gennych chi unrhyw bryder am addysg eich plant, ceisiwch ddatrys y mater yn anffurfiol yn y lle cyntaf trwy drafod â staff yn ysgol eich plentyn.

Os byddwch yn credu bod eich cwyn heb gael ei datrys, gallwch chi gysylltu â'r Pennaeth i fynegi eich cwyn, ac efallai bydd angen i chi fynegi'r gŵyn mewn ysgrifen.

Os na fydd y broblem yn cael ei datrys, gallwch chi gyfeirio eich cwyn at bwyllgor trin cwynion y corff llywodraethu. Bydd ysgol eich plentyn yn gallu rhoi manylion llawn i chi am y weithdrefn gyffredinol i drin cwynion. Os bydd eich cwyn yn ymwneud ag aelod o staff yr awdurdod lleol, efallai y gallwch chi ddefnyddio Gweithdrefn Cwynion y Cyngor.

**Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY)**

Mae'r cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o safon i'r holl blant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol. Mae wedi rhoi Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY) ar waith a fydd yn helpu i sicrhau bod yr ysgolion iawn yn y lleoliadau iawn a'u bod yn gallu cyflwyno addysg sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn y 21ain ganrif. Mae'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY) hefyd yn llywio'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau a fydd yn galluogi'r cyngor i sicrhau ysgolion o'r radd flaenaf, cyflwyno safonau uchel o ddysgu ac addysgu – yn awr ac yn y dyfodol.

**Pam y mae'r Rhaglen Gwella Ysgolion (RhSGY) yn angenrheidiol?**

Hanfod y rhaglen hon yw cyflwyno profiadau addysgol o safon sy'n annog datblygiad disgyblion ac yn ei gefnogi - profiadau sy'n bodloni dyheadau dysgwyr ifanc, sy'n gwella ac yn cyfoethogi eu bywydau a'u cyfleoedd mewn bywyd.

**Pa newidiadau a welir?**

- Dechrau adeiladu safle newydd cynaliadwy, carbon sero net ar gyfer YGG Rhosafan sy'n cynnwys gardd aeafol, canolfan cefnogi dysgu ADY cyfrwng Cymraeg, cyfleuster gofal plant a chanolfan trochi yn y Gymraeg.
- Dechrau adeiladu safle newydd carbon sero net yr 21$^{ain}$ ganrif Ysgol Gymunedol Llangatwg i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed.
- Dechrau gwaith adnewyddu sylweddol yn hen adeilad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Adnoddau Addysg ym Mhort Talbot i gynnwys Canolfan Sgiliau Trefelin, canolfan sgiliau cyn-alwedigaethol i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed.
- Dechrau gwaith adeiladu estyniad newydd i YGG Tregeles i fynd i'r afael â chynnydd cyflym yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.
- Buddsoddiad sylweddol drwy'r rhaglen Ysgolion Bro ar draws nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r cyngor eisoes wedi cyflwyno rhai o'r newidiadau hyn a gallwch weld yr holl gynigion cyfredol a blaenorol ar we-dudalen ddynodedig y Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol (SSIP). I gael mynediad ati, ewch i: www.npt.gov.uk, a chliciwch ar y bar dewislen Dolenni Cyflym ar y dudalen hafan, cliciwch ar Ysgolion yna cliciwch ar Gwella Ysgolion ar y bar dewislen chwith.

Mae newidiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn cynnwys:

- Cwblhau a meddiannu ysgol newydd sbon ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer Ysgol Gyfun Cefn Saeson – bydd hen adeiladau'r ysgol yn cael eu dymchwel i wneud lle i gyfleusterau chwaraeon allanol gan gynnwys arwynebau chwarae glaswelltog ac artiffisial â llifoleuadau.
- Cwblhau a meddiannu ysgol newydd sbon ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer Ysgol Gynradd Abbey a oedd yn gweithredu'n flaenorol ar draws tri lleoliad ar wahân. Mae'r safle ysgol unigol newydd hefyd yn darparu Canolfan Cefnogi Dysgu a lleoliad gofal plant.
- Cwblhau a meddiannu cam terfynol adeilad ar gyfer yr 21ain ganrif yn YG Ystalyfera sy'n cynnwys ystafelloedd dosbarth cyffredinol, cyfleusterau cegin/ciniawa newydd a neuadd berfformio.
- Cwblhau a meddiannu adnewyddiad sylweddol ac ehangiad newydd sy'n darparu lleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg a gwell cyfleusterau gofal plant yn YGG Pontardawe.
- Agor ysgol ddechreuol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mynachlog Nedd. Agorodd YGG Tregeles i ddisgyblion meithrin ym mis Ionawr 2023
- Cwblhau 3 Hwb Cymunedol yn Ysgol Cwm Brombil, Ysgol Gynradd Melin ac Ysgol Gynradd Sandfields yn ogystal â hwb sgiliau yn Ysgol Gymraeg Bro Dur.

**A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch y llyfryn hwn?**
Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r llyfryn hwn, cysylltwch â'r Tîm Cymorth i Blant a Theuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes, y Ganolfan Ddinesig Port Talbot, SA13 1PJ, neu e-bostiwch sfs@npt.gov.uk neu ffoniwch 01639 763600.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Polisi Derbyniadau

# Ysgolion

# 2027-2028

(1 Medi 2027 – 31 Awst 2028)

# Drbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2027/2028

## 1. Cyflwyniad

Y cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cymunedol a gynhelir yn y Fwrdeistref Sirol. Fel yr awdurdod derbyn, y cyngor sy'n pennu'r meini prawf a ddefnyddir wrth ddyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol. Mae'r ddogfen hon yn nodi trefniadau derbyn 2027/2028 ar gyfer y canlynol: dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol; ysgolion cynradd cymunedol; ysgolion uwchradd cymunedol; a dosbarthiadau chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol uwchradd gymunedol.

Ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd), corff llywodraethu pob ysgol sy'n pennu'r trefniadau derbyn. Gellir cael manylion y trefniadau gan y corff llywodraethu priodol.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ynghyd â'r gweithdrefnau a'r amserlenni ar gyfer derbyn yn ystod blwyddyn ysgol 2027/2028 (atodiadau 1, 2, 3 a 4). Bydd mwy o fanylion i gynorthwyo rhieni sy'n cyflwyno cais am le mewn ysgol wrth ddewis ysgol i'w plentyn yn y 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 2027/2028 a fydd ar gael i rieni ym mis Hydref 2025, cyn y dyddiad cyflwyno cais. Bydd y llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys eu niferoedd derbyn, y dalgylchoedd maent yn eu gwasanaethu ynghyd â mapiau dalgylchoedd a threfniadau eu hysgolion partner. Mae'r llawlyfr hefyd yn cynnwys y trefniadau derbyn cyhoeddedig ar gyfer ysgolion unigol a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd). O ran hyn, mae'r 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 2027/2028' yn rhan annatod o'r wybodaeth sydd ar gael i rieni am dderbyniadau ysgolion.

## 2. Cyd-destun

Uchelgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw cyflwyno gwasanaeth addysg gynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn parchu hawl pawb i addysg. Mae'r cyngor yn rhoi mynediad i brofiadau dysgu o safon i bob plentyn a pherson ifanc drwy annog a chefnogi unigolion i wireddu eu huchelgeisiau, cyflawni eu potensial a bod yn aelodau gweithgar a chyfrifol o'r gymdeithas.

Er mwyn diwallu anghenion addysgol plant, mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cyflwyno darpariaeth amrywiol, gan gynnwys:

- **Addysg feithrin ran-amser**, sydd ar gael ym mhob ysgol gynradd ac ysgol 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed. Mae dysgu llwyddiannus yn dechrau yn y dosbarth meithrin lle gall plant dderbyn profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel;
- **Addysg gynradd** mewn ysgolion cynradd ac ysgolion 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed (gan gynnwys ysgolion Cymraeg ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol), gan ddarparu addysg eang wedi'i seilio ar brofiadau ymarferol ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion yr unigolyn, gan gynnwys meysydd astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.
- **Addysg uwchradd** mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed (gan gynnwys ysgolion Cymraeg ac ysgol Gatholig), gan osod safonau uchel mewn arholiadau, gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol, ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r disgyblion ym mhob ysgol yn cael cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol a'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- **Ysgolion arbennig,** sy'n darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol i ddisgyblion ag anawsterau difrifol a chymhleth. Mae gan yr holl ddisgyblion sy'n mynd i'r ysgolion hyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae cefnogaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oed cynradd ac uwchradd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ar gael yn y fwrdeistref sirol;
- **Canolfannau cefnogi dysgu,** sydd ar gael mewn sawl ysgol gynradd, uwchradd a rhai 'pob oed' ac sy'n darparu cefnogaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd i ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae trefniadau derbyn y cyngor ar gyfer ysgolion cymunedol yn sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn yn rhoi mantais neu anfantais annheg i grwpiau trwy ddefnyddio Côd Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru 005/2013.

## 3. **Derbyn i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol ac ysgolion 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed.**

Y cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob dosbarth meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol a 'phob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed.

Gall plentyn gael lle rhan-amser mewn dosbarth meithrin o ddechrau'r tymor sy'n dilyn ei drydydd pen-blwydd. Bydd gofyn i rieni/ofalwyr y mae angen lle ar eu plentyn mewn dosbarth meithrin gyflwyno cais am le. Mae ffurflenni cais ar gael gan y Swyddog

Derbyniadau, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ, a dylid eu dychwelyd i'r un cyfeiriad ar ôl eu cwblhau.

Gall rhieni/gofalwyr wneud cais am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall.

Gall plentyn gael ei dderbyn i ddosbarth meithrin cyn dechrau'r tymor sy'n dilyn ei drydydd pen-blwydd dim ond drwy ymgynghori â'r Swyddog Derbyn.

Gall nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael fod yn wahanol i nifer derbyn grwpiau blwyddyn amser llawn mewn ysgol (Derbyn).

I blant y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n nodi addysg feithrin brif ffrwd mewn ysgol gymunedol, gwarentir lle iddynt yn y lleoliad hwnnw. Mae dyletswydd ar ysgolion i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi cael eu rhoi yn yr ysgol gan yr ALl a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at nifer y disgyblion i'w derbyn oni bai fod eu lleoliad mewn Canolfan Cefnogi Dysgu sydd mewn ysgol.

Bydd y cyngor yn ystyried pob cais unigol a dderbynnir. Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl y meini prawf gorymgeisio isod, a restrir yn nhrefn eu blaenoriaeth.

– ***Meini Prawf Gorymgeisio***

a) Plant sy'n derbyn gofal[1] neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

b) Plant sy'n byw yn nalgylch y dosbarth meithrin y cyflwynir cais amdano.

c) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr yr ysgol lle mae'r dosbarth meithrin hwn pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn y dosbarth meithrin, bydd gofyn i'r rhieni benderfynu pa blentyn a ddylai

dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

Os oes hawl gyfartal gan blant gael lle yn y meithrin yn y categorïau a) i c) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Caiff hyn ei fesur gan y llwybr cerdded/teithio byrraf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y cyngor ond yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant (er enghraifft, honiad anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu cais i blentyn gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu yn ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol, ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu tynnu'r lle yn ôl, bydd cyfnod y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried.

Pan fydd y lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd, a bydd hawl apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried o ran cais am dderbyn i ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn, ac mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Ni roddir ystyriaeth i'r ysgol gynradd y mae'r plentyn yn debygol o fynd iddi yn ddiweddarach neu'r cyfnod y mae'r ysgol wedi gwybod am fwriad y rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais fydd yn cael eu prosesu yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau a bydd lleoedd

yn cael eu dyrannu yn unol ag argaeledd. Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl apelio statudol. Os nad ydynt yn llwyddo i gael lle mewn dosbarth meithrin, bydd plant yn cael cynnig lle o fewn dwy filltir o'u lleoliad preswyl, lle bynnag y bo hynny'n bosib.

**Nid yw'r ffaith fod plentyn yn mynd i ddosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig iddo gael lle yn nosbarth derbyn yr un ysgol. Bydd rhaid cyflwyno cais ar wahân i blentyn gael ei dderbyn i ddosbarth derbyn yr ysgol y mae'r rhiant am i'w blentyn ei mynychu.**

[1] Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdano/amdani o dan Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu o dan Adran 22(1) Deddf Plant 1989 ar yr adeg y gwneir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod wedi cadarnhau y bydd yn dal i dderbyn gofal ar yr adeg y caiff ei d(d)erbyn i'r ysgol.

Plant a oedd yn derbyn gofal: plant a oedd yn derbyn gofal nad ydynt yn derbyn gofal mwyach am iddynt gael eu mabwysiadu neu ddod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofa

## 4. **Derbyn i ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol ac ysgolion 'pob oed'**

Cyngor y Fwrdeistref Sirol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol a gynhelir ac ysgolion 'pob oed' (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a darpariaeth chweched dosbarth).

Cymeradwyir yr holl dderbyniadau i ysgolion prif ffrwd gan y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd. Derbynnir plant i ddosbarthiadau derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn pedwerydd pen-blwydd y plentyn. Gall rhieni ohirio mynediad i'r dosbarth derbyn tan y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Mae plant yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn y mis Medi sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 11 oed.

Mae ffurflen gais ar gael gan Is-adran Derbyniadau Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y dylai'r rhiant ei chwblhau a'i dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ neu gall rhieni wneud cais ar-lein yn **www.npt.gov.uk**. Caniateir ceisiadau am le oni bai y byddai gwneud hynny'n amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.

Bydd y rhieni hynny sy'n gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol ar amser yn cael blaenoriaeth dros y rheiny sy'n gwneud cais yn hwyr.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31ain Hydref 2026 ar gyfer ceisiadau Ysgolion Uwchradd a 15fed Ionawr 2027 ar gyfer ceisiadau Ysgolion Gynradd.

Bydd y cyngor yn anfon Ffurflen Cais am Le at rieni pob disgybl a fydd yn symud o'r naill gyfnod addysgol i'r llall ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, yn ystod tymor yr hydref. Caiff rhieni wybod am y lle mewn addysg uwchradd a ddyrannwyd i'w plentyn ar 1 Mawrth 2027 ac am y lle mewn addysg gynradd ar 16 Ebrill 2027.

Nid yw'r ffaith fod plentyn yn mynd i ddosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig iddo gael lle yn nosbarth derbyn yr un ysgol.

I blant y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n nodi addysgol feithrin brif ffrwd mewn ysgol gymunedol, gwarentir lle iddynt yn yr ysgol honno.

***Meini prawf gorymgeisio o ran addysg gynradd***

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd. Mae rhai ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael.

Mewn ysgol lle mae gorymgeisio, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y cyngor. Wrth benderfynu ar ba blant i dderbyn i ysgol, mae'r cyngor yn defnyddio meini prawf a bennwyd isod yn ôl blaenoriaeth - a) yw'r flaenoriaeth uchaf.

Bydd y cyngor yn derbyn plant hyd at nifer derbyn yr ysgol yn unig ac ni fydd yn torri Rheoliadau Maint Dosbarth Plant sef 30 o blant neu lai, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

a) Plant sy'n derbyn gofal[1] neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

b) Plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani.

c) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn y dosbarth meithrin, bydd gofyn i rieni benderfynu pa blentyn a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

ch) Mae plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffefrir.

Os oes hawl gyfartal gan blant i le mewn ysgol yng nghategorïau -a) i ch) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Mesurir hyn drwy'r llwybr cerdded/teithio byrraf addas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu

hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau, a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu'n unol ag argaeledd.

Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

[1] Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdano/amdani o dan Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu o dan Adran 22(1) Deddf Plant 1989 ar yr adeg y gwneir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod wedi cadarnhau y bydd yn dal i dderbyn gofal ar yr adeg y caiff ei d(d)erbyn i'r ysgol.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y cyngor yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol wedi'i wneud gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, cais anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu lle i blentyn neu berson ifanc gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu yn ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd a hawl i apelio os gwrthodir lle.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn, ac mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos, e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Os yw rhieni'n anfodlon ar ganlyniad y cais am ysgol gymunedol benodol, gellir cyflwyno apêl i'w hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg gynradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **14 Mai 2027**.

Bydd unrhyw benderfyniad gan y panel yn orfodol ar y cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyn y Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol yn amgylchiadau’r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

Bydd y cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi’u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r cyngor. Wrth i leoedd gwag godi, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn gwneud cais ynddi.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o’r

cartref i'r ysgol y cyngor wrth ymgeisio am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

***Meini prawf gorymgeisio o ran addysg uwchradd***

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd. Mae rhai ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mewn ysgol lle mae gorymgeisio, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y cyngor.

Wrth benderfynu ar ba blant i dderbyn i ysgol, mae'r cyngor yn defnyddio meini prawf a bennwyd isod yn ôl blaenoriaeth - a) yw'r flaenoriaeth uchaf.

Bydd yr awdurdod yn derbyn hyd at y nifer derbyn a nodir yn unig.

Gall rhieni/gofalwyr wneud cais am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Caniateir ceisiadau am le oni bai y byddai gwneud hynny'n amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.

Bydd y rhieni hynny sy'n gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol ar amser yn cael blaenoriaeth dros y rheiny sy'n gwneud cais yn hwyr.

a) Plant sy'n derbyn gofal[1] neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

b) Plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol gynradd bartner sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani.[1]

c) Plant a phobl ifanc eraill sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani ond nid ydynt yn mynychu ysgol gynradd bartner.

ch) Plant a phobl ifanc y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn y dosbarth meithrin,

bydd gofyn i rieni benderfynu pa blentyn a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

d) Plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol gynradd bartner ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani.

[1] Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdano/amdani o dan Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu o dan Adran 22(1) Deddf Plant 1989 ar yr adeg y gwneir cais i ysgol ac y mae'r awdurdod wedi cadarnhau y bydd yn dal i dderbyn gofal ar yr adeg y caiff ei d(d)erbyn i'r ysgol.

[1] Mae'r ysgol gynradd bartner yn cyfeirio at yr ysgol y cyflwynir cais amdani. Gweler paragraff 8 ar gyfer y diffiniad o ysgol gynradd bartner.

Os oes hawl gyfartal gan blant a phobl ifanc i le mewn ysgol yng nghategorïau -a) i d) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Mesurir hyn drwy'r llwybr cerdded/teithio byrraf addas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau, a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu'n unol ag argaeledd.

Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y cyngor yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol wedi'i wneud gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, cais anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu lle i blentyn neu berson ifanc gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu yn ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd a hawl i apelio os gwrthodir lle.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn/berson ifanc, ac mae'r plentyn/person ifanc yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos, e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

[2] Mae'r ysgol gynradd bartner yn cyfeirio at yr ysgol y cyflwynir cais amdani. Gweler paragraff 8 ar gyfer y diffiniad o ysgol gynradd bartner.

Os yw rhieni'n anfodlon â chanlyniad y cais am ysgol gymunedol benodol, gellir cyflwyno apêl i'w hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg uwchradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **26 Mawrth 2027**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y Panel yn orfodol ar y cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyn y Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol yn amgylchiadau'r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

Bydd y cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi'u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r cyngor. Wrth i leoedd gwag godi, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn gwneud cais ynddi.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o'r cartref i'r ysgol y cyngor wrth ymgeisio am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

## 5. Derbyn i'r Chweched Dosbarth

Mae dau chweched dosbarth yn y Fwrdeistref Sirol - chweched dosbarth Cymraeg mewn ysgol gymunedol yn Ysgol Newydd Gymunedol Gymraeg y mae'r cyngor yn awdurdod derbyn ar ei chyfer a chweched dosbarth a gynorthwyir yn wirfoddol yng Nghanolfan Chweched Dosbarth Ysgol Gatholig San Joseff y mae corff llywodraethu'r ysgol yn awdurdod derbyn ar ei chyfer.

Bydd pobl ifanc â datganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n nodi darpariaeth chweched dosbarth penodol yn sicr o gael lle yn yr ysgol honno.

– ***Meini prawf gorymgeisio (chweched dosbarth Cymraeg)***

Mae gan rieni a disgyblion yr hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd. Os bydd nifer y ceisiadau am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y cyngor. Wrth benderfynu ar ba blant i'w derbyn i'r chweched dosbarth, mae'r cyngor yn defnyddio'r meini prawf a nodir isod yn nhrefn y flaenoriaeth a nodir - a) yw'r flaenoriaeth uchaf. Ni fydd y cyngor fel arfer yn derbyn mwy o ddisgyblion i'r chweched dosbarth na'r nifer derbyn.

a) Pobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn derbyn gofal gynt, gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr, yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

b) Pobl ifanc y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr y chweched dosbarth pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cydfyw â rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob person ifanc yn y chweched dosbarth, bydd gofyn i rieni benderfynu pa berson ifanc a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'r holl bobl ifanc.

Os yw pobl ifanc â hawl gyfartal i le yn y chweched dosbarth yng nghategorïau a) a b) uchod, yna rhoddir blaenoriaeth i'r person ifanc sy'n byw agosaf. Mesurir hyn drwy'r llwybr cerdded/teithio byrraf rhwng y cartref a'r chweched dosbarth.
Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ceisiadau fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau, a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu'n unol ag argaeledd.

Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais os gofynnir amdani.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y cyngor yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol wedi'i wneud gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, cais anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu lle i blentyn neu berson ifanc gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd a hawl i apelio os gwrthodir lle.

Ystyrir y cyfeiriad cartref fel cyfeiriad y person ifanc ynghyd â phrif breswylfa'r rhieni (neu'r person ifanc ar ei ben ei hun os yw'n byw ar ei ben ei hun) ar y dyddiad cyhoeddedig h.y. lle maent yn byw fel arfer. Os yw person ifanc yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am

resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am berson ifanc, ac mae'r person ifanc yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r person ifanc yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos,
e.e. 3 o 5 niwrnod.

Bydd gofyn i rieni a phobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Os yw rhiant neu berson ifanc yn anfodlon ar ganlyniad y cais am chweched dosbarth penodol, gellir cyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn Annibynnol erbyn **26 Mawrth 2027**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y panel yn orfodol ar y cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un chweched dosbarth eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyn y Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol yn amgylchiadau’r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o’r cartref i’r ysgol y cyngor wrth ymgeisio am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

## 6. Derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd

Penderfynir ar geisiadau i drosglwyddo plant o un ysgol i'r llall ar adegau ar wahân i'r oed trosglwyddo arferol trwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn uchod. Mae ffurflenni cais ar gael gan Is-adran Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y dylai rhieni eu cwblhau a'u dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael 'dyddiad gadael' gan yr ysgol lle maent ar y gofrestr ar hyn o bryd a 'dyddiad dechrau' yn yr ysgol dderbyn. Nid yw symud plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn academaidd yn cael ei argymell; oni nodir yn wahanol, fe'i derbynnir i'r ysgol newydd ar ddechrau'r tymor canlynol.

Bydd trosglwyddo i ysgol yn y Fwrdeistref Sirol o awdurdod lleol arall, neu oherwydd newid cyfeiriad, yn cael ei awdurdodi cyn gynted ag y bo modd, ond o fewn 15 niwrnod ysgol neu 28 niwrnod calendr, p'un bynnag sydd gyntaf.

Caiff plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo oherwydd bod ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig eu derbyn i'r ysgol a enwir cyn gynted â phosib o fewn 15 niwrnod gwaith.

## 7. Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol

Er y caiff y rhan fwyaf o blant eu derbyn i ysgol o fewn eu grŵp oedran cronolegol eu hunain, o bryd i'w gilydd, bydd rhieni'n ceisio lle y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheini sydd wedi cael problemau neu wedi colli rhan o'r flwyddyn, a hynny'n aml oherwydd afiechyd. Er na fyddai gan amlaf yn briodol i blentyn gael ei roi mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'u hoedran cronolegol, dylai awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a phenderfynu ar sail amgylchiadau pob achos a drwy ymgynghori â'r rhieni ac â'r ysgol, ac yn benodol, beth fyddai fwyaf buddiol i'r plentyn. Dylid ystyried adroddiad y Seicolegydd Addysg hefyd pan fydd ar gael, a rhesymau amlwg dros wneud penderfyniad o'r fath. - 24 - Os penderfynir bod sail dros ystyried cais 'y tu allan i'r flwyddyn', mae gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl apelio os cynigiwyd lle ond nad yw yn y grŵp blwyddyn dymunol.

## 8. Nifer derbyn a maint dosbarthiadau - ysgolion cymunedol

Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y gall y cyngor ei dderbyn i ysgol. Mae gan bob ysgol nifer derbyn a gyfrifir gan ddefnyddio asesiad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru. Ni ellir gwrthod lle mewn ysgol oni bai fod y nifer derbyn wedi'i gyrraedd (atodiad 6).

Mae'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth nad yw dosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 5, 6 a 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion heblaw am 'ddisgyblion eithriedig' fel a nodir gan y Rheoliadau. Y grŵp blwyddyn perthnasol yw'r grŵp y mae plant a phobl ifanc fel arfer yn cael eu derbyn iddo, h.y. dosbarth derbyn ar gyfer ysgolion cynradd a Bl7 ar gyfer ysgolion uwchradd.

## 9. Dalgylchoedd ac ysgolion partner - ysgolion cymunedol

At ddibenion derbyn i ysgolion cymunedol, diffinnir dalgylch fel yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan ysgol, fel a bennir gan y cyngor.

At ddiben derbyn i ysgolion cymunedol, diffinnir y term ysgol 'bartner' fel ysgol y mae ganddi ddalgylch sy'n gyffredin ag ysgol arall yn yr un categori, e.e. ysgol gynradd

gymunedol Saesneg ac ysgol uwchradd gymunedol Saesneg neu ysgol gynradd gymunedol Gymraeg ac ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg (ac eithrio ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol). Mae rhestr fynegol ar 1 Medi 2019 wedi'i hatodi yn atodiad 5.

Mae copïau o fapiau ardaloedd dalgylch ysgolion ar gael gan y Swyddog Derbyn, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd.

## 10. Trosolwg o'r Broses Dderbyn - Ysgolion Cymunedol

Mae'n **rhaid** i bob cais am le mewn ysgol (gan gynnwys chweched dosbarth) yn y Fwrdeistref Sirol gael ei gyflwyno ar y ffurflen briodol i'r awdurdod ac **nid** i'r ysgol. Gall rhieni gyflwyno cais ar-lein yn [www.npt.gov.uk](http://www.npt.gov.uk)

Nid oes gan Benaethiaid yr awdurdod i dderbyn plant i'w hysgolion. Rhaid cyflwyno ceisiadau i'r awdurdod derbyn, sef y cyngor, ar gyfer ysgolion cymunedol.

Bydd y cyngor yn anfon ffurflen cais am le a nodiadau trefniadau derbyn cysylltiedig at holl rieni plant sy'n hysbys i'r awdurdod ac sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod tymor yr hydref cyn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi y flwyddyn academaidd ganlynol.

Dylai rhieni ofyn am ffurflen cais am le, ac ar ôl ei chwblhau, ei dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau neu gyflwyno cais ar-lein, erbyn y dyddiad a nodir ar y trefniadau derbyn.

Bydd y swyddfa ganolog yn hysbysu rhieni trwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol, am ganlyniad pob cais am le ar y dyddiad a roddir yn y trefniadau derbyn.

Dylai rhieni sy'n fodlon ar y lleoliad a gynigir gadarnhau eu bod yn derbyn y cynnig yn ysgrifenedig i'r cyngor neu drwy'r wefan derbyniadau ysgolion.
Dyrennir lleoedd gwag i blant a phobl ifanc y mae eu rhieni wedi cyflwyno cais am le o flaen y rhai nad ydynt wedi derbyn y cynnig cychwynnol o le yn ffurfiol.

Mae gan rieni nad ydynt yn fodlon ar y lle a gynigir yr hawl i apelio.

Bydd y llythyr a anfonir yn cynnwys gwybodaeth am apelio. Caiff apeliadau eu clywed gan Banel Apeliadau Annibynnol a sefydlwyd yn benodol at ddiben clywed apeliadau.

Bydd ceisiadau am dderbyn i'r grŵp oed perthnasol a gyflwynir ar neu cyn y dyddiad cau gweinyddol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais am dderbyn yn gynnar. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau'n cael eu prosesu'n wythnosol.

Ni phennir derbyniadau ar sail meini prawf dethol sy'n cynnwys profion, gweld adroddiadau ysgol neu gyfweld â disgyblion, gyda rhieni neu hebddynt, er mwyn asesu gallu neu ddawn.

Lle mae'r ceisiadau am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir y lleoedd yn ôl meini prawf gorymgeisio'r cyngor.

Bydd y cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi'u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r cyngor. Wrth i leoedd gwag godi, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn cyflwyno cais ynddi.

Os yw rhieni'n anfodlon â chanlyniad y cais am ysgol gymunedol benodol, gellir cyflwyno apêl i'w hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg gynradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **14 Mai 2027**.
Bydd unrhyw benderfyniad gan y Panel yn orfodol ar y cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyn y Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol yn amgylchiadau'r disgybl/rhieni neu'r ysgol.

Ni fydd hawl awtomatig gan blant y dosbarth derbyn gael addysg amser llawn yn yr un ysgol. Yn yr un modd, nid oes gan blant sy'n trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd hawl awtomatig i gael eu derbyn i unrhyw ysgol [3].

Ni fydd dyletswydd ar y cyngor i gydymffurfio â'r dewis a fynegir oni bai ei fod yn unol â'i drefniadau.

Mae trefniadau derbyn ar wahân yn berthnasol i ddisgyblion y mae gan y cyngor ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae'n rhaid i ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig gael eu derbyn i'r ysgol a nodir ar eu datganiad.

Mae'n rhaid i blant sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn arfer derbyn gofal, gael eu blaenoriaethu mewn achosion o orymgeisio, ar ôl plant â datganiad o anghenion addysgol.

## 11 Cydlynu Trefniadau Derbyn

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol (ALl), o dan Reoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 lunio a chyhoeddi cynllun cymhwysol i

gydlynu trefniadau derbyn ar gyfer pob awdurdod derbyn (ysgolion yr awdurdod lleol ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol) yn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot, mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer y '**cylchoedd derbyn arferol**' mewn ysgol gynradd a gynhelir (Derbyn), ysgol iau a gynhelir (Blwyddyn 3) neu mewn ysgol uwchradd a gynhelir (Blwyddyn 7) yng Castell-nedd Port Talbot.

Nod y cynllun cydlynu yw symleiddio'r broses 'cylchoedd derbyn arferol' gan leihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw blentyn yn cael ei adael heb le mewn ysgol. Bydd hefyd yn helpu i atal disgyblion rhag cael cynnig lleoedd lluosog mewn ysgolion ac yn atal rhieni/gofalwyr rhag 'cadw' cynigion ar gyfer mwy nag un ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae cydlynu'n sefydlu ffordd o sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, fod pob rhiant/gofalwr plentyn sydd wedi gwneud cais am le mewn ysgol a gynhelir yng Nghastell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio'r ffurflen gais gyffredin, yn derbyn un cynnig am le i blentyn mewn ysgol gan yr awdurdod lleol.

Nid yw'r trefniadau derbyn cydlynol yn berthnasol i geisiadau am leoedd meithrin, lleoedd chweched dosbarth, na lleoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir.

Nid yw'r trefniadau derbyn cydlynol i ysgolion yn berthnasol i geisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.

Mae'r trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer ysgolion ar gyfer Blwyddyn 7 a Dosbarthiadau Derbyn yn cynnwys pob ysgol gynradd gymunedol a'r ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir canlynol:

- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henadur Davies
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch
- Ysgol Fabanod Gatholig San Joseff
- Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff
- Ysgol Gynradd Gatholig St Therese
- Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff

Trefniadau derbyn ysgol gydlynol ar gyfer Blwyddyn 3 mewn perthynas â'r ysgol a gynhelir mewn partneriaeth wirfoddol ganlynol:

- Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff

## 12 Derbyn i Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd)

Er bod ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. Ysgolion Crefyddol) yn eu hawdurdod derbyn eu hunain, trwy'w system gais ar-lein ac yn unol â Threfniadau Derbyn Cydgysylltiedig Cyngor Castell-Nedd Port Talbot Medi 2027, mae'r Cyngor yn cynorthwyo'r broses gais ar gyfer Derbyn, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 7 i'r holl Ysgolion Crefyddol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot.

Bydd ceisiadau am dderbyn yn cael eu penderfynu drwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a sefydlwyd gan y corff llywodraethu. (Mae corff llywodraethu Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn gyfrifol am benderfynu eu trefniadau derbyn eu hunain)

# Amserlen y Camau
# Ysgolion Cymunedol
# Derbyniadau i Addysg Uwchradd a Chweched Dosbarth 2027/28

**21 Medi *2026***

Ffurflenni cais/prosbectws ysgol/llawlyfr gwybodaeth i rieni yn cael eu dosbarthu i rieni. Mae gan rieni pobl ifanc sy'n dechrau mewn ysgol newydd (Blwyddyn 7) o leiaf 6 wythnos i wneud cais am le mewn ysgol o'u dewis.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell- nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***31 Hydref 2026***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am dderbyn Prosesu ceisiadau

***1 Mawrth 2027***

Rhoddir gwybod i rieni ac ysgolion am ddyraniad lleoedd ysgolion uwchradd i ddisgyblion prif ffrwd.

***26 Mawrth 2027***

Apeliadau yn erbyn gwrthod lle

## Amserlen y Camau
## Ysgolion Cymunedol
## Derbyniadau i Addysg Gynradd 2027/28

***7 Rhagfyr 2026***

Ffurflenni cais/prosbectws ysgol, llawlyfr gwybodaeth i rieni yn cael eu dosbarthu i rieni. Mae gan rieni plant sy'n dechrau mewn ysgol newydd (Derbyn) o leiaf 6 wythnos i wneud cais am le mewn ysgol o'u dewis.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell- nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***15 Ionawr 2027***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am dderbyn Prosesu ceisiadau

***16 Ebrill 2027***

Rhoddir gwybod i rieni ac ysgolion am ddyraniad lleoedd ysgolion cynradd i ddisgyblion prif ffrwd.

***14 Mai 2027***

Apeliadau yn erbyn gwrthod lle

**Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer**
**Ysgolion Cymunedol**
**Derbyniadau i Ddosbarthiadau Meithrin 2027/28**

***7 Rhagfyr 2026***

**Dosbarthu ffurflenni cais i rieni.**

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell- nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***12 Mawrth 2027***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am dderbyn Prosesu ceisiadau

***10 Mai 2027***

Rhoddir gwybod i rieni ac ysgolion am ddyraniad lleoedd meithrin.

## Ysgolion Cymunedol Partner
## (Rhestr Ddangosol ar 01/09/22)

| **YSGOLION CYMUNEDOL PARTNER** | |
|---|---|
| **Uwchradd** | Cynradd |
| **CEFN SAESON** | Ysgol Gynradd Crynallt, Ysgol Gynradd y Gnoll, Ysgol Gynradd Melin, Ysgol Gynradd Tonnau. |
| **CWMTAWE** | Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig, Ysgol Gynradd Llangiwg, Ysgol Gynradd y Rhos, Ysgol Gynradd Rhydyfro, Ysgol Gynradd Tai'rgwaith |
| **YSGOL BAE BAGLAN** | Ysgol Gynradd Awel y Môr, Ysgol Carreg Hir, Ysgol Gynradd Baglan, Ysgol Gynradd Blaenbaglan, Ysgol Gynradd Sandfields, Ysgol Gynradd Tywyn. |
| **DŴR Y FELIN** | Ysgol Gynradd Abbey, Ysgol Gynradd Blaenhonddan, Ysgol Gynradd Coedffranc, Ysgol Gynradd Crymlyn, Ysgol Gynradd Waunceirch. |
| **YSGOL CWM BROMBIL** | Ysgol Gynradd Central, Ysgol Gynradd Coed Hirwaun, Ysgol Gynradd Cwmafan, Ysgol Gynradd Eastern, Ysgol Gynradd Croeserw, Ysgol Gynradd Cymer Afan, Ysgol Gynradd Glyncorrwg, Ysgol Gynradd Pen Afan. |
| **LLANGATWG** | Ysgol Gynradd Blaendulais, Ysgol Gynradd Blaengwrach, Ysgol Gynradd Catwg, Ysgol Gynradd Cilffriw, Ysgol Gynradd Creunant, Ysgol Gynradd Cwmnedd, Ysgol Gynradd Maesmarchog, Ysgol Gynradd Ynysfach. |
| **YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR** | YGG Blaendulais, YGG Castell-nedd, YGG Cwmllynfell, YGG Cwmnedd, YGG Gwaun Cae Gurwen, YGG Pontardawe, YGG Rhosafan, YGG Trebannws, YGG Tyle’r Ynn, YGG Tregeles |

**DS. Nid yw mynd i ysgol bartner yn sicrhau lle yn yr ysgol a ffefrir nac yn atal rhieni rhag cyflwyno cais am ysgol arall o'u dewis.**

**Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol sy'n destun trefniadau derbyn ar wahân.**

# Nifer Derbyn[5]
# Medi 2023

| Enw'r Ysgol | Cyfnod Cynradd |
|---|---|
| | **Nifer Derbyn** |
| Ysgol Gynradd Abbey | 60 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henadur Davies | 59 |
| Ysgol Gynradd Alltwen | 34 |
| Ysgol Gynradd Awel y Mor | 42 |
| Ysgol Gynradd Baglan | 35 |
| Ysgol Gynradd Blaenbaglan | 40 |
| Ysgol Gynradd Blaendulais | 23 |
| Ysgol Gynradd Blaengwrach | 20 |
| Ysgol Gynradd Blaenhonddan | 32 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch | 31 |
| Ysgol Gynradd Catwg | 29 |
| Ysgol Gynradd Central | 55 |
| Ysgol Gynradd Cilffriw | 30 |
| Ysgol Gynradd Coed Hirwaun | 22 |
| Ysgol Gynradd Coedffranc | 53 |
| Ysgol Gynradd y Creunant | 16 |
| Ysgol Gynradd Croeserw | 25 |
| Ysgol Gynradd Crymlyn | 15 |
| Ysgol Gynradd Crynallt | 63 |
| Ysgol Gynradd Cwmafan | 60 |
| Ysgol Gynradd Cwm Nedd | 30 |
| Ysgol Gynradd Cymer Afan | 12 |
| Ysgol Gynradd Eastern | 26 |
| Ysgol Gynradd Glyncorrwg | 16 |
| Ysgol Gynradd y Gnoll | 48 |
| Ysgol Gynradd Godre'r-graig | 23 |
| Ysgol Gynradd Llangiwg | 21 |
| Ysgol Gynradd Maesmarchog | 16 |
| Ysgol Gynradd Melin | 34 |
| Ysgol Gynradd Pen Afan | 18 |
| Ysgol Gynradd y Rhos | 21 |
| Ysgol Gynradd Rhydyfro | 24 |
| Ysgol Gynradd Sandfields | 53 |
| Ysgol Fabanod San Joseff | 43 |
| Ysgol Iau Gatholig San Joseff | 39 |
| Ysgol Gynradd San Joseff | 29 |

[4] Cynhwysir niferoedd derbyn i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd).

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd St Therese | 28 |
| Ysgol Gynradd Tai'rgwaith | 21 |
| Ysgol Gynradd Tonnau | 30 |
| Ysgol Gynradd Tywyn | 52 |
| Ysgol Gynradd Waunceirch | 30 |
| Ysgol Bae Baglan - Cyfnod Cynradd | 41 |
| Ysgol Gynradd Ynysfach | 25 |
| Ysgol Carreg Hir | 60 |
| Ysgol Newydd Margam - Cyfnod Cynradd | 29 |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur - Cyfnod Cynradd | 28 |
| YGG Blaendulais | 17 |
| YGG Castell-nedd | 48 |
| YGG Cwm Nedd | 26 |
| YGG Gwaun Cae Gurwen | 29 |
| YGG Pontardawe | 52 |
| YGG Rhosafan | 62 |
| YGG Tyle'r Ynn | 35 |
| YGG Cwmllynfell | 17 |
| YGG Trebannws | 21 |
| YGG Tregeles | 30 |

| Enw'r Ysgol | Cyfnod Uwchradd | Chweched Dosbarth |
|---|---|---|
| | Nifer Derbyn | Nifer Derbyn |
| Ysgol Gyfun Cefn Saeson | 184 | |
| Ysgol Gymunedol Cwmtawe | 256 | |
| Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin | 220 | |
| Ysgol Newydd Margam | 210 | |
| Ysgol Gymunedol Llangatwg | 233 | |
| Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff | 144 | 143 |
| Ysgol Bae Baglan | 220 | |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur | 240 | 130 |

## Derbyniadau ysgolion ac apeliadau Medi 26

| Enw'r Ysgol | Capasiti'r Ysgol | Nifer Y ceisiadau | Nifer Y ceisiadau llwyddiannus | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus |
|---|---|---|---|---|---|
| **UWCHRADD CYFRWNG SAESNEG** | | | | | |
| Cefn Saeson Comprehensive School | 184 | 152 | 152 | 0 | 0 |
| Cwmtawe Community School | 246 | 162 | 162 | 0 | 0 |
| Dwr Y Felin Comprehensive School | 220 | 246 | 246 | 0 | 0 |
| Llangatwg Community School | 233 | 124 | 124 | 0 | 0 |
| Ysgol Bae Baglan | 180 | 136 | 136 | 0 | 0 |
| Ysgol Cwm Brombil | 210 | 248 | 210 | 22 | 4 |
| **CYNRAF CYFRWNG SAESNEG** | | | | | |
| Abbey Primary | 60 | 47 | 47 | 0 | 0 |
| Alltwen Primary | 34 | 15 | 15 | 0 | 0 |
| Awel Y Mor Primary | 42 | 36 | 36 | 0 | 0 |
| Baglan Primary | 35 | 40 | 40 | 0 | 0 |
| Blaenbaglan Primary | 40 | 17 | 17 | 0 | 0 |
| Blaendulais Primary | 23 | 8 | 8 | 0 | 0 |
| Blaengwrach Primary | 20 | 23 | 23 | 0 | 0 |
| Blaenhonddan Primary | 32 | 26 | 26 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Catwg Primary | 29 | 26 | 26 | 0 | 0 |
| Central Primary | 55 | 49 | 49 | 0 | 0 |
| Cilffriw Primary | 30 | 12 | 12 | 0 | 0 |
| Coed Hirwaun Primary | 22 | 17 | 17 | 0 | 0 |
| Coedffranc Primary | 53 | 43 | 43 | 0 | 0 |
| Creunant Primary | 19 | 10 | 10 | 0 | 0 |
| Croeserw Primary | 25 | 19 | 19 | 0 | 0 |
| Crymlyn Primary | 15 | 12 | 12 | 0 | 0 |
| Crynallt Primary | 57 | 42 | 42 | 0 | 0 |
| Cwmafan Primary | 60 | 38 | 38 | 0 | 0 |
| Cwmnedd Primary | 30 | 13 | 13 | 0 | 0 |
| Cymer Afan Primary | 12 | 10 | 10 | 0 | 0 |
| Eastern Primary | 26 | 15 | 15 | 0 | 0 |
| Glyncorrwg Primary | 19 | 11 | 11 | 0 | 0 |
| Gnoll Primary | 48 | 34 | 34 | 0 | 0 |
| Godre'rgraig Primary | 23 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| Llangiwg Primary | 21 | 6 | 6 | 0 | 0 |
| Maesmarchog Community Primary | 16 | 10 | 10 | 0 | 0 |
| Melin Primary | 34 | 34 | 34 | 0 | 0 |
| Pen Afan Primary | 18 | 11 | 11 | 0 | 0 |
| Rhos Primary | 25 | 29 | 29 | 0 | 0 |
| Rhydyfro Primary | 24 | 11 | 11 | 0 | 0 |
| Sandfields Primary | 53 | 25 | 25 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tairgwaith Primary | 21 | 8 | 8 | 0 | 0 |
| Tonnau Primary Community | 30 | 22 | 22 | 0 | 0 |
| Tywyn Primary | 52 | 43 | 43 | 0 | 0 |
| Waunceirch Primary | 30 | 13 | 13 | 0 | 0 |
| Ynysfach Primary | 25 | 16 | 16 | 0 | 0 |
| Ysgol Bae Baglan Primary Phase | 40 | 14 | 14 | 0 | 0 |
| Ysgol Cwm Brombil Primary Phase | 30 | 30 | 30 | 0 | 0 |
| Ysgol Carreg Hir | 60 | 32 | 32 | 0 | 0 |
| **CYFRWNG CYMRAEG** | | | | | |
| YGG Blaendulais | 17 | 15 | 15 | 0 | 0 |
| YGG Castell –Nedd | 48 | 41 | 41 | 0 | 0 |
| YGG Cwmllynfell | 13 | 10 | 10 | 0 | 0 |
| YGG Cwmnedd | 26 | 13 | 13 | 0 | 0 |
| YGG Gwaun Cae Gurwen | 25 | 20 | 20 | 0 | 0 |
| YGG Pontardawe | 52 | 54 | 54 | 0 | 0 |
| YGG Rhosafan | 62 | 54 | 54 | 0 | 0 |
| YGG Tyle’r Ynn | 35 | 37 | 37 | 0 | 0 |
| YGG Trebannws | 21 | 5 | 5 | 0 | 0 |
| Ysgol Gyfun Ystalyfera - Bro Dur Primary | 26 | 15 | 15 | 0 | 0 |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur (Sec) | 240 | 269 | 269 | 0 | 0 |
| YGG Tregeles | 30 | 21 | 21 | 0 | 0 |
| **YSGOLION FFYDD** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Alderman Davies CIW Primary | 59 | 19 | 19 | 0 | 0 |
| Bryncoch CIW Primary | 31 | 11 | 11 | 0 | 0 |
| St Joseph’s Catholic Primary | 29 | 13 | 13 | 0 | 0 |
| St Therese’s Catholic Primary | 28 | 17 | 17 | 0 | 0 |
| St Joseph’s Catholic Infant | 34 | 25 | 25 | 0 | 0 |
| St Joseph’s Catholic Junior | 39 | 35 | 35 | 0 | 0 |
| St Joseph’s RC School | 144 | 125 | 125 | 0 | 0 |



St. David's St, Neath,
SA113AA

# Alderman Davies CIW Primary School

Tel: 01639 769772
e-mail: ads@npt.school

# Admissions Policy

Headteacher:

Date Adopted:

Chair of Governors:

Review Date:

# POLISI DERBYN: 2027/28

**Cyflwyniad**

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henadur Davies yn gweithredu'r rheoliadau derbyn yn deg ac yn gyfartal i'r holl rai sy'n dymuno mynychu'r ysgol hon. Rydym yn ysgol gynhwysol sy'n croesawu pob plentyn, beth bynnag fo'i gefndir a'i allu. Caiff pob cais ei drin yn ôl ei deilyngdod ac mewn modd sensitif.

Mae Llywodraethwyr yr ysgol hon yn derbyn unrhyw blant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu un o ysgolion gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a gynorthwyir, ar yr amod bod lleoedd ar gael.

Yr uchafswm arfaethedig ar gyfer derbyn disgyblion yw'r uchafswm y byddai'r Corff Llywodraethu yn dymuno'i dderbyn. Uchafswm arfaethedig yr ysgol hon ar gyfer derbyn disgyblion yw 59. Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y gall y cyngor ei dderbyn i ysgol. Mae gan bob ysgol nifer derbyn a gyfrifir gan ddefnyddio asesiad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru. Ni ellir gwrthod lle mewn ysgol oni bai fod y nifer derbyn wedi'i gyrraedd.

Os bydd mwyafrif y disgyblion mewn dosbarth yn cyrraedd 5, 6 a 7 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ni ddylai fod mwy na 30 o ddisgyblion yn y dosbarth ac eithrio 'disgyblion a eithrir' fel a ragnodir gan reoliad.

I blant y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/gynllun datblygu unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol sy'n nodi addysg brif ffrwd mewn ysgol gymunedol, gwarentir lle iddynt yn y sefydliad hwnnw. Mae dyletswydd ar ysgolion i dderbyn plant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig/cynllun datblygu unigol a gynhelir gan yr Awdurdod lleol sydd wedi'u rhoi yn yr ysgol gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrif tuag at nifer y disgyblion a dderbynnir oni bai iddynt gael eu rhoi mewn canolfan cefnogi dysgu yn yr ysgol honno.

Os bydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Llywodraethwyr yn eu blaenoriaethu yn ôl y drefn ganlynol:

1. Plentyn sy'n addoli'n rheolaidd* yn yr Eglwys yng Nghymru neu eglwys sydd mewn cymundeb â hi, yn Ardal Offeiriadaeth Afan Nedd. Plentyn sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol gan Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn unol ag Adran 74 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plentyn sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes. Mae hyn yn cynnwys brodyr a chwiorydd mabwysiedig/llysfrodyr a llyschwiorydd/brodyr a chwiorydd maeth.

3. Plentyn sy’n addoli’n rheolaidd yn yr Eglwys yng Nghymru neu eglwys sydd mewn cymundeb â hi, sy’n byw y tu allan i Ardal Offeiriadaeth Afan Nedd.
4. Plentyn sy’n addoli’r rheolaidd mewn addoldy Cristnogol.
5. Plentyn sy’n addoli’n rheolaidd, beth bynnag fo’i ffydd.
6. Ystyrir ceisiadau ar sail dosturiol yn ôl eu teilyngdod, ac yn ôl disgresiwn y Llywodraethwyr.
7. Os oes hawl gyfartal gan blant i le yn yr ysgol yn ôl categorïau 1) i 7) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Caiff hyn ei fesur gan y llwybr cerdded/teithio byrraf mwyaf addas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Fel yn achos unrhyw ysgol, ni fydd gan blant sy’n mynychu ein dosbarth meithrin hawl awtomatig i dderbyn addysg amser llawn yn ein hysgol.

Bydd y cyfnod cyflwyno ceisiadau ar agor i rieni/ofalwyr o 6 Hydref 2025 tan 28 Tachwedd 2025.
Cynigir lleoliadau yn yr ysgol hon ar 16 Ebrill 2026.
Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, bydd gennych yr hawl i apelio. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid anfon yr apêl ymlaen i Gadeirydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henadur Davies. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl o ran ceisiadau aflwyddiannus erbyn 15 Mai 2025.

**Adolygiad:**
Mae'n ofynnol i'r polisi hwn gael ei adolygu bob blwyddyn mewn pryd ar gyfer cyfnod ymgynghori ffurfiol.

**Yn yr achos hwn, mae ‘rheolaidd’ yn golygu o leiaf ddwywaith bob mis calendr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.*

# Admissions Policy 2027/2028

| | |
|---|---|
| **Date policy adopted:** | |
| **Author:** | School |
| **GB member/staff responsible for policy review:** | Mrs M. Thomas – Chair of Governors |
| **Signed:** | |
| **GB Link Governor:** | |

**Bryncoch Church in Wales Primary School**
**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch**

## POLISI DERBYN 2027/28

Y Nifer Derbyn Cynlluniedig yw nifer y disgyblion y gwnaiff y Corff Llywodraethu eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi cyfrifo mai 31 yw'r Nifer Derbyn Cynlluniedig ar gyfer yr ysgol hon. Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu y gellir derbyn hyd at 31 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn.

Mae deddfwriaeth yn mynnu na ddylai maint dosbarthiadau yn y cyfnod sylfaen (h.y. y rhai sy'n cynnwys disgyblion y bydd y mwyafrif ohonynt yn troi'n 5, 6 neu 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol 2026/27) fod yn fwy na 30 o ddisgyblion, oni bydd hynny'n cynnwys 'disgyblion eithriedig' fel y nodir gan y Rheoliad.

### Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig

Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi'r flaenoriaeth bennaf i geisiadau i dderbyn plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, neu'n cael llety ganddo (e.e. plant sy'n byw gyda rhieni maeth) yn unol â diffiniad Adran 22 Deddf Plant 1989, os caiff yr ysgol ei henwi fel y sefydliad addysgol mwyaf priodol. Bydd plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig hefyd yn cael eu blaenoriaethu os bydd yr ysgol wedi'i henwi fel y sefydliad addysgol mwyaf priodol. Bydd penderfyniadau i dderbyn y disgyblion hyn yn cael eu llywio gan God Ymarfer Derbyn i Ysgolion (2013) Llywodraeth Cymru.

### Meini Prawf pan fydd Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar Gael

Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion, bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn plant y mae eu ceisiadau yn bodloni'r meini prawf ynghylch mwy o geisiadau na'r nifer o leoedd sydd ar gael yn y drefn ddilynol:-

1. Plentyn sy'n addoli'n rheolaidd gyda'i deulu yn yr Eglwys yng Nghymru, ym Mhlwyf Dyffryn.
2. Plentyn sydd â brawd neu chwaer sydd eisoes yn un o ddisgyblion yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys siblingiaid wedi'u mabwysiadu, llys-siblingiaid neu siblingiaid maeth.
3. Plentyn sy'n addoli'n rheolaidd gyda'i deulu yn yr Eglwys yng Nghymru, ac sy'n byw oddi allan i blwyf Dyffryn.
4. Plentyn sy'n addoli'n rheolaidd mewn addoldy Cristnogol.
5. Plentyn sy'n addoli'n rheolaidd, beth bynnag fo'i ffydd.
6. Plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol sydd ag ethos crefyddol.
7. Plant eraill sy'n byw ym Mhlwyf Dyffryn.
8. Bydd ceisiadau ar seiliau tosturiol yn cael eu hystyried yn ôl eu haeddiant, ac fel y bo'r Llywodraethwyr yn barnu'n ddoeth.

Wrth drafod ceisiadau sy'n seiliedig ar ymrwymiad i ffydd, efallai y cysylltir ag offeiriaid plwyfi neu weinidogion lleol i gadarnhau manylion y ceisiadau.

Os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael o fewn unrhyw un o'r meini prawf, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu plant sy'n byw'n agosaf at yr ysgol.

Fel yn achos unrhyw ysgol, ni fydd gan blant sy'n mynychu ein dosbarth meithrin hawl awtomatig i gael lle mewn addysg amser llawn yn ein hysgol.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, bydd gennych chi hawl i apelio. Os byddwch chi'n arfer yr hawl hwnnw, bydd yn rhaid anfon yr apêl mewn ysgrifen at Glerc y Llywodraethwyr, o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn llythyr yn gwrthod lle. Bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan Banel Apeliadau Annibynnol, sy'n cael ei weinyddu gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ynghylch Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

**Diffiniad o sibling**

Mae'n rhaid i un o'r amodau dilynol fodoli i sicrhau bod y meini prawf ynghylch siblingiaid yn gymwys:

- Dylai brawd a/neu chwaer fod yn trigo’n barhaol yn yr un cyfeiriad
- Dylai llysfrodyr a/neu llyschwiorydd (yn cynnwys hanner brodyr/hanner chwiorydd) fod yn trigo’n barhaol yn yr un cyfeiriad

**Pellter o’r Ysgol**

Caiff y pellter i’r ysgol ei fesur mewn llinell syth o brif fynedfa cartref y teulu i brif giât yr ysgol, gan ddefnyddio’r system a fabwysiadwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yn y fwrdeistref sirol.

**Preswylfa**

Ystyrir mai preswylfa arferol y plentyn fydd yr eiddo preswyl ble mae’r unigolyn neu’r unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn yn byw ar y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau i dderbyn disgyblion i’r ysgol.

Os bydd gan fwy nag un unigolyn gyfrifoldeb rhiant a bydd yr unigolion hynny yn byw mewn cartrefi ar wahân, ystyrir mai preswylfa plentyn fydd yr eiddo ble mae’r plentyn yn treulio’r rhan fwyaf o’r wythnos, yn cynnwys penwythnosau.

Cadeirydd y Corff Llywodraethu: ……………………………………….

Dyddiad Adolygu: …………………………………………….…

# YSGOL FABANOD GATHOLIG SANT JOSEFF

Polisi Derbyniadau 2027-2028

**ADOLYGWYD/MABWYSIA DWYD Y POLISI HWN:**

**GWANWYN 2026**

**Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen.**

# MISSION STATEMENT

St Joseph's Infant School is a Catholic School in the Diocese of Menevia. Our Mission is to teach and nurture the Catholic faith, in a community where all may live and work together to achieve the very highest academic standards.

Rooted in Christ we aim to:

1. Provide an education that develops the spiritual, academic, wellbeing and moral aspects of each individual.
2. Celebrate through prayer, liturgy and worship, allowing pupils and staff to develop and grow in their love of God.
3. Foster Gospel values in an environment which encourages the understanding of the needs of everyone.
4. Make Christ and his values known to all and be of service to society.
5. Work with parents as the first educators and continue to develop close relationships between home, school and parishes.

Rooted in Christ

**YSGOL FABANOD GATHOLIG SANT JOSEFF**

**POLISI DERBYN 2027-2028**

Sefydlwyd **Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff** gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant teuluoedd Catholig. Pryd bynnag y bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir isod. Caiff yr ysgol ei rhedeg gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i dogfen ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu ac mae'n ceisio, bob amser, fod yn dyst i'n Harglwydd Iesu Grist.

Fel ysgol Gatholig, ein nod yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac ymarfer Catholig yn treiddio i bob agwedd ar weithgarwch yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig addysg yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llawn gan bob teulu yn yr ysgol. Felly, rydym yn gobeithio y bydd pob rhiant yn rhoi ei gefnogaeth lawn, ddiamod a chadarnhaol i amcanion ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl ymgeisydd nad yw'n Gatholig i wneud cais am le yn yr ysgol a chael ei dderbyn i le yn unol â'r trefniadau derbyn hyn.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac mae ganddo gyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol hon. Mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn yn ystod y rownd derbyn arferol[1]. Mae'r awdurdod derbyn wedi gosod nifer derbyn yr ysgol ar **30** o ddisgyblion i'w derbyn i'r flwyddyn dderbyn yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym **Medi, 2027**.

Lle bo'n bosibl yn logistaidd, bydd yr awdurdod derbyn yn derbyn efeilliaid a'r holl frodyr a chwiorydd o enedigaethau lluosog lle mai un o'r plant yw'r plentyn olaf i gael ei restru o fewn nifer derbyn yr ysgol.

### Disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol (Datganiadau o AAA) (gweler nodyn 1)

Mae derbyn disgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiadau o AAA) yn cael ei drin gan weithdrefn gwbl ar wahân. Rhaid derbyn plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiad o AAA) sy'n enwi'r ysgol. Lle bydd hyn yn digwydd cyn dyrannu lleoedd o dan y trefniadau hyn, bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i blant eraill.

### Meini Prawf Gordanysgrifio

*Lle mae mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynigir lleoedd yn ôl y drefn flaenoriaeth ganlynol.*

[1] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.

1. Plant Catholig sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. (gweler nodiadau 2&3)
2. Plant Catholig sy'n byw ym mhlwyfi Sant Joseff (Port Talbot) ac Ein Harglwyddes o Fargam (Margam). (gweler nodiadau 3&10)
3. Plant Catholig eraill. (gweler nodyn 3)
4. Plant sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol eraill. (gweler nodyn 2)
5. Catecwmeniaid ac aelodau o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol. (gweler nodiadau 4&5)
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan weinidog yr efengyl. (gweler nodyn 6)
7. Plant o ffydd arall y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan arweinydd crefyddol. (gweler nodyn 7)
8. Unrhyw blant eraill.

O fewn pob un o'r categorïau a restrir uchod bydd presenoldeb brawd neu chwaer yn yr ysgol ar adeg derbyn yn cynyddu blaenoriaeth cais o fewn pob categori fel y bydd y cais yn cael ei osod ar frig y categori y gwneir y cais ynddo (gweler nodyn 8).

**Torri'r Ddadl**

Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a bennir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Cyfrifir pellteroedd gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol GIS yr awdurdod lleol neu raglen arall a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol o bryd i'w gilydd, a fydd yn mesur y pellter. Os bydd y pellteroedd yr un fath i ddau neu fwy o blant, lle byddai hyn yn pennu'r lle olaf i'w ddyrannu, cynhelir y dyraniad ar hap a'i oruchwylio gan berson sy'n annibynnol ar yr ysgol. Bydd yr holl enwau’n cael eu rhoi mewn het a bydd y nifer gofynnol o enwau’n cael eu tynnu allan.

**Gweithdrefnau ac Amserlen Ymgeisio**

I wneud cais am le yn yr ysgol hon yn y rownd derbyn arferol[2], rhaid i chi lenwi Ffurflen Gais Gyffredin sydd ar gael gan yr awdurdod lleol rydych chi'n byw ynddo. Gofynnir i chi hefyd lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol sydd ynghlwm wrth y polisi hwn os ydych chi am wneud cais o dan feini prawf gordanysgrifio 1 i 3 neu 5 i 7. Dylid dychwelyd y Ffurflen Gwybodaeth Atodol i **Mrs Barbara Murphy, Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff, Stryd y Dŵr, Port Talbot, SA126LF** erbyn **15 Ionawr 2027**.

[2] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais ar **$16^{eg}$ Ebrill 2027** neu'r diwrnod gwaith nesaf, gan yr awdurdod lleol ar ein rhan. Os na fyddwch yn llwyddiannus (oni bai bod eich plentyn wedi cael lle mewn ysgol a gafodd ei rhestru'n uwch gennych), byddwch yn cael gwybod am y rhesymau, sy'n gysylltiedig â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir uchod, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

***Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y SIF ac yn ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei osod ym meini prawf 1 i 3 neu 5 i 7, a gall hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.***

**Bydd pob cais a gyflwynir mewn pryd yn cael ei ystyried ar yr un pryd ac ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau sef $15^{fed}$ Ionawr 2027.**

### Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried nes bod yr holl geisiadau a dderbyniwyd ar amser wedi cael eu dyrannu ac y cynigiwyd lleoedd iddynt ar y diwrnod cynnig cyffredin.

### Derbyn Plant Dan Oedran Ysgol Gorfodol a Mynediad Gohiriedig

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed.  Fodd bynnag, mae gan blentyn hawl i le amser llawn yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair. Gall rhieni plentyn ohirio'r dyddiad y derbynnir eu plentyn, sydd o dan oedran ysgol gorfodol, i'r ysgol, tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol.  Yr effaith yw bod y lle yn cael ei gadw ar gyfer y plentyn hwnnw ac nad yw ar gael i'w gynnig i blentyn arall.   Fodd bynnag, ni ddylai rhieni plentyn ohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pumed pen-blwydd y plentyn, nac y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Gall plentyn gymryd lle rhan-amser tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol, ond nid y tu hwnt i'r pwynt y mae'r plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Ar ôl derbyn cynnig lle, dylai rhiant hysbysu'r ysgol, cyn gynted â phosibl, ei fod yn dymuno naill ai gohirio mynediad ei blentyn i'r ysgol neu gymryd lle rhan-amser.

### Derbyn Plant y tu allan i'w Grŵp Oedran Arferol

Gellir gwneud cais i blentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, er enghraifft, os yw'r plentyn yn ddawnus a thalentog neu os yw wedi profi problemau fel afiechyd. Yn ogystal, gall rhieni plentyn a anwyd yn yr haf, h.y. plentyn a anwyd rhwng $1^{af}$ Ebrill a $31^{ain}$ Awst, ofyn i'r plentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, i'r dosbarth derbyn yn hytrach na blwyddyn 1.

Dylid gwneud unrhyw gais o'r fath yn ysgrifenedig i **Mrs Barbara Murphy, Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff, Stryd y Dŵr, Port Talbot, SA126LF** ar yr un pryd ag y gwneir y cais am dderbyn. Bydd yr awdurdod derbyn yn gwneud ei benderfyniad ynghylch y cais yn seiliedig ar amgylchiadau pob achos ac er lles gorau'r plentyn. Yn ogystal ag ystyried barn y pennaeth, gan gynnwys cyfrifoldeb statudol y pennaeth dros drefniadaeth, rheolaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol, bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried barn y rhieni a gweithwyr proffesiynol meddygol ac addysgol priodol, yn ôl yr angen.

**Rhestrau Aros**

Yn ogystal â'u hawl i apelio, cynigir cyfle i blant aflwyddiannus gael eu rhoi ar restr aros. Bydd y rhestr aros hon yn cael ei chynnal yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio a nodir uchod ac ***nid*** yn y drefn y derbynnir ceisiadau neu y cânt eu hychwanegu at y rhestr. Bydd rhestrau aros ar gyfer derbyn yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ysgol. Bydd y rhestr aros ar agor tan **ddydd Iau 20 Gorffennaf 2028.**

**Nid yw cael eich cynnwys ar restr aros yr ysgol yn golygu y bydd lle ar gael yn y pen draw.**

**Ceisiadau yn ystod y flwyddyn**

Gellir gwneud cais am le i blentyn ar unrhyw adeg y tu allan i'r rownd derbyn arferol a bydd y plentyn yn cael ei dderbyn lle mae lleoedd ar gael. Dylid gwneud cais **i'r ysgol** drwy gysylltu â:

**Mrs Barbara Murphy, Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff, Stryd y Dŵr, Port Talbot, SA126LF**

**https://st-josephs-catholic-infant school1.j2bloggy.com/?doing_wp_cron=1770300822.4538419246673583984375**

Lle mae lleoedd ar gael ond bod mwy o geisiadau nag o leoedd, bydd y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig, fel y nodir uchod, yn cael eu cymhwyso.

Os nad oes lleoedd ar gael, bydd y plentyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr aros (gweler uchod).

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais yn ysgrifenedig, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

**Plant Anodd eu Lleoli**

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gymryd ei chyfran deg o blant sy'n agored i niwed a/neu'n anodd eu lleoli, fel y nodir mewn protocolau y cytunwyd arnynt yn lleol. Yn unol â hynny, y tu allan i'r rownd derbyn arferol mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer i roi blaenoriaeth lwyr i blentyn lle gofynnir am le o dan unrhyw brotocol y cytunwyd arno'n lleol. Mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer hwn, hyd yn oed pan fyddai derbyn y plentyn yn golygu mynd y tu hwnt i'r nifer derbyn (yn amodol ar yr eithriadau maint dosbarthiadau babanod).

**Meithrin**

Ar gyfer plant sy'n mynychu dosbarth meithrin yr ysgol neu unrhyw ddarpariaeth feithrin a ddarperir mewn canolfan blant ar yr un safle, rhaid gwneud cais i ddosbarth derbyn yr ysgol yn y ffordd arferol, i'r awdurdod lleol cartref. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yr ysgol neu unrhyw ddarpariaeth feithrin a ddarperir mewn canolfan blant ar yr un safle yn gwarantu'n awtomatig y bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol.

**Mae'r awdurdod derbyn yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl neu, os yw plentyn eisoes yn mynychu'r ysgol, y lle ei hun, os yw'n fodlon bod y lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol a wrthododd le i blentyn â hawliad cryfach neu os cynigiwyd lle gan yr ALl yn hytrach na chan yr awdurdod derbyn mewn camgymeriad.**

***Nodiadau (mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r meini prawf gordanysgrifio)***

1. Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun statudol a wneir gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol ar gyfer plentyn. Mae Adran 48 o Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os yw'r ysgol wedi'i henwi yng Nghynllun Datblygu Unigol y plentyn. Yn y pen draw, bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli pob cynllun statudol neu anstatudol arall, gan gynnwys unrhyw Ddatganiad o AAA. At ddibenion y polisi hwn, mae cyfeiriadau at Gynllun Datblygu Unigol hefyd yn cynnwys unrhyw gynllun arall sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n enwi'r ysgol.
2. Mae gan 'plentyn sy'n derbyn gofal' yr un ystyr ag yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989 ac adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n golygu unrhyw blentyn sydd (a) yng ngofal awdurdod lleol neu (b) yn cael llety ganddo wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (e.e. plant gyda rhieni maeth) ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

Mae 'plentyn a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol' yn blentyn a oedd yn derbyn gofal, ond a beidiodd â bod yn derbyn gofal oherwydd iddo gael ei fabwysiadu, neu ddod yn destun gorchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

3. Mae 'Catholig' yn golygu aelod o Eglwys sydd mewn cymundeb llawn ag Esgobaeth Rhufain. Mae hyn yn cynnwys yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol. Fel arfer, bydd tystysgrif bedydd mewn Eglwys Gatholig neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig yn tystio i hyn. At ddibenion y polisi hwn, mae'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda theulu lle mae o leiaf un o'r rhieni'n Gatholig.

Er mwyn i blentyn gael ei drin fel un Catholig, bydd angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyniad i'r Eglwys. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Esgobaeth, yn penderfynu sut y dylid datrys cwestiwn y bedydd a sut y dylid cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.

4. Mae 'catecwmen' yn golygu aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Fel arfer, bydd tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid yn tystio i hyn.
5. Mae'r 'Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol' yn cynnwys Eglwysi Uniongred, ac fel arfer mae tystysgrif bedydd neu dderbyniad gan awdurdodau'r Eglwys honno yn dystiolaeth o hyn.
6. Mae “plant enwadau Cristnogol eraill” yn golygu plant sy’n perthyn i eglwysi a chymunedau eglwysig eraill sydd, yn cydnabod datguddiad Duw yng Nghrist, yn cyffesu’r Arglwydd Iesu Grist fel Duw a Gwaredwr yn ôl yr Ysgrythurau, ac, mewn ufudd-dod i ewyllys Duw ac yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn ymrwymo eu hunain: i geisio dyfnhau eu cymundeb â Christ a chyda’i gilydd yn yr Eglwys, sef Ei gorff; ac i gyflawni eu cenhadaeth i gyhoeddi’r Efengyl trwy dystiolaeth a gwasanaeth cyffredin yn y byd er gogoniant yr un Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Mae cymuned eglwysig nad oes ganddi, ar egwyddor, ddatganiadau credoau yn ei thraddodiad, wedi'i chynnwys os yw'n amlygu ffydd yng Nghrist fel y tystir iddi yn yr Ysgrythurau ac wedi ymrwymo i weithio yn ysbryd yr uchod.

   Ystyrir bod pob aelod o Eglwysi Ynghyd yn Lloegr a CYTÛN wedi'u cynnwys yn y diffiniad uchod, fel y mae pob eglwys a chymuned eglwysig arall sy'n aelodau o unrhyw Grŵp Eglwysi Ynghyd (o ba bynnag deitl) ar y sail uchod.
7. Mae “plant o ffydd arall” yn golygu plant sy’n aelodau o gymuned grefyddol nad yw’n dod o fewn y diffiniad o ‘enwadau Cristnogol eraill’ yn 6 uchod ac sy’n dod o fewn y diffiniad o grefydd at ddibenion cyfraith elusennau. Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio crefydd i gynnwys:
   - Crefydd sy'n cynnwys cred mewn mwy nag un Duw, a
   - Crefydd nad yw'n cynnwys credu mewn Duw.

   Mae cyfraith achosion wedi nodi rhai nodweddion sy'n disgrifio ystyr crefydd at ddibenion cyfraith elusennau, a nodweddir gan gred mewn bod goruchaf a mynegiant o gred yn y bod goruchaf hwnnw trwy addoliad.
8. mae 'brawd neu chwaer' yn cynnwys:
   (i) pob brawd neu chwaer naturiol, hanner brawd neu chwaer, brodyr neu chwiorydd mabwysiedig, llysfrodyr neu chwiorydd, brodyr neu chwiorydd maeth, p'un a ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad ai peidio; a
   (ii) phlentyn partner rhiant lle mae'r plentyn hwnnw'n byw am o leiaf ran o'r wythnos yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad cartref â'r plentyn sy'n destun y cais.
9. Mae 'rhiant' yn golygu pob rhiant, unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn.
10. At ddibenion y polisi hwn, mae ein hysgol yn gwasanaethu plwyfi Sant Joseff (Port Talbot) ac Ein Harglwyddes o Fargam (Margam) ac yn cynnwys ardaloedd Cwmafan a Baglan. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso i'r trefniadau derbyn ar gyfer **Medi 2027**
11. Mae "cyfeiriad cartref" plentyn yn cyfeirio at y cyfeiriad lle mae'r plentyn fel arfer yn byw gyda rhiant neu ofalwr, a'r cyfeiriad a ddarperir yn y Ffurflen Gais Gyffredin ("CAF") fydd

hwn. Lle mae gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd am blentyn, a bod y plentyn yn byw am ran o'r wythnos gyda phob rhiant, y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad a roddir yn y CAF, ar yr amod bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw am unrhyw ran o'r wythnos ysgol.

THE ARCHDIOCESE of CARDIFF-MENEVIA
ARCHESGOBAETH CAERDYDD-MYNYW

**ARCHESGOBAETH CAERDYDD-MYNYW**

**YSGOL FABANOD GATHOLIG SANT JOSEFF**

**FFURFLEN GWYBODAETH ATODOL**

**2027-2028**

Os ydych chi'n mynegi dewis am le i'ch plentyn yn **YSGOL FABANOD GATHOLIG SANT JOSEFF** yng **NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT** ac os ydych chi am wneud cais o dan faen prawf ffydd, dylech chi lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol hon.

- Dylai'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol wedi'i llenwi, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol (gweler y Nodiadau isod), **gael ei dychwelyd i Mrs Barbara Murphy, Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff, Stryd y Dŵr, Port Talbot, SA126LF** erbyn y dyddiad cau **15fed Ionawr 2027**
- Os ydych chi'n gwneud cais i fwy nag un ysgol Gatholig, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol ar wahân ar gyfer pob ysgol.
- **Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y ffurflen hon ac yn ei dychwelyd i'r ysgol, gyda'r holl ddogfennaeth ategol, erbyn y dyddiad cau, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei roi yn y categori ffydd priodol a gallai hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.**
- Cofiwch – mae'n **rhaid** i chi lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin hefyd.

**Enw'r plentyn:** ________________________________________

**Cyfeiriad y plentyn:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Enw'r Rhiant/Gofalwr:**[3] ________________________________________

**E-bost y Rhiant/Gofalwr:** ________________________________________

Darllenwch Bolisi Derbyniadau perthnasol yr ysgol, gan nodi'n benodol unrhyw feini prawf ffydd, a llyfryn eich Awdurdod Lleol, cyn llenwi'r ffurflen hon.

**SYLWER: Wrth lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin, mae'n bwysig eich bod yn darparu manylion unrhyw frodyr a chwiorydd a fydd yn mynychu'r ysgol Gatholig ar yr adeg y bwriedir derbyn. Os na ddarperir yr wybodaeth hon, efallai na fydd awdurdod derbyn yr ysgol Gatholig yn gallu gosod y cais o fewn y meini prawf cywir.**

**Statws Crefyddol y plentyn (nodwch drwy roi tic yn y blwch priodol – nodwch mai dim ond mewn un blwch y dylid nodi tic)**

| **Meini Prawf** | **Blwch Ticio** | **Tystiolaeth: nodwch fanylion yn unol â'r Nodiadau isod** |
|---|---|---|
| 1. Catholig | □ | |
| 2. Catecwmen | □ | |
| 3. Aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol | □ | |
| 4. Aelod o enwad Cristnogol arall | □ | |
| 5. Aelod o ffydd arall | □ | |

| Y [Plwyf] [Deoniaeth] Catholig lle mae eich plentyn yn byw: |
|---|
| |

Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, rydym am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r diben yr ydym yn casglu ac yn prosesu'r data yr ydym wedi gofyn i chi ei ddarparu ar y ffurflen hon.

1. Ni yw

**Ysgol Fabanod Gatholig Sant Joseff, Stryd y Dŵr, Port Talbot, SA126LF**

2. Gan ein bod yn ddarparwr addysg Gatholig, rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Esgobaethol yr Ysgol, Ymddiriedolwyr yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Addysg Gatholig a Llywodraeth Cymru, a gallwn rannu'r wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen gais hon os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau.

3. Y person sy'n gyfrifol am ddiogelu data o fewn ein sefydliad yw **Mrs Barbara Murphy** a gallwch gysylltu â hi gydag ymholiadau ynghylch sut rydym yn trin y data. Gallwch gysylltu â hi drwy **ffonio 01639882579 neu anfon e-bost i Office@stjosinf.npt.school**

4. Mae angen y wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani am resymau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau fel awdurdod derbyn yr ysgol.

5. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU).

6. I'r graddau eich bod wedi rhannu unrhyw gategorïau arbennig o ddata, ni fydd hyn yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd partïon ac eithrio fel y manylir ym mharagraff 2 uchod, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol yn codi.

7. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data categori arbennig er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU). Yn ogystal, mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith ddomestig sy'n gymesur â'r nod a geisir ac sy'n cynnwys mesurau diogelwch priodol (Erthygl 9(2)(g) GDPR y DU).

8. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon yn cael ei symud i system gofrestru'r ysgol, a bydd y data yn cael ei gadw a'i brosesu ar sail hysbysiad prosesu teg yr ysgol a pholisïau diogelu data sy'n berthnasol i'r data hwnnw.

9. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn cael eu dinistrio ar ôl cyfnod o 12 mis. Gall yr ysgol gadw cofnod syml o bob cais a'i ganlyniad fel rhan o'i harchifau parhaol yn unol â pholisi cadw data'r ysgol.

10. I ddarllen am eich hawliau unigol gallwch gyfeirio at hysbysiad prosesu teg a pholisïau diogelu data’r ysgol.

11. Os hoffech gwyno am sut rydym wedi casglu a phrosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon, gallwch wneud cwyn i'n sefydliad drwy **gysylltu â'n person dynodedig, Mrs Barbara Murphy.** Os ydych chi'n anfodlon â sut mae eich cwyn wedi cael ei thrin, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ei wefan yn: ico.org.uk.

**Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen Polisi Derbyniadau'r ysgol a bod y wybodaeth a ddarperais yn gywir. Rwy'n deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r ysgol ar unwaith os bydd unrhyw newid i'r manylion hyn ac, os bydd unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir, y gall yr Awdurdod Derbyniadau dynnu unrhyw gynnig lle yn ôl hyd yn oed os yw'r plentyn eisoes wedi dechrau yn yr ysgol.**

Llofnodwyd…………………….. Dyddiad……………………………

**Nodiadau**

**1. Tystiolaeth o Fedydd Catholig**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol i blentyn Catholig, mae angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyn i'r Eglwys. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

Gall yr awdurdod derbyn ofyn am dystiolaeth ategol ychwanegol os nad yw'r dogfennau ysgrifenedig a ddarperir yn egluro'r ffaith bod y plentyn wedi'i fedyddio neu ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig, e.e. lle nad yw enw a chyfeiriad yr eglwys ar y dystysgrif neu lle nad yw enw'r eglwys yn nodi a yw'n eglwys Gatholig ai peidio. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd neu dderbyniad i'r Eglwys gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf.

**2. Tystiolaeth ar gyfer Catecwmeniaid**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol/academi ar gyfer catecwmen, bydd angen tystiolaeth ei fod yn aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Dylid darparu tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**3. Tystiolaeth o Aelodaeth o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol ar gyfer aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol, gan gynnwys Eglwysi Uniongred, bydd angen tystiolaeth o aelodaeth. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dderbyn gan awdurdodau'r Eglwys honno ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**4. Tystiolaeth ar gyfer Enwad Cristnogol Arall a Ffydd Arall**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol fel aelod o enwad Cristnogol arall neu ffydd arall, bydd angen tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o'r enwad Cristnogol neu'r ffydd honno, wedi'i llofnodi gan y gweinidog crefydd neu arweinydd ffydd priodol. Dylid darparu'r dystiolaeth ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**Rhestr Wirio:**

Ydych chi wedi amgáu?

- Copi o dystysgrif bedydd neu dderbyn i'r Eglwys Gatholig (lle bo'n berthnasol).
- Tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o enwad Cristnogol neu ffydd arall (lle bo'n berthnasol).

Ydych chi wedi llenwi a dychwelyd Ffurflen Gais Gyffredin eich awdurdod lleol?

# Polisi Derbyniadau

# 2027-2028

Catholic Education Service
Since 1847

*Mewn ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn. Defnyddir y term "ysgol" drwy gydol y ddogfen i olygu pob ysgol Gatholig, gan gynnwys ysgolion sydd dan ymddiriedolaeth urdd grefyddol.*

**Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff**

**POLISI DERBYN 2027-2028**

Sefydlwyd **Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff** gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant teuluoedd Catholig. Pryd bynnag y bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir isod. Caiff yr ysgol ei rhedeg gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i dogfen ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu ac mae'n ceisio bob amser fod yn dyst i'n Harglwydd Iesu Grist.

Fel ysgol Gatholig, ein nod yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac ymarfer Catholig yn treiddio i bob agwedd ar weithgarwch yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig addysg yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llawn gan bob teulu yn yr ysgol. Felly, rydym yn gobeithio y bydd pob rhiant yn rhoi ei gefnogaeth lawn, ddiamod a chadarnhaol i amcanion ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl ymgeisydd nad yw'n Gatholig i wneud cais am le yn yr ysgol a chael ei dderbyn i le yn unol â'r trefniadau derbyn hyn.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac mae ganddo gyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol hon. Mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn yn ystod y rownd derbyn arferol[4]. Mae'r awdurdod derbyn wedi gosod nifer derbyn yr ysgol ar **39** o ddisgyblion i'w derbyn i'r flwyddyn dderbyn yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym Medi, **2027.**

Lle bo'n bosibl yn logistaidd, bydd yr awdurdod derbyn yn derbyn efeilliaid a'r holl frodyr a chwiorydd o enedigaethau lluosog lle mai un o'r plant yw'r plentyn olaf i gael ei restru o fewn nifer derbyn yr ysgol.

**Disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol (Datganiadau o AAA) (gweler nodyn 1)**

Caiff derbyn disgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiadau o AAA) ei drin gan weithdrefn ar wahân. Rhaid derbyn plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiad o AAA) sy'n enwi'r ysgol. Lle bydd hyn yn digwydd cyn dyrannu lleoedd o dan y trefniadau hyn, bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i blant eraill.

[4] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

*Lle mae mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynigir lleoedd yn ôl y drefn flaenoriaeth ganlynol.*

9. Plant Catholig sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. (gweler nodiadau 2&3)
10. Plant Catholig sy'n byw ym mhlwyf**(au) Port Talbot, Margam a Chwmafan**. (gweler nodiadau 3&10)
11. Plant Catholig eraill. (gweler nodyn 3)
12. Plant sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol eraill. (gweler nodyn 2)
13. Catecwmeniaid ac aelodau o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol. (gweler nodiadau 4&5)
14. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan weinidog yr efengyl. (gweler nodyn 6)
15. Plant o ffydd arall y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan arweinydd crefyddol. (gweler nodyn 7)
16. Unrhyw blant eraill.

O fewn pob un o'r categorïau a restrir uchod bydd presenoldeb brawd neu chwaer yn yr ysgol ar adeg derbyn yn cynyddu blaenoriaeth cais o fewn pob categori fel y bydd y cais yn cael ei osod ar frig y categori y gwneir y cais ynddo (gweler nodyn 8).

**Torri'r Ddadl**

Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a bennir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Cyfrifir pellteroedd gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol GIS yr awdurdod lleol neu raglen arall a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol o bryd i'w gilydd, a fydd yn mesur y pellter o **[y tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat)] [y pwynt mynediad ffordd gyhoeddus cydnabyddedig agosaf o'r eiddo (tŷ neu fflat)]**[5] i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Os bydd y pellteroedd yr un fath i ddau neu fwy o blant, lle byddai hyn yn pennu'r lle olaf i'w ddyrannu, cynhelir y dyraniad ar hap a'i oruchwylio gan berson sy'n annibynnol ar yr ysgol. Bydd yr holl enwau'n cael eu rhoi mewn het a bydd y nifer gofynnol o enwau'n cael eu tynnu allan.

**Gweithdrefnau ac Amserlen Ymgeisio**

I wneud cais am le yn yr ysgol hon yn y rownd derbyn arferol[6], rhaid i chi lenwi Ffurflen Gais Gyffredin sydd ar gael gan yr awdurdod lleol rydych chi'n byw ynddo. Gofynnir i chi hefyd lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol sydd ynghlwm wrth y polisi hwn os ydych chi am wneud cais o dan feini prawf gordanysgrifio 1 i 3 neu 5 i 7. Dylid dychwelyd y Ffurflen Gwybodaeth Atodol i'r ysgol erbyn **15 Ionawr 2027**

[5] Dileer y geiriau mewn cromfachau sgwâr yn ôl yr angen.
[6] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais ar [**16$^{eg}$ Ebrill 2027** neu'r diwrnod gwaith nesaf, gan yr awdurdod lleol ar ein rhan. Os na fyddwch yn llwyddiannus (oni bai bod eich plentyn wedi cael lle mewn ysgol a gafodd ei rhestru'n uwch gennych), byddwch yn cael gwybod am y rhesymau, sy'n gysylltiedig â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir uchod, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

***Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y SIF ac yn ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei osod ym meini prawf 1 i 3 neu 5 i 7, a gall hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.***

**Bydd pob cais a gyflwynir mewn pryd yn cael ei ystyried ar yr un pryd ac ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau sef 15$^{fed}$ Ionawr 2027.**

**Ceisiadau Hwyr**[7]

Derbynnir ceisiadau hwyr ar yr amod y rhoddir rheswm da a bod unrhyw gais yn cael ei dderbyn cyn i gynigion lleoedd gael eu gwneud. Fe'ch anogir i sicrhau bod eich cais yn cael ei dderbyn mewn pryd.]

**Derbyn Plant y tu allan i'w Grŵp Oedran Arferol**

Gellir gwneud cais i blentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, er enghraifft, os yw'r plentyn yn ddawnus a thalentog neu os yw wedi profi problemau fel afiechyd. Yn ogystal, gall rhieni plentyn a anwyd yn yr haf, h.y. plentyn a anwyd rhwng 1$^{af}$ Ebrill a 31$^{ain}$ Awst, ofyn i'r plentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, i'r dosbarth derbyn yn hytrach na blwyddyn 1.

Dylid gwneud unrhyw gais o'r fath yn ysgrifenedig i **Is-bwyllgor Derbyniadau'r Corff Llywodraethu yn Ysgol Iau Sant Joseff** ar yr un pryd ag y gwneir y cais am dderbyn. Bydd yr awdurdod derbyn yn gwneud ei benderfyniad ynghylch y cais yn seiliedig ar amgylchiadau pob achos ac er lles gorau'r plentyn. Yn ogystal ag ystyried barn y pennaeth, gan gynnwys cyfrifoldeb statudol y pennaeth dros drefniadaeth, rheolaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol, bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried barn y rhieni a gweithwyr proffesiynol meddygol ac addysgol priodol, yn ôl yr angen.

**Rhestrau Aros**

Yn ogystal â'u hawl i apelio, a fydd yn dod i ben ar 14$^{eg}$ Mai 2027, cynigir cyfle i blant aflwyddiannus gael eu rhoi ar restr aros. Bydd y rhestr aros hon yn cael ei chynnal yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio a nodir uchod ac ***nid*** yn y drefn y derbynnir ceisiadau neu y cânt eu hychwanegu at y rhestr. Bydd rhestrau aros ar gyfer derbyn yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ysgol. Bydd y rhestr aros yn cael ei chadw ar agor tan **ddiwrnod olaf tymor yr haf.**

**Nid yw cael eich cynnwys ar restr aros yr ysgol yn golygu y bydd lle ar gael yn y pen draw.**

**Ceisiadau yn ystod y flwyddyn**

Gellir gwneud cais am le i blentyn ar unrhyw adeg y tu allan i'r rownd derbyn arferol a bydd y plentyn yn cael ei dderbyn lle mae lleoedd ar gael. Dylid gwneud cais i'r swyddog derbyniadau canolog yn yr awdurdod lleol.

Lle mae lleoedd ar gael ond bod mwy o geisiadau nag o leoedd, bydd y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig, fel y nodir uchod, yn cael eu cymhwyso.

Os nad oes lleoedd ar gael, bydd y plentyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr aros (gweler uchod).

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais yn ysgrifenedig, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

**Plant Anodd eu Lleoli**

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gymryd ei chyfran deg o blant sy'n agored i niwed a/neu'n anodd eu lleoli, fel y nodir mewn protocolau y cytunwyd arnynt yn lleol. Yn unol â hynny, y tu allan i'r rownd derbyn arferol mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer i roi blaenoriaeth lwyr i blentyn lle gofynnir am le o dan unrhyw brotocol y cytunwyd arno'n lleol. Mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer hwn, hyd yn oed pan fyddai derbyn y plentyn yn golygu mynd y tu hwnt i'r nifer derbyn (yn amodol ar yr eithriadau maint dosbarthiadau babanod).

**Mae'r awdurdod derbyn yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl neu, os yw plentyn eisoes yn mynychu'r ysgol, y lle ei hun, os yw'n fodlon bod y lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol a wrthododd le i blentyn â hawliad cryfach neu os cynigiwyd lle gan yr ALl yn hytrach na chan yr awdurdod derbyn mewn camgymeriad.**

***Nodiadau (mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r meini prawf gordanysgrifio)***

12. Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun statudol a wneir gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol ar gyfer plentyn. Mae Adran 48 o Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os yw'r ysgol wedi'i henwi yng Nghynllun Datblygu Unigol y plentyn. Yn y pen draw, bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli pob cynllun statudol neu anstatudol arall, gan gynnwys unrhyw Ddatganiad o AAA. At ddibenion y polisi hwn, mae cyfeiriadau at Gynllun Datblygu Unigol hefyd yn cynnwys unrhyw gynllun arall sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n enwi'r ysgol.

13. Mae gan 'plentyn sy'n derbyn gofal' yr un ystyr ag yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989 ac adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n golygu unrhyw blentyn sydd (a) yng ngofal awdurdod lleol neu (b) yn cael llety ganddo wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (e.e. plant gyda rhieni maeth) ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

    Mae 'plentyn a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol' yn blentyn a oedd yn derbyn gofal, ond a beidiodd â bod yn derbyn gofal oherwydd iddo gael ei fabwysiadu, neu ddod yn destun gorchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

14. Mae 'Catholig' yn golygu aelod o Eglwys sydd mewn cymundeb llawn ag Esgobaeth Rhufain. Mae hyn yn cynnwys yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol. Fel arfer, bydd tystysgrif bedydd mewn Eglwys Gatholig neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig yn tystio i hyn. At ddibenion

y polisi hwn, mae'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda theulu lle mae o leiaf un o'r rhieni'n Gatholig.

Er mwyn i blentyn gael ei drin fel un Catholig, bydd angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyniad i'r Eglwys. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Esgobaeth, yn penderfynu sut y dylid datrys cwestiwn y bedydd a sut y dylid cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.

15. Mae 'catecwmen' yn golygu aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Fel arfer, bydd tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid yn tystio i hyn.

16. Mae'r 'Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol' yn cynnwys Eglwysi Uniongred, ac fel arfer mae tystysgrif bedydd neu dderbyniad gan awdurdodau'r Eglwys honno yn dystiolaeth o hyn.

17. Mae "plant enwadau Cristnogol eraill" yn golygu plant sy'n perthyn i eglwysi a chymunedau eglwysig eraill sydd, yn cydnabod datguddiad Duw yng Nghrist, yn cyffesu'r Arglwydd Iesu Grist fel Duw a Gwaredwr yn ôl yr Ysgrythurau, ac, mewn ufudd-dod i ewyllys Duw ac yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn ymrwymo eu hunain: i geisio dyfnhau eu cymundeb â Christ a chyda'i gilydd yn yr Eglwys, sef Ei gorff; ac i gyflawni eu cenhadaeth i gyhoeddi'r Efengyl trwy dystiolaeth a gwasanaeth cyffredin yn y byd er gogoniant yr un Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Mae cymuned eglwysig nad oes ganddi, ar egwyddor, ddatganiadau credoau yn ei thraddodiad, wedi'i chynnwys os yw'n amlygu ffydd yng Nghrist fel y tystir iddi yn yr Ysgrythurau ac wedi ymrwymo i weithio yn ysbryd yr uchod.

Ystyrir bod pob aelod o Eglwysi Ynghyd yn Lloegr a CYTÛN wedi'u cynnwys yn y diffiniad uchod, fel y mae pob eglwys a chymuned eglwysig arall sy'n aelodau o unrhyw Grŵp Eglwysi Ynghyd (o ba bynnag deitl) ar y sail uchod.

18. Mae "plant o ffydd arall" yn golygu plant sy'n aelodau o gymuned grefyddol nad yw'n dod o fewn y diffiniad o 'enwadau Cristnogol eraill' yn 6 uchod ac sy'n dod o fewn y diffiniad o grefydd at ddibenion cyfraith elusennau. Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio crefydd i gynnwys:

   - Crefydd sy'n cynnwys cred mewn mwy nag un Duw, a
   - Crefydd nad yw'n cynnwys credu mewn Duw.

   Mae cyfraith achosion wedi nodi rhai nodweddion sy'n disgrifio ystyr crefydd at ddibenion cyfraith elusennau, a nodweddir gan gred mewn bod goruchaf a mynegiant o gred yn y bod goruchaf hwnnw trwy addoliad.

19. mae 'brawd neu chwaer' yn cynnwys:

(iii) pob brawd neu chwaer naturiol, hanner brawd neu chwaer, brodyr neu chwiorydd mabwysiedig, llysfrodyr neu chwiorydd, brodyr neu chwiorydd maeth, p'un a ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad ai peidio; a

(iv) phlentyn partner rhiant lle mae'r plentyn hwnnw'n byw am o leiaf ran o'r wythnos yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad cartref â'r plentyn sy'n destun y cais.

20. Mae 'rhiant' yn golygu pob rhiant, unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn.

21. At ddibenion y polisi hwn, bydd ffiniau plwyfi yn cael eu cymhwyso i'r trefniadau derbyn ar gyfer **2027-2028.**

22. Mae "cyfeiriad cartref" plentyn yn cyfeirio at y cyfeiriad lle mae'r plentyn fel arfer yn byw gyda rhiant neu ofalwr a dyma'r cyfeiriad a ddarperir yn y Ffurflen Gais Gyffredin ("CAF"). Lle mae gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd am blentyn, a bod y plentyn yn byw am ran o'r wythnos gyda phob rhiant, y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad a roddir yn y CAF, ar yr amod bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw am unrhyw ran o'r wythnos ysgol.

Catholic Education Service
Since 1847

ARCHESGOBAETH CAERDYDD-MYNYW

YSGOL IAU GATHOLIG SANT JOSEFF

FFURFLEN GWYBODAETH ATODOL

**2027/2028**

**Os ydych chi'n mynegi dewis am le i'ch plentyn yn Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff yng Nghastell-nedd Port Talbot ac os ydych chi am wneud cais o dan faen prawf ffydd, dylech chi lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol hon.**

- Dylid llenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol (gweler y Nodiadau isod), **a'i dychwelyd at glerc y llywodraethwyr yn yr ysgol** erbyn y dyddiad cau **15fed Ionawr 2027.**
- Os ydych chi'n gwneud cais i fwy nag un ysgol Gatholig, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol ar wahân ar gyfer pob ysgol.
- **Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y ffurflen hon ac yn ei dychwelyd i'r ysgol, gyda'r holl ddogfennaeth ategol, erbyn y dyddiad cau, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei roi yn y categori ffydd priodol a gallai hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.**
- Cofiwch – mae'n **rhaid** i chi lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin hefyd.

**Enw'r plentyn:** ___________________________________________

**Cyfeiriad y plentyn:** ___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

**Enw'r Rhiant/Gofalwr:**[8] ___________________________________________

**E-bost y Rhiant/Gofalwr:** ___________________________________________

Darllenwch Bolisi Derbyniadau perthnasol yr ysgol, gan nodi unrhyw feini prawf ffydd, a llyfryn eich Awdurdod Lleol, cyn llenwi'r ffurflen hon.

**SYLWER: Wrth lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin, mae'n bwysig eich bod yn darparu manylion unrhyw frodyr a chwiorydd a fydd yn mynychu'r ysgol Gatholig ar yr adeg y bwriedir derbyn. Os na ddarperir yr wybodaeth hon, efallai na fydd awdurdod derbyn yr ysgol Gatholig yn gallu gosod y cais o fewn y meini prawf cywir.**

**Statws Crefyddol y plentyn (nodwch drwy roi tic yn y blwch priodol – nodwch mai dim ond mewn un blwch y dylid nodi tic)**[9]

| Meini Prawf | Blwch Ticio | Tystiolaeth: nodwch fanylion yn unol â'r Nodiadau isod |
|---|---|---|

[8] Nid oes angen cwblhau hyn lle mae cais yn cael ei wneud gan ddisgybl ar ei ran ei hun i gael mynediad i flwyddyn 12.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Catholig | ☐ | |
| 2. Catecwmen | ☐ | |
| 3. Aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol | ☐ | |
| 4. Aelod o enwad Cristnogol arall | ☐ | |
| 5. Aelod o ffydd arall | ☐ | |

| |
|---|
| Y [Plwyf] [Deoniaeth] Catholig lle mae eich plentyn yn byw: |

Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, rydym am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r diben yr ydym yn casglu ac yn prosesu'r data yr ydym wedi gofyn i chi ei ddarparu ar y ffurflen hon.

12. Ni yw Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff.
13. Gan ein bod yn ddarparwr addysg Gatholig, rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Esgobaethol yr Ysgol, Ymddiriedolwyr yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Addysg Gatholig a Llywodraeth Cymru, a gallwn rannu'r wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen gais hon os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau.
14. Y person sy'n gyfrifol am ddiogelu data o fewn ein sefydliad yw'r pennaeth a gallwch gysylltu â hwy gydag ymholiadau ynghylch sut rydym yn trin y data. Gallwch gysylltu â hwy yn yr ysgol.
15. Mae angen y wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani am resymau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau fel awdurdod derbyn yr ysgol.
16. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU).
17. I'r graddau eich bod wedi rhannu unrhyw gategorïau arbennig o ddata, ni fydd hyn yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd partïon ac eithrio fel y manylir ym mharagraff 2 uchod, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol yn codi.
18. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data categori arbennig er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU). Yn ogystal, mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith ddomestig sy'n gymesur â'r nod a geisir ac sy'n cynnwys mesurau diogelwch priodol (Erthygl 9(2)(g) GDPR y DU).
19. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon yn cael ei symud i system gofrestru'r ysgol, a bydd y data yn cael ei gadw a'i brosesu yn seiliedig ar hysbysiad prosesu teg yr ysgol a pholisïau diogelu data sy'n berthnasol i'r data hwnnw.

20. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn cael eu dinistrio ar ôl cyfnod o 12 mis. Gall yr ysgol gadw cofnod syml o bob cais a'i ganlyniad fel rhan o'i harchifau parhaol yn unol â pholisi cadw data'r ysgol.

21. I ddarllen am eich hawliau unigol gallwch gyfeirio at hysbysiad prosesu teg a pholisïau diogelu data'r ysgol.

22. Os hoffech gwyno am sut rydym wedi casglu a phrosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon, gallwch wneud cwyn ysgrifenedig i'n sefydliad. Os ydych chi'n anfodlon â sut mae eich cwyn wedi cael ei thrin, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ei wefan yn: ico.org.uk.

**Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen Polisi Derbyniadau'r ysgol a bod y wybodaeth a ddarperais yn gywir. Rwy'n deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r ysgol ar unwaith os bydd unrhyw newid i'r manylion hyn ac, os bydd unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir, y gall yr Awdurdod Derbyniadau dynnu unrhyw gynnig lle yn ôl hyd yn oed os yw'r plentyn eisoes wedi dechrau yn yr ysgol.**

Llofnodwyd…………………….. Dyddiad……………………………

**Nodiadau**

**1. Tystiolaeth o Fedydd Catholig**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol i blentyn Catholig, mae angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyn i'r Eglwys. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

Gall yr awdurdod derbyn ofyn am dystiolaeth ategol ychwanegol os nad yw'r dogfennau ysgrifenedig a ddarperir yn egluro'r ffaith bod y plentyn wedi'i fedyddio neu ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig, e.e. lle nad yw enw a chyfeiriad yr eglwys ar y dystysgrif neu lle nad yw enw'r eglwys yn nodi a yw'n eglwys Gatholig ai peidio. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd neu dderbyniad i'r Eglwys gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf.

**2. Tystiolaeth ar gyfer Catecwmeniaid**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol/academi ar gyfer catecwmen, bydd angen tystiolaeth ei fod yn aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Dylid darparu tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**3. Tystiolaeth o Aelodaeth o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol ar gyfer aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol, gan gynnwys Eglwysi Uniongred, bydd angen tystiolaeth o aelodaeth. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dderbyn gan awdurdodau'r Eglwys honno ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**4. Tystiolaeth ar gyfer Enwad Cristnogol Arall a Ffydd Arall**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol fel aelod o enwad Cristnogol arall neu ffydd arall, bydd angen tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o'r enwad Cristnogol neu'r ffydd honno, wedi'i llofnodi gan y gweinidog crefydd neu arweinydd ffydd priodol. Dylid darparu'r dystiolaeth ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**Rhestr Wirio:**

Ydych chi wedi amgáu?

- Copi o dystysgrif bedydd neu dderbyn i'r Eglwys Gatholig (lle bo'n berthnasol).

- Tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o enwad Cristnogol neu ffydd arall (lle bo'n berthnasol).[10]

Ydych chi wedi llenwi a dychwelyd Ffurflen Gais Gyffredin eich awdurdod lleol?

# Saint Joseph's
# Catholic Primary School
# Ysgol Gynradd Catholig San Joseff

# Polisi Derbyniadau
# 2027-2028

## POLISI STATUDOL

**MABWYSIADWYD Y POLISI HWN: Gwanwyn 2026**

**Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu: Gwanwyn 2027**

## Datganiad Gweledigaeth

Mae Ysgol Gynradd Sant Joseff yn darparu amgylchedd Catholig bach, gofalgar a meithringar lle mae pob disgybl yn derbyn anogaeth ac arweiniad i ddatblygu ei alluoedd a'i dalentau i'r eithaf. Mae hyn yn adlewyrchu ein Datganiad Cenhadaeth, “Un Teulu, Llawer o Roddion”, wrth fyw yn ôl Gwerthoedd yr Efengyl.

Ein nod yw creu amgylchedd cynhwysol lle mae disgyblion yn dod yn llythrennog, yn rhifog ac yn gymwys yn ddigidol. Tra yn ein hysgol, cânt eu datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol, iach, uchelgeisiol a gwydn. Ein nod yw creu amgylchedd dwyieithog lle mae dysgwyr yn falch o'u treftadaeth Gymreig. Rydym yn herio ac yn cefnogi ein disgyblion i gyrraedd eu potensial llawn, gan roi iddynt y sgiliau sy'n angenrheidiol i barhau â'u taith o ddysgu gydol oes. Yn anad dim, ein nod yw llunio dysgwyr hyderus gyda moesau a gwerthoedd cryf, sy'n gadael ein hysgol ag atgofion hapus o'u blynyddoedd ffurfiannol.

THE ARCHDIOCESE *of* CARDIFF-MENEVIA
ARCHESGOBAETH CAERDYDD-MYNYW

**YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANT JOSEFF**

**POLISI DERBYN 2027-2028**

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg i blant teuluoedd Catholig. Pryd bynnag y bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i blant Catholig yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir isod. Caiff yr ysgol ei rhedeg gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i dogfen ymddiriedolaeth a'i hofferyn llywodraethu ac mae'n ceisio bob amser fod yn dyst i'n Harglwydd Iesu Grist.

Fel ysgol Gatholig, ein nod yw darparu addysg Gatholig i'n holl ddisgyblion. Mewn ysgol Gatholig, mae athrawiaeth ac ymarfer Catholig yn treiddio i bob agwedd ar weithgarwch yr ysgol. Mae'n hanfodol bod cymeriad Catholig addysg yr ysgol yn cael ei gefnogi'n llawn gan bob teulu yn yr ysgol. Felly, rydym yn gobeithio y bydd pob rhiant yn rhoi ei gefnogaeth lawn, ddiamod a chadarnhaol i amcanion ac ethos yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl ymgeisydd nad yw'n Gatholig i wneud cais am le yn yr ysgol a chael ei dderbyn i le yn unol â'r trefniadau derbyn hyn.

Y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ac mae ganddo gyfrifoldeb am dderbyniadau i'r ysgol hon. Mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â chydlynu trefniadau derbyn yn ystod y rownd derbyn arferol[11]. Mae'r awdurdod derbyn wedi gosod nifer derbyn yr ysgol ar **29** o ddisgyblion i'w derbyn i'r flwyddyn dderbyn yn y flwyddyn ysgol sy'n dechrau ym **Medi, 2027**.

Lle bo'n bosibl yn logistaidd, bydd yr awdurdod derbyn yn derbyn efeilliaid a'r holl frodyr a chwiorydd o enedigaethau lluosog lle mai un o'r plant yw'r plentyn olaf i gael ei restru o fewn nifer derbyn yr ysgol.

## Disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol (Datganiadau o AAA) (gweler nodyn 1)

Mae derbyn disgyblion sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiadau o AAA) yn cael ei drin gan weithdrefn gwbl ar wahân. Rhaid derbyn plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol (neu Ddatganiad o AAA) sy'n enwi'r ysgol. Lle bydd hyn yn digwydd cyn dyrannu lleoedd o dan y trefniadau hyn, bydd hyn yn lleihau nifer y lleoedd sydd ar gael i blant eraill.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

*Lle mae mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynigir lleoedd yn ôl y drefn flaenoriaeth ganlynol.*

17. Plant Catholig sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. (gweler nodiadau 2&3)
18. Plant Catholig sy'n byw ym mhlwyf**(au)** **[enw]**. (gweler nodiadau 3&10)
19. Plant Catholig eraill. (gweler nodyn 3)
20. Plant sy'n derbyn gofal ac a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol eraill. (gweler nodyn 2)

[11] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.

21. Catecwmeniaid ac aelodau o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol. (gweler nodiadau 4&5)
22. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan weinidog yr efengyl. (gweler nodyn 6)
23. Plant o ffydd arall y mae eu haelodaeth wedi'i phrofi gan arweinydd crefyddol. (gweler nodyn 7)
24. Unrhyw blant eraill.

O fewn pob un o'r categorïau a restrir uchod bydd presenoldeb brawd neu chwaer yn yr ysgol ar adeg derbyn yn cynyddu blaenoriaeth cais o fewn pob categori fel y bydd y cais yn cael ei osod ar frig y categori y gwneir y cais ynddo (gweler nodyn 8).

**Torri'r Ddadl**

Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol a bennir gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Cyfrifir pellteroedd gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol GIS yr awdurdod lleol neu raglen arall a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol o bryd i'w gilydd, a fydd yn mesur y pellter. Os bydd y pellteroedd yr un fath i ddau neu fwy o blant, lle byddai hyn yn pennu'r lle olaf i'w ddyrannu, cynhelir y dyraniad ar hap a'i oruchwylio gan berson sy'n annibynnol ar yr ysgol. Bydd yr holl enwau'n cael eu rhoi mewn het a bydd y nifer gofynnol o enwau'n cael eu tynnu allan.

## Gweithdrefnau ac Amserlen Ymgeisio

I wneud cais am le yn yr ysgol hon yn y rownd derbyn arferol[12], rhaid i chi lenwi Ffurflen Gais Gyffredin sydd ar gael gan yr awdurdod lleol rydych chi'n byw ynddo. Gofynnir i chi hefyd lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol sydd ynghlwm wrth y polisi hwn os ydych chi am wneud cais o dan feini prawf gordanysgrifio 1 i 3 neu 5 i 7. Dylid dychwelyd y Ffurflen Gwybodaeth Atodol i **Mrs. Philippa Brooks, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Rhodfa Cook Rees, SA11 1UR** erbyn **15 Ionawr 2027.**

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais ar **16eg Ebrill 2027** neu'r diwrnod gwaith nesaf, gan yr awdurdod lleol ar ein rhan. Os na fyddwch yn llwyddiannus (oni bai bod eich plentyn wedi cael lle mewn ysgol a gafodd ei rhestru'n uwch gennych), byddwch yn cael gwybod am y rhesymau, sy'n gysylltiedig â'r meini prawf gordanysgrifio a restrir uchod, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

***Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y SIF ac yn ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei osod ym meini prawf 1 i 3 neu 5 i 7, a gall hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.***

**Bydd pob cais a gyflwynir mewn pryd yn cael ei ystyried ar yr un pryd ac ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau sef 15fed Ionawr 2027.**

**Ceisiadau Hwyr[13]**

Derbynnir ceisiadau hwyr ar yr amod y rhoddir rheswm da a bod unrhyw gais yn cael ei dderbyn cyn i gynigion lleoedd gael eu gwneud. Fe'ch anogir i sicrhau bod eich cais yn cael ei dderbyn mewn pryd.

[12] Mae hyn ar gyfer derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ym mis Medi ac nid ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn.
[13] Bydd angen teilwra'r adran hon i ddilyn y weithdrefn o fewn awdurdod lleol cartref yr ysgol er mwyn sicrhau ei bod yn unol â chynllun yr awdurdod lleol ar gyfer cydlynu derbyniadau.

CNPT – Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn cael eu hystyried nes bod yr holl geisiadau a dderbyniwyd ar amser wedi cael eu dyrannu ac y cynigiwyd lleoedd iddynt ar y diwrnod cynnig cyffredin.

**Derbyn Plant Dan Oedran Ysgol Gorfodol a Mynediad Gohiriedig**

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Fodd bynnag, mae gan blentyn hawl i le amser llawn yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair. Gall rhieni plentyn ohirio'r dyddiad y derbynnir eu plentyn, sydd o dan oedran ysgol gorfodol, i'r ysgol, tan yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn ysgol. Yr effaith yw bod y lle yn cael ei gadw ar gyfer y plentyn hwnnw ac nad yw ar gael i'w gynnig i blentyn arall. Fodd bynnag, ni ddylai rhieni plentyn ohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pumed pen-blwydd y plentyn, nac y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Gall plentyn gymryd lle rhan-amser tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol, ond nid y tu hwnt i'r pwynt y mae'r plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Ar ôl derbyn cynnig lle, dylai rhiant hysbysu'r ysgol, cyn gynted â phosibl, ei fod yn dymuno naill ai gohirio mynediad ei blentyn i'r ysgol neu gymryd lle rhan-amser.

**Derbyn Plant y tu allan i'w Grŵp Oedran Arferol**

Gellir gwneud cais i blentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, er enghraifft, os yw'r plentyn yn ddawnus a thalentog neu os yw wedi profi problemau fel afiechyd. Yn ogystal, gall rhieni plentyn a anwyd yn yr haf, h.y. plentyn a anwyd rhwng 1af Ebrill a 31ain Awst, ofyn i'r plentyn gael ei dderbyn y tu allan i'w grŵp oedran arferol, i'r dosbarth derbyn yn hytrach na blwyddyn 1.

Dylid gwneud unrhyw gais o'r fath yn ysgrifenedig i **Mrs. Philippa Brooks, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Rhodfa Cook Rees, SA11 1UR** erbyn **15 Ionawr 2027** ar yr un pryd ag y gwneir y cais am dderbyn. Bydd yr awdurdod derbyn yn gwneud ei benderfyniad ynghylch y cais yn seiliedig ar amgylchiadau pob achos ac er lles gorau'r plentyn. Yn ogystal ag ystyried barn y pennaeth, gan gynnwys cyfrifoldeb statudol y pennaeth dros drefniadaeth, rheolaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol, bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried barn y rhieni a gweithwyr proffesiynol meddygol ac addysgol priodol, yn ôl yr angen.

**Rhestrau Aros**

Yn ogystal â'u hawl i apelio, cynigir cyfle i blant aflwyddiannus gael eu rhoi ar restr aros. Bydd y rhestr aros hon yn cael ei chynnal yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio a nodir uchod ac ***nid*** yn y drefn y derbynnir ceisiadau neu y cânt eu hychwanegu at y rhestr. Bydd rhestrau aros ar gyfer derbyn yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn ysgol. Bydd y rhestr aros ar agor tan **ddydd Mercher 21ain Gorffennaf 2027.**

**Nid yw cael eich cynnwys ar restr aros yr ysgol yn golygu y bydd lle ar gael yn y pen draw.**

**Ceisiadau yn ystod y flwyddyn**

Gellir gwneud cais am le i blentyn ar unrhyw adeg y tu allan i'r rownd derbyn arferol a bydd y plentyn yn cael ei dderbyn lle mae lleoedd ar gael. Dylid gwneud cais i'r ysgol drwy gysylltu â **Mrs. Philippa Brooks, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff**, **SA11 1UR** erbyn **15 Ionawr 2027.**

Lle mae lleoedd ar gael ond bod mwy o geisiadau nag o leoedd, bydd y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig, fel y nodir uchod, yn cael eu cymhwyso.

Os nad oes lleoedd ar gael, bydd y plentyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr aros (gweler uchod).

Byddwch yn cael gwybod am ganlyniad eich cais yn ysgrifenedig, ac mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol.

**Plant Anodd eu Lleoli**

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gymryd ei chyfran deg o blant sy'n agored i niwed a/neu'n anodd eu lleoli, fel y nodir mewn protocolau y cytunwyd arnynt yn lleol. Yn unol â hynny, y tu allan i'r rownd derbyn arferol mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer i roi blaenoriaeth lwyr i blentyn lle gofynnir am le o dan unrhyw brotocol y cytunwyd arno'n lleol. Mae gan yr awdurdod derbyn y pŵer hwn, hyd yn oed pan fyddai derbyn y plentyn yn golygu mynd y tu hwnt i'r nifer derbyn (yn amodol ar yr eithriadau maint dosbarthiadau Cynradd).

**Meithrin**

Ar gyfer plant sy'n mynychu dosbarth meithrin yr ysgol neu unrhyw ddarpariaeth feithrin a ddarperir mewn canolfan blant ar yr un safle, rhaid gwneud cais i ddosbarth derbyn yr ysgol yn y ffordd arferol, i'r awdurdod lleol cartref. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yr ysgol neu unrhyw ddarpariaeth feithrin a ddarperir mewn canolfan blant ar yr un safle yn gwarantu'n awtomatig y bydd lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol.

**Mae'r awdurdod derbyn yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl neu, os yw plentyn eisoes yn mynychu'r ysgol, y lle ei hun, os yw'n fodlon bod y lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol a wrthododd le i blentyn â hawliad cryfach neu os cynigiwyd lle gan yr ALl yn hytrach na chan yr awdurdod derbyn mewn camgymeriad.**

***Nodiadau (mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r meini prawf gordanysgrifio)***

23. Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun statudol a wneir gan yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol ar gyfer plentyn. Mae Adran 48 o Ddeddf Anghenion Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os yw'r ysgol wedi'i henwi yng Nghynllun Datblygu Unigol y plentyn. Yn y pen draw, bydd Cynlluniau Datblygu Unigol yn disodli pob cynllun statudol neu anstatudol arall, gan gynnwys unrhyw Ddatganiad o AAA. At ddibenion y polisi hwn, mae cyfeiriadau at Gynllun Datblygu Unigol hefyd yn cynnwys unrhyw gynllun arall sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n enwi'r ysgol.
24. Mae gan 'plentyn sy'n derbyn gofal' yr un ystyr ag yn adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989 ac adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n golygu unrhyw blentyn sydd (a) yng ngofal awdurdod lleol neu (b) yn cael llety ganddo wrth arfer ei swyddogaethau

gwasanaethau cymdeithasol (e.e. plant gyda rhieni maeth) ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal ar adeg derbyn y plentyn i'r ysgol.

Mae 'plentyn a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol' yn blentyn a oedd yn derbyn gofal, ond a beidiodd â bod yn derbyn gofal oherwydd iddo gael ei fabwysiadu, neu ddod yn destun gorchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

25. Mae 'Catholig' yn golygu aelod o Eglwys sydd mewn cymundeb llawn ag Esgobaeth Rhufain. Mae hyn yn cynnwys yr Eglwysi Catholig Dwyreiniol. Fel arfer, bydd tystysgrif bedydd mewn Eglwys Gatholig neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig yn tystio i hyn. At ddibenion y polisi hwn, mae'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda theulu lle mae o leiaf un o'r rhieni'n Gatholig.

    Er mwyn i blentyn gael ei drin fel un Catholig, bydd angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyniad i'r Eglwys. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Esgobaeth, yn penderfynu sut y dylid datrys cwestiwn y bedydd a sut y dylid cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chyfraith yr Eglwys.

26. Mae 'catecwmen' yn golygu aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Fel arfer, bydd tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid yn tystio i hyn.

27. Mae'r 'Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol' yn cynnwys Eglwysi Uniongred, ac fel arfer mae tystysgrif bedydd neu dderbyniad gan awdurdodau'r Eglwys honno yn dystiolaeth o hyn.

28. Mae “plant enwadau Cristnogol eraill” yn golygu plant sy’n perthyn i eglwysi a chymunedau eglwysig eraill sydd, yn cydnabod datguddiad Duw yng Nghrist, yn cyffesu’r Arglwydd Iesu Grist fel Duw a Gwaredwr yn ôl yr Ysgrythurau, ac, mewn ufudd-dod i ewyllys Duw ac yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn ymrwymo eu hunain: i geisio dyfnhau eu cymundeb â Christ a chyda’i gilydd yn yr Eglwys, sef Ei gorff; ac i gyflawni eu cenhadaeth i gyhoeddi’r Efengyl trwy dystiolaeth a gwasanaeth cyffredin yn y byd er gogoniant yr un Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân. Mae cymuned eglwysig nad oes ganddi, ar egwyddor, ddatganiadau credoau yn ei thraddodiad, wedi'i chynnwys os yw'n amlygu ffydd yng Nghrist fel y tystir iddi yn yr Ysgrythurau ac wedi ymrwymo i weithio yn ysbryd yr uchod.

    Ystyrir bod pob aelod o Eglwysi Ynghyd yn Lloegr a CYTÛN wedi'u cynnwys yn y diffiniad uchod, fel y mae pob eglwys a chymuned eglwysig arall sy'n aelodau o unrhyw Grŵp Eglwysi Ynghyd (o ba bynnag deitl) ar y sail uchod.

29. Mae “plant o ffydd arall” yn golygu plant sy’n aelodau o gymuned grefyddol nad yw’n dod o fewn y diffiniad o ‘enwadau Cristnogol eraill’ yn 6 uchod ac sy’n dod o fewn y diffiniad o grefydd at ddibenion cyfraith elusennau. Mae Deddf Elusennau 2011 yn diffinio crefydd i gynnwys:

    - Crefydd sy'n cynnwys cred mewn mwy nag un Duw, a
    - Crefydd nad yw'n cynnwys credu mewn Duw.

    Mae cyfraith achosion wedi nodi rhai nodweddion sy'n disgrifio ystyr crefydd at ddibenion cyfraith elusennau, a nodweddir gan gred mewn bod goruchaf a mynegiant o gred yn y bod goruchaf hwnnw trwy addoliad.

30. mae 'brawd neu chwaer' yn cynnwys:

(v) pob brawd neu chwaer naturiol, hanner brawd neu chwaer, brodyr neu chwiorydd mabwysiedig, llysfrodyr neu chwiorydd, brodyr neu chwiorydd maeth, p'un a ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad ai peidio; a

(vi) phlentyn partner rhiant lle mae'r plentyn hwnnw'n byw am o leiaf ran o'r wythnos yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad cartref â'r plentyn sy'n destun y cais.

31. Mae 'rhiant' yn golygu pob rhiant, unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac unrhyw berson sy'n gofalu am blentyn.

32. At ddibenion y polisi hwn, mae ein hysgol yn gwasanaethu plwyfi Sant Joseff, Castell-nedd, Sant Ioan Kemble, Glyn-nedd ac Ein Harglwyddes Ddyrchafedig, Llansawel a byddant yn cael eu cymhwyso i'r trefniadau derbyn ar gyfer **Medi 2027.**

33. Mae "cyfeiriad cartref" plentyn yn cyfeirio at y cyfeiriad lle mae'r plentyn fel arfer yn byw gyda rhiant neu ofalwr, a'r cyfeiriad a ddarperir yn y Ffurflen Gais Gyffredin ("CAF") fydd hwn. Lle mae gan rieni gyfrifoldeb ar y cyd am blentyn, a bod y plentyn yn byw am ran o'r wythnos gyda phob rhiant, y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad a roddir yn y CAF, ar yr amod bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw am unrhyw ran o'r wythnos ysgol.

**ARCHESGOBAETH CAERDYDD-MYNYW**

**YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANT JOSEFF**

**FFURFLEN GWYBODAETH ATODOL**

**2027-2028**

Os ydych chi'n mynegi dewis am le i'ch plentyn yn **YSGOL GYNRADD GATHOLIG SANT JOSEFF** yng **NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT** ac os ydych chi am wneud cais o dan faen prawf ffydd, dylech chi lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol hon.

- Dylai'r Ffurflen Gwybodaeth Atodol wedi'i llenwi, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol (gweler y Nodiadau isod), **gael ei dychwelyd i Mrs Philippa Brooks, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Rhodfa Cook Rees, Castell-nedd, SA11 1UR** erbyn y dyddiad cau **15fed Ionawr 2027**
- Os ydych chi'n gwneud cais i fwy nag un ysgol Gatholig, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol ar wahân ar gyfer pob ysgol.
- **Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen yn y ffurflen hon ac yn ei dychwelyd i'r ysgol, gyda'r holl ddogfennaeth ategol, erbyn y dyddiad cau, efallai na fydd eich plentyn yn cael ei roi yn y categori ffydd priodol a gallai hyn effeithio ar siawns eich plentyn o gael cynnig lle.**
- Cofiwch – mae'n **rhaid** i chi lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin hefyd.

**Enw'r plentyn:** ________________________________________

**Cyfeiriad y plentyn:** ________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Enw'r Rhiant/Gofalwr:**[14] ________________________________________

**E-bost y Rhiant/Gofalwr:** ________________________________________

Darllenwch Bolisi Derbyniadau perthnasol yr ysgol, gan nodi'n benodol unrhyw feini prawf ffydd, a llyfryn eich Awdurdod Lleol, cyn llenwi'r ffurflen hon.

**SYLWER: Wrth lenwi'r Ffurflen Gais Gyffredin, mae'n bwysig eich bod yn darparu manylion unrhyw frodyr a chwiorydd a fydd yn mynychu'r ysgol Gatholig ar yr adeg y bwriedir derbyn. Os na ddarperir yr wybodaeth hon, efallai na fydd awdurdod derbyn yr ysgol Gatholig yn gallu gosod y cais o fewn y meini prawf cywir.**

**Statws Crefyddol y plentyn (nodwch drwy roi tic yn y blwch priodol – nodwch mai dim ond mewn un blwch y dylid nodi tic)**

| **Meini Prawf** | **Blwch Ticio** | **Tystiolaeth: nodwch fanylion yn unol â'r Nodiadau isod** |
|---|---|---|
| 1. Catholig | ◻ | |
| 2. Catecwmen | ◻ | |
| 3. Aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol | ◻ | |
| 4. Aelod o enwad Cristnogol arall | ◻ | |
| 5. Aelod o ffydd arall | ◻ | |

| |
|---|
| Y [Plwyf] [Deoniaeth] Catholig lle mae eich plentyn yn byw: |

Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, rydym am sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r diben yr ydym yn casglu ac yn prosesu'r data yr ydym wedi gofyn i chi ei ddarparu ar y ffurflen hon.

1. Ni yw

   **Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Rhodfa Cook Rees, Castell-nedd, SA11 1UR.**

2. Gan ein bod yn ddarparwr addysg Gatholig, rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Esgobaethol yr Ysgol, Ymddiriedolwyr yr Ysgol, yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Addysg Gatholig a Llywodraeth Cymru, a gallwn rannu'r wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen gais hon os ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau.

3. Y person sy'n gyfrifol am ddiogelu data o fewn ein sefydliad yw **Mrs Philippa Brooks** a gallwch gysylltu â hi gydag ymholiadau ynghylch sut rydym yn trin y data. Gallwch gysylltu â hi drwy **ffonio 01639 635099 neu anfon e-bost i Office@stjosephsprimary.npt.school**

4. Mae angen y wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani am resymau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau fel awdurdod derbyn yr ysgol.

5. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU).

6. I'r graddau eich bod wedi rhannu unrhyw gategorïau arbennig o ddata, ni fydd hyn yn cael ei rannu ag unrhyw drydydd partïon ac eithrio fel y manylir ym mharagraff 2 uchod, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol yn codi.

7. Mae'n angenrheidiol i ni brosesu data categori arbennig er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr (Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU).

Yn ogystal, mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol ar sail cyfraith ddomestig sy'n gymesur â'r nod a geisir ac sy'n cynnwys mesurau diogelwch priodol (Erthygl 9(2)(g) GDPR y DU).

8. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon yn cael ei symud i system gofrestru'r ysgol, a bydd y data yn cael ei gadw a'i brosesu ar sail hysbysiad prosesu teg yr ysgol a pholisïau diogelu data sy'n berthnasol i'r data hwnnw.
9. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd y ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn cael eu dinistrio ar ôl cyfnod o 12 mis. Gall yr ysgol gadw cofnod syml o bob cais a'i ganlyniad fel rhan o'i harchifau parhaol yn unol â pholisi cadw data'r ysgol.
10. I ddarllen am eich hawliau unigol gallwch gyfeirio at hysbysiad prosesu teg a pholisïau diogelu data'r ysgol.
11. Os hoffech gwyno am sut rydym wedi casglu a phrosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon, gallwch wneud cwyn i'n sefydliad drwy **gysylltu â'n person dynodedig, Mrs Philippa Brooks.** Os ydych chi'n anfodlon â sut mae eich cwyn wedi cael ei thrin, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ei wefan yn: ico.org.uk.

**Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen Polisi Derbyniadau'r ysgol a bod y wybodaeth a ddarperais yn gywir. Rwy'n deall bod yn rhaid i mi hysbysu'r ysgol ar unwaith os bydd unrhyw newid i'r manylion hyn ac, os bydd unrhyw wybodaeth a roddais yn anghywir, y gall yr Awdurdod Derbyniadau dynnu unrhyw gynnig lle yn ôl hyd yn oed os yw'r plentyn eisoes wedi dechrau yn yr ysgol.**

Llofnodwyd……………………..                    Dyddiad……………………………

**Nodiadau**

**1. Tystiolaeth o Fedydd Catholig**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol i blentyn Catholig, mae angen tystiolaeth o fedydd Catholig neu dderbyn i'r Eglwys. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dystysgrif derbyn i gymundeb llawn yr Eglwys Gatholig ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

Gall yr awdurdod derbyn ofyn am dystiolaeth ategol ychwanegol os nad yw'r dogfennau ysgrifenedig a ddarperir yn egluro'r ffaith bod y plentyn wedi'i fedyddio neu ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig, e.e. lle nad yw enw a chyfeiriad yr eglwys ar y dystysgrif neu lle nad yw enw'r eglwys yn nodi a yw'n eglwys Gatholig ai peidio. Dylai'r rhai sy'n cael anhawster cael tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd neu dderbyniad i'r Eglwys gysylltu â'u Hoffeiriad Plwyf.

**2. Tystiolaeth ar gyfer Catecwmeniaid**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol/academi ar gyfer catecwmen, bydd angen tystiolaeth ei fod yn aelod o gatecwmeniaeth Eglwys Gatholig. Dylid darparu tystysgrif derbyn i urdd y catecwmeniaid ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**3. Tystiolaeth o Aelodaeth o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol ar gyfer aelod o Eglwys Gristnogol Ddwyreiniol, gan gynnwys Eglwysi Uniongred, bydd angen tystiolaeth o aelodaeth. Dylid darparu tystysgrif bedydd neu dderbyn gan awdurdodau'r Eglwys honno ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**5. Tystiolaeth ar gyfer Enwad Cristnogol Arall a Ffydd Arall**

Os gwneir cais am le yn yr ysgol fel aelod o enwad Cristnogol arall neu ffydd arall, bydd angen tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o'r enwad Cristnogol neu'r ffydd honno, wedi'i llofnodi gan y gweinidog crefydd neu'r arweinydd ffydd priodol. Dylid darparu'r dystiolaeth ar yr un pryd ag y dychwelir y ffurflen hon i'r ysgol.

**Rhestr Wirio:**

Ydych chi wedi amgáu?

- Copi o dystysgrif bedydd neu dderbyn i'r Eglwys Gatholig (lle bo'n berthnasol).
- Tystiolaeth yn cadarnhau aelodaeth o enwad Cristnogol neu ffydd arall (lle bo'n berthnasol).

Ydych chi wedi llenwi a dychwelyd Ffurflen Gais Gyffredin eich awdurdod lleol?

*St. Joseph's Catholic School & Sixth Form Centre*

Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff

# Polisi Derbyn

**Ynghylch derbyn disgyblion ym mis Medi ym mlwyddyn academaidd 2027**

*Mae'r polisi hwn wedi'i fodelu ar Bolisi Derbyn Enghreifftiol Esgobaeth Mynyw.*

**Cymeradwywyd y Polisi Derbyn gan y Llywodraethwyr:**

**Llofnod y Cadeirydd …………………..…………… *Dyddiad: 25/03/2026***

Enw'r Ysgol: **Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff**

Dyma Bolisi Derbyn Llywodraethwyr Ysgol Sant Joseff:

Mae ethos yr ysgol hon yn Gatholig. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg ar gyfer plant teuluoedd Catholig. Caiff yr ysgol ei chynnal gan ei chorff llywodraethu fel rhan o'r Eglwys Gatholig yn unol â'i Dogfen Ymddiriedolaeth a'i Hofferyn Llywodraethu. Bydd yn ceisio bob amser bod yn dyst i Iesu Grist. Gofynnwn i bob rhiant sy'n cyflwyno cais am le yma i barchu'r ethos hwn a'i bwysigrwydd i gymuned yr ysgol a'r addysg a ddarperir gan yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni sydd ddim yn rhannu ffydd yr ysgol hon i ymgeisio am le ac i gael eu hystyried am le yma.

Nifer Derbyn yr Ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2027/28 yw 144 (Cyfrifiad Capasiti Ysgolion Uwchradd Castell-nedd Port Talbot, haf 2021).

Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu unrhyw gais yn unol â'r meini prawf a restrir, ar yr amod y bydd y llywodraethwyr yn cael eu hysbysu am y cais cyn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion (gweler Nodyn 1 isod).

Ym mhob categori, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu'r sawl sydd â brawd neu chwaer (gweler Nodyn 3 isod) yn mynychu Ysgol Sant Joseff ar adeg eu derbyn, ac yna'r plant hynny sy'n byw'n agosaf at yr ysgol, ar sail y pellter byrraf (gweler Nodyn 5).

1. Plant sy'n Gatholigion Bedyddiedig (gweler Nodyn 2 isod) sydd yn derbyn gofal (neu a arferai dderbyn gofal) gan yr awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol (e.e. plant sy'n byw gyda rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989); a phlant sy'n Gatholigion Bedyddiedig sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n blant i staff y lluoedd arfog.

2. Plant nad ydynt yn Gatholigion Bedyddiedig (gweler Nodyn 2 isod) sydd yn derbyn gofal (neu a arferai dderbyn gofal) gan yr awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol (e.e. plant sy'n byw

gyda rhieni maeth) (Adran 22 Deddf Plant 1989); a phlant sy'n Gatholigion Bedyddiedig sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n blant i staff y lluoedd arfog.

3. Plant sy'n Gatholigion Bedyddiedig sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol Gatholig benodedig sy'n bwydo'r ysgol uwchradd.

4. Plant sy'n Gatholigion Bedyddiedig sydd ar hyn o bryd yn byw yn ardal plwyf ysgol Gatholig ddynodedig sy'n bwydo'r ysgol uwchradd (gweler nodyn 4 isod).

5. Plant eraill sy'n Gatholigion Bedyddiedig.

6. Plant nad ydynt yn Gatholigion Bedyddiedig sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol Gatholig benodedig sy'n bwydo'r ysgol uwchradd.

7. Plant eraill nad ydynt yn Gatholigion Bedyddiedig.

**Nodyn 1**

Bydd yn rhaid derbyn plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi'r ysgol. Fe wnaiff hyn leihau nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer ymgeiswyr eraill.

**Nodyn 2**

Ym mhob categori, i allu ystyried bod plentyn yn Gatholig, bydd angen tystiolaeth o Fedydd Catholig neu Dderbyn y plentyn i'r Eglwys. I weld diffiniad o Gatholigion Bedyddiedig, trowch at yr Atodiad. Dylai'r sawl sy'n cael trafferth dangos tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd gysylltu ag Offeiriad eu Plwyf.

Dylai rhieni sy'n cyflwyno cais am le ar gyfer plentyn Catholig lenwi ffurflen gwybodaeth ategol hefyd. Os na chaiff y ffurflen gwybodaeth ategol ei llenwi, gall hynny ddylanwadu ar y maen prawf y caiff y plentyn ei gynnwys ynddo.

**Nodyn 3**

Yn achos plant sy'n Gatholigion a phlant sydd ddim yn Gatholigion, dyma'r diffiniad o frawd neu chwaer:

- Brawd neu chwaer sy'n rhannu'r ddau riant;
- Hanner brawd neu hanner chwaer, pan fydd dau blentyn yn rhannu un rhiant sy'n gyffredin i'r ddau;
- Llys-frawd neu llys-chwaer, pan fydd dau blentyn yn perthyn trwy briodas rhiant;
- Plant sydd wedi'u mabwysiadu neu blant maeth

Mae'n rhaid i'r plant fod yn byw yn barhaol yn yr un aelwyd.

**Nodyn 4**

Dyma ysgolion bwydo dynodedig Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff:

- Ysgol Gatholig Iau Sant Joseff, Port Talbot
- Ysgol Gatholig Santes Therese, Sandfields
- Ysgol Gatholig Sant Joseff, Castell-nedd

***D.S.*** *Yn draddodiadol, bydd rhai disgyblion Catholig o Gastell-nedd Port Talbot yn mynychu Ysgol Sant Joseff yng Nghlydach, ac efallai y byddant yn dewis dychwelyd i ddarpariaeth addysgol yn eu hawdurdod lleol eu hunain trwy ddewis mynychu Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff.*

Dyma ardaloedd plwyfi'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgol uwchradd:

- Sant Joseff, Port Talbot;
- Sant Philip Evans, Cwmafan;
- Santes Therese o Lisieux, Sandfields;
- Ein Harglwyddes o Fargam, Margam
- Sant Joseff, Cymer;
- Sant Joseff, Castell-nedd
- Ein Harglwyddes y Dyrchafael, Llansawel;
- Sant John Kemble, Glyn-nedd;

- Sant  Bened, Clydach;
- Y Galon Sanctaidd, Ystradgynlais.

Mae mapiau plwyfi ar gael yn y plwyfi ac yn yr ysgolion neu trwy'r post ar gais.

**Nodyn 5**

Cyfrifir pellteroedd ar sail y pellter cerdded addas agosfa rhwng cyfeiriad cartref yr ymgeisydd a phwynt a benderfynir gan yr ysgol (giât flaen yr ysgol fel arfer). Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio system gyfrifiadurol, sy'n mesur pob pellter mewn metrau. Bydd yr Arolwg Ordnans yn darparu'r cyfesurynnau a ddefnyddir i blotio cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn y system hon.

Ystyrir mai cyfeiriad cartref disgybl yw preswylfa barhaol plentyn. Dylai'r cyfeiriad fod yn unig breswylfa neu brif breswylfa'r plentyn yn ystod y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Efallai bydd angen tystiolaeth ar bapur.

Os rhennir y gofal yn gyfartal rhwng mam a thad, bydd yn rhaid i rieni nodi pa gyfeiriad y dylid ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu lle yn yr ysgol ac efallai y gofynnir am dystiolaeth.

**CEISIADAU**

Gellir cyflwyno ceisiadau trwy gyfrwng proses ar-lein Castell-nedd Port Talbot neu trwy gyfrwng ffurflen gais ysgrifenedig (ar gael gan yr ysgol a gellir ei hargraffu o wefan yr ysgol). Yn unol â'r cod statudol newydd, caiff llythyrau yn cadarnhau lleoedd yn yr ysgol uwchradd eu hanfon ar yr un dyddiad, dyddiad cynnig lleoedd cyffredin yr awdurdod lleol.

**APELIADAU**

Gall rhieni sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr i wrthod lle i'w plentyn yn yr ysgol anfon apêl mewn ysgrifen at Gadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd panel annibynnol yn gwrando'r apeliadau.

**AILADRODD CEISIADAU**

Oni bydd newidiadau sylweddol a materol berthnasol yn amgylchiadau cais rhiant am le i'w plentyn yn yr ysgol, ni wnaiff y llywodraethwyr ystyried cais a ailadroddir yn yr un flwyddyn academaidd.

**CEISIADAU HWYR**

Caiff ceisiadau hwyr eu trin yn unol â'r cynllun sy'n cael ei gydlynu gan yr awdurdod lleol.

**NEWID DEWIS**

Pan fydd rhieni/gofalwyr wedi cyflwyno eu dewisiadau, ni chaniateir iddynt eu newid oni bydd newid eithriadol yn eu hamgylchiadau, er enghraifft, os bydd y teulu wedi symud tŷ yn ddiweddar neu os bydd sibling hŷn wedi symud i ysgol arall.

Dylai pob cais i newid dewisiadau gael eu hanfon mewn ysgrifen at yr Awdurdod Lleol.

Os bydd unrhyw riant/gofalwr yn cyflwyno cais i newid ei ddewis am ysgol ble ceir mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael, heb newid eithriadol yn eu hamgylchiadau, gwrthodir y cais hwnnw.

**DERBYN DISGYBLION AC EITHRIO'R COHORT ARFEROL A DDERBYNNIR I FLWYDDYN 7**

I symud i ysgolion eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot, dylid anfon ceisiadau at yr awdurdod lleol, a fydd yn gorfod ymgynghori â'r ysgol. I drosglwyddo o ysgolion oddi allan i'r sir (neu o wlad dramor), gall ymgeiswyr gysylltu â'r awdurdod lleol, a wnaiff gysylltu â'r ysgol, neu gellir cysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol.

**RHESTRAU AROS**

Bydd rhieni na fydd eu plant yn cael cynnig lle yn yr ysgol o'u dewis yn cael eu hysbysu am eu hawl i apelio ac ychwanegir eu henw at restr aros yr ysgol y maent yn ei ffafrio.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon ei restrau aros at ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ar ôl cynnig lleoedd mewn ysgolion.

Bydd rhestrau aros am leoedd mewn ysgolion ar agor tan 30 Medi, a byddant yn cael eu diddymu wedi hynny. Gall rhieni gyflwyno cais i gynnwys enw eu plentyn ar y rhestr unwaith yn rhagor tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, pan gaiff y rhestr ei diddymu.

Ni chaiff rhestrau aros yn dod yn rhai terfynol yn dilyn cynnig lleoedd. Byddant yn cael eu cynnal yn unol â'r drefn blaenoriaethau ar gyfer dyrannu lleoedd ac felly gellir eu newid. Mae hyn yn golygu y gallai safle'r plentyn ar y rhestr aros fynd i fyny neu i lawr. Bydd enwau unrhyw ymgeiswyr hwyr a gaiff eu derbyn yn cael eu hychwanegu at restr yr ysgol yn unol â threfn y blaenoriaethau i ddyrannu lleoedd.

Nid yw cael eich cynnwys a restr aros ysgol yn golygu y bydd lle ar gael maes o law. Efallai bydd y sawl sydd eisoes wedi cael cynnig lleoedd yn eu derbyn, felly bydd yr holl leoedd yn cael eu llenwi.

Mae plant sy'n destun gorchymyn gan yr awdurdod lleol i'w derbyn neu rai y clustnodir lle iddynt mewn ysgol yn unol â Phrotocol Mynediad Teg yn cael blaenoriaeth ar y sawl y mae eu henwau ar restr aros.

**PROTOCOL MYNEDIAD TEG YN YSTOD BLWYDDYN YSGOL**

Mae'r corff llywodraethu wedi mabwysiadu protocol mynediad teg yr Awdurdod Lleol ar gyfer plant sydd eisoes wedi cael gwaharddiad neu blant y mae'n anodd cael lle iddynt.

**POLISI DERBYN BLWYDDYN 12**

Nifer Derbyn yr Ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2027/28 yw 143 (Cyfrifiad Capasiti Ysgolion Uwchradd Castell-nedd Port Talbot, haf 2021).

Nid oes angen i fyfyrwyr sydd eisoes ar gofrestr Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff ymgeisio (ond gofynnir iddynt nodi a ydynt yn bwriadu parhau, a nodi pa bynciau yw'r dewisiadau y maent yn eu ffafrio). Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na 150, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'r un meini prawf a ddefnyddir i dderbyn disgyblion i Flwyddyn 7.

Nid oes unrhyw daliadau na chostau yn gysylltiedig â derbyn plentyn i Ysgol a Chanolfan Chweched Dosbarth Gatholig Sant Joseff.

**Atodiad**

## DIFFINIAD O "GATHOLIGION BEDYDDIEDIG"

Ystyr 'Catholig Bedyddiedig' yw rhywun sydd:
Wedi cael ei fedyddio i gymundeb llawn (gweler *Catecism yr Eglwys Gatholig*, 837) â'r Eglwys Gatholig trwy gyfrwng Defodau Bedydd un o'r gwahanol Eglwysi defosiynol sydd mewn cymundeb ag Esgobaeth Rhufain (h.y. defod Lladin, defod Fysantaidd, Coptig, Syriaidd, ac ayyb yr Eglwys Gatholig, 1203). Gellir cael tystiolaeth ysgrifenedig* o'r bedydd hwn trwy ddefnyddio Cofrestrau Bedydd yr eglwys lle digwyddodd y bedydd (gweler *Cod y Gyfraith Eglwysig, 877 a 878*).

neu
Wedi cael ei fedyddio'n ddilys mewn cymuned eglwysig sydd ar wahân, ac wedi hynny, wedi cael ei dderbyn i gymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig trwy gyfrwng *Defod Derbyn Cristnogion Bedyddiedig i Gymun Llawn yr Eglwys Gatholig*. Gellir cael tystiolaeth ysgrifenedig o'u bedydd a'u derbyn i gymundeb llawn â'r Eglwys Gatholig trwy edrych yn y Gofrestr Derbyniadau, neu mewn rhai achosion, is-adran o Gofrestrau Bedydd yr Eglwys lle digwyddodd y *Ddefod Derbyn* (gweler *Defod Derbyn yn Gristion*, 399).

### TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG O FEDYDD

*Bydd angen i gyrff llywodraethu ysgolion Catholig gael tystiolaeth ysgrifenedig ar ffurf Tystysgrif Bedydd neu Dystysgrif Derbyn cyn gellir ystyried ceisiadau am leoedd mewn ysgolion o dan gategorïau "Catholigion Bedyddiedig". Dylai Tystysgrif Bedydd neu Dderbyn gynnwys: enw llawn, dyddiad geni, dyddiad bedydd neu dderbyn ac enw'r rhiant/enwau'r rhieni. Dylai'r dystysgrif ddangos hefyd ei bod wedi'i chopïo o'r cofnodion sy'n cael eu cadw gan leoliad y bedydd neu'r derbyn.*

*Efallai y bydd y sawl a fyddai'n cael trafferth canfod tystiolaeth ysgrifenedig o fedydd am reswm da, yn dal i gael eu hystyried yn Gatholigion Bedyddiedig ond dim ond ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at eu hoffeiriad plwyf a fydd, ar ôl ymgynghori â'r Ficer Barnwrol, yn penderfynu sut ddylid datrys y cwestiwn o*

*fedydd a pha dystiolaeth ysgrifenedig y dylid ei dangos yn unol â chyfraith yr Eglwys.*

*Byddai'r sawl y byddid yn ystyried bod ganddynt rheswm da dros fethu â chanfod tystiolaeth ysgrifenedig yn cynnwys y rhai na allant gysylltu â'r man bedydd oherwydd erledigaeth neu ofn, dinistrio'r eglwys a'r cofnodion gwreiddiol, neu os gweinyddwyd bedydd yn ddilys ond nid yn eglwys y Plwyf ble cedwir cofnodion.*

*Gall llywodraethwyr ofyn am dystiolaeth ategol ychwanegol os na fydd y dogfennau ysgrifenedig a gyflwynir yn cadarnhau'r ffaith bod unigolyn wedi'i fedyddio neu wedi cael ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig (h.y. os na fydd enw a chyfeiriad yr Eglwys ar y dystysgrif neu os na fydd enw'r Eglwys yn nodi a yw'n Eglwys Gatholig neu beidio).*

St Therese's Catholic Primary School

Ysgol Catholig San Therese

**Byddwch Lawen, Dysgwch a Chadwch y Ffydd**

# POLISI DERBYN
## (yn cynnwys Gweithdrefnau Apelio)
## Blwyddyn Academaidd 2027-2028

Dyddiad yr adolygiad gan y Corff Llywodraethu: ______________________________

Dyddiad adolygiad pellach: ______________________________________________

**Ysgol Gynradd Gatholig Santes Therese – Polisi Derbyn**

1. Mae Ysgol Sant Therese yn Ysgol Gynradd Gatholig yn Esgobaeth Mynyw, ac mae'n cael ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Castell-nedd Port Talbot.

2. Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am bennu a gweinyddu'r polisi ynghylch derbyn disgyblion i'r ysgol. Caiff arweiniad i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw gan:
   a) ofynion y gyfraith;.
   b) cyngor Ymddiriedolwyr yr Esgobaeth ynghylch natur a diben ei ddyletswyddau ac ac ynghylch cyflawni gofynion ei Ddogfen Ymddiriedolaeth a'i Offeryn Llywodraethu;
   c) ei ddyletswydd tuag at yr ysgol a'r gymuned Gatholig y mae'n ei gwasanaethu;
   d) cymeriad Catholig yr ysgol a'i Datganiad Cenhadaeth.

   Mae ethos yr ysgol hon yn Gatholig. Sefydlwyd yr ysgol gan yr Eglwys Gatholig i ddarparu addysg ar gyfer plant teuluoedd Catholig. Gofynnwn i bob rhiant sy'n cais cais am le yma i gefnogi a pharchu'r ethos hwn, pwysigrwydd yr ethos hwn i gymuned yr ysgol a'r addysg a ddarperir gan yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni sydd ddim yn rhannu ffydd yr ysgol hon i ymgeisio am le ac i gael eu hystyried am le yma.

   Bydd Nifer Derbyn yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol sy'n cychwyn ym mis Medi yn 30.

   Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu unrhyw gais yn unol â'r meini prawf a restrir, ar yr amod y bydd y llywodraethwyr yn cael eu hysbysu am y cais cyn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion (gweler Nodyn 1 isod). Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd mewn unrhyw gategori, bydd y llywodraethwyr yn blaenoriaethu'r plant sy'n byw'n agosaf at yr ysgol, ar sail y pellter byrraf (gweler Nodyn 4).

3. Yn anad dim, mae'r ysgol yn gwasanaethu plant sy'n Gatholigion Bedyddiedig sy'n byw ym mhlwyfi Santes Therese, Sant Joseff ym Mhort

Talbot, Ein Harglwyddes y Dyrchafael, Llansawel ac Ein Harglwyddes o Fargam.

4. Dylid defnyddio’r ffurflen amgaeedig i gyflwyno cais am le yn yr ysgol a dylid ei dychwelyd at yr ysgol ddim hwyrach na’r mis Ebrill cyn y bydd y plentyn yn cychwyn yn yr ysgol.

5. Mae’r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo cyfrifoldeb am benderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion i’w Bwyllgor Derbyn, a bydd y pwyllgor hwnnw yn ystyried yr holl geisiadau ar yr un pryd ac ar ôl dyddiad cau cyflwyno ceisiadau, yn unol â’r meini prawf a amlinellir ar y dudalen nesaf.

6. Bydd disgyblion sy’n cael eu derbyn i’r ysgol yn cychwyn yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi.

7. Os bydd y Corff Llywodraethu wedi gwrthod cais am le, gall rhieni apelio at Banel Apeliadau Annibynnol. Bydd yn rhaid anfon yr apêl mewn ysgrifen at Glerc y Corff Llywodraethu yn yr ysgol o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) ar ôl i’r cais gael ei wrthod. Bydd yn rhaid i rieni nodi rhesymau dros apelio mewn ysgrifen, a bydd yn rhaid i’r Llywodraethwyr gydymffurfio â phenderfyniad y panel apeliadau.

   Os enwir yr ysgol mewn datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, bydd gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd i dderbyn y plentyn i’r ysgol.

   Yn unol â gofynion y gyfraith, ni wnaiff y Corff Llywodraethu dderbyn mwy na 30 o ddisgyblion i unrhyw ddosbarth Derbyn neu ddosbarth Babanod unigol.

## Meini Prawf Derbyn

Os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu'r meini prawf canlynol ynghylch hynny yn nhrefn blaenoriaeth:

